

Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chyn- llun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chyn-
llunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol
Caerdydd, a Chwmni Sbectrwm



Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe

Adolygiad annibynnol ar ran Llywodraeth Cymru gan y Dr Jeremy Evas, Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost, a'r Athro Colin H. Williams, Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, gyda Cefin Campbell, Cwmni Sbectrwm

<http://www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/>

<http://sbectrwm.com/index.php/cy>

1 Tabl Cynnwys

1	Tabl Cynnwys.....	3
2	Crynodeb Gweithredol	5
2.1	Cefndir.....	5
2.2	Ateb y galw	6
2.3	Gwerthuso Cynllunio Ieithyddol ar Lefel Feicro	6
2.4	Gwelliannau Posibl i Strwythurau Hyrwyddo'r Gymraeg.....	6
2.5	Adnoddau a Hyfforddiant.....	7
2.6	Arweiniad Strategol Llywodraeth Cymru	7
2.7	Cryfder Cydweithio.....	7
3	Rhestr o'r Argymhellion	9
4	Cyflwyniad i'r Maes	11
4.1	Sgop yr Adolygiad	11
4.2	Datblygiad y Mentrau Iaith: Cyd-destun.....	12
4.3	Sefydlu'r Cynlluniau Gweithredu Iaith: Cyd-destun	13
4.4	Sefydlu Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe: Cyd-destun	16
5	Methodoleg.....	17
5.1	Ymchwil Pen Desg.....	18
5.2	Nodyn ar gyfrinachedd.....	19
5.3	Themâu	19
6	Canlyniadau'r Gwaith Maes: Mentrau Iaith.....	20
6.1	Materion Cyllido.....	20
6.1.1	Cyllido'r Mentrau Iaith Heddiw	20
6.1.2	Cyllido'r Mentrau Iaith i'r Dyfodol.....	21
6.2	Strwythurau'r Mentrau	22
6.2.1	A oes angen Menter Iaith ymhob Sir yng Nghymru?.....	22
6.2.2	Datblygu rôl y Mentrau Iaith	24
6.2.3	Datblygu Rôl Mentrau Iaith Cymru?.....	25
6.2.4	A yw'r Mentrau yn gwneud gwaith y dylai eraill fod yn ei wneud?	28
6.3	Gweithio Mewn Partneriaeth	29
6.3.1	Rhannu Arfer Da rhwng y Sefydliadau.....	29
6.3.2	Partneriaethau rhwng y Mentrau	30
6.3.3	Partneriaethau a Chysylltiadau Allanol.....	31
6.3.4	A yw'r Mentrau yn dyblygu gwaith eraill?.....	32
6.3.5	Mentrau Iaith, Awdurdodau Lleol a chyrrff eraill: cydweithio strategol?	33
6.3.6	Barn Partneriaid: Mentrau a chydweithio strategol.....	34
6.4	Gweithio'n Strategol.....	36
6.4.1	Datblygu rôl y Mentrau Iaith ymhellach?.....	38
6.4.2	Y Sefydliadau'n Cnoi Cil ar eu Gwaith.....	39
6.4.3	Prif ffrydio ystyriaethau economaidd	41
6.4.4	Ffit Strategol.....	43
6.5	Gweithgareddau	44
6.5.1	Addasrwydd ystod y gweithgareddau	44
6.5.2	Gweithgareddau ar lawr gwlad.....	45
6.6	Agweddau Rheolaethol/Gweinyddol	47
6.6.1	Gweledigaeth, rhaglen waith a chasglu data	47
6.6.2	Mesur deilliannau ac effaith ieithyddol	48
6.6.3	Llwyddiant gweithgareddau a sut y'u rheolir mewn modd priodol a chadarn	49

6.6.4	Effaith ehangach y tu hwnt i amcanion ieithyddol craidd	50
6.6.5	Teilwra i anghenion lleol a chynulleidfaeodd i'w cyrraedd.....	51
6.6.6	Arloesi	51
6.6.7	Hyfforddiant, cefnogaeth a dyrchafiadau.....	52
6.6.8	Eitemau Cyfansoddiadol.....	53
6.6.9	Rôl y Gwirfoddolwyr.....	53
6.6.10	Rôl Aelodau'r Pwyllgor Llywio	54
7	Canlyniadau'r Gwaith Maes: Cynlluniau Gweithredu iaith	55
7.1	Cyllido'r Cynlluniau Gweithredu iaith	55
7.1.1	A ellir cyfiawnhau parhau i gyllido CGI unigol ar yr un raddfa?.....	55
7.2	A oes angen Cynllun Gweithredu iaith mewn rhannau eraill o Gymru?	55
7.3	Datblygu rôl y Cynlluniau Gweithredu iaith ymhellach?.....	55
7.4	Ystod briodol o weithgareddau.....	56
7.4.1	A yw'r CGI yn dyblygu gwaith eraill?	56
7.5	CGI a gwaith partneriaeth	56
7.6	Effeithiolrwydd y CGI o safbwynt mesur deilliannau ac effaith	56
7.7	A fyddai'n fanteisiol uno'r Mentrau a'r CGI?	57
7.8	Strwythurau i sicrhau gweithio effeithiol?	57
8	Canlyniadau'r Gwaith Maes: Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Aman Tawe	58
8.1	Beth sy'n rhwystro gwaith partneriaeth amlasiantaethol?	61
8.2	Athroniaeth Reolaethol y sefydliadau	62
9	Themâu i'w hystyried	63
9.1	Sut mae mesur llwyddiant Ymyrraeth Ieithyddol Gymunedol?	63
10	Diweddsglo	64
10.1	Cryfhau Partneriaethau	65
10.2	Y Ffordd Ymlaen?.....	67
11	Atodiadau	69
11.1	Cyllid Llywodraeth Cymru i'r Sefydliadau (2012-2014)	69
11.2	Y Gwahanol Offerynnau Ymchwil a Ddefnyddiwyd	70
11.3	Dadansoddiad SWOT.....	72
11.4	Holiadur i'r Sefydliadau	74
11.5	Canllaw Cyfweliadau wyneb yn wyneb	85
11.6	Ffurflen Cydsynio	87
11.7	Rhestr o'r sefydliadau a'u statws cyfansoddiadol.....	88
11.8	Cyllideb a ffynonellau incwm y Mentrau Iaith	89
11.9	Gweithgareddau'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu iaith.....	93
11.10	Rhestr o weithgareddau Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe	94
12	Llyfryddiaeth	97

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Cefndir

Yn mis Mawrth 2013 comisiynwyd Prifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru i gynnal Adolygiad annibynnol o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe ('y sefydliadau'). Bu'r Brifysgol yn cydweithio gyda Chwmni Sbectrum Cyf ar hyd y broses ymchwil.

Nod yr Adolygiad annibynnol oedd llunio adroddiad i Lywodraeth Cymru ynghylch nifer o faterion gan gynnwys:

- y dulliau a ddefnyddir gan y sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;
- adnabod yr ystod gyfan o weithgareddau a gynhelir gan y sefydliadau—ac asesu i ba raddau maent yn adlewyrchu anghenion lleol, ac i ba raddau mae'r sefydliadau'n casglu data yn effeithiol mewn ymgais i asesu effaith weithgareddau;¹
- a yw strwythurau'r sefydliadau'n sicrhau gweithio effeithiol, gweithio mewn partneriaeth a rhannu arfer da;
- faint o botensial sydd i ddatblygu rôl y mentrau ymhellach;
- a yw'r mentrau yn gwneud gwaith y dylai eraill fod yn ei wneud (fel awdurdodau lleol);
- a yw lefel y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru yn briodol.

Mae'r Adolygiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm ymchwil drwy holiaduron, cyfweiliadau a dogfennaeth gan y sefydliadau.

Ceir 23 Menter Iaith yng Nghymru.² Maent wedi tyfu mewn modd organig, mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol a daearyddol, yn bennaf ar lefel sirol neu rannol sirol. O'r herwydd ni ellir bellach gyfeirio atynt fel un endid, ond yn hytrach fel casgliad o wahanol weithgareddau a strwythurau a *elwir* yn Fentrau Iaith. Cryfder amlycaf y math hwn o sefydliad yw bod gwreiddiau'r Mentrau Iaith yn ddwfn o fewn y cymunedau. Erbyn hyn, fodd bynnag, nid yw'n deg gofyn iddynt gyflawni'r holl swyddogaethau y mae disgwyl cyffredinol iddynt eu cyflawni. Ni allant fod yn bopeth ieithyddol i bawb.

Mae'r cysyniad o'r tri model o gynllunio ieithyddol y mae'r Adolygiad hwn wedi eu hastudio (Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith, Cynllun Datblygu Ardal), hyd y gwelwn, yn unigryw i Gymru.

Mae 5 Cynllun Gweithredu Iaith yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd.³ Yn wreiddiol, sefydlwyd Cynlluniau Gweithredu Iaith i gydgysylltu ymdrechion hybu ieithyddol mewn

¹ Ystyr 'sefydliad' yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn yw unrhyw un o'r Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith neu Gynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Lle bo angen gwahaniaethu rhwng y sefydliadau, gwneir hynny drwy gyfeirio atynt yn ôl eu henw.

² Cynhaliwyd cyfweiliadau â 22 Menter Iaith. Daethpwyd â grant Menter y Fro i ben yn 2012 a rhoddwyd cyllid i Fenter Iaith Caerdydd weithredu ym Mro Morgannwg.

³ Gweler adran 7 am ragor o wybodaeth ynghylch y Cynlluniau Gweithredu Iaith.

sefyllfaoedd *trefol* lle yr oedd y Gymraeg yn colli tir a lle nad oedd yr egni cymunedol yn ddigonol i gynorthwyo i adfer y Gymraeg.

Ceir un Cynllun Datblygu Ardal yng Nghymru, sef Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Aman Tawe. Fe'i sefydlwyd er mwyn chwilio am fodel newydd o gynllunio cymunedol trawsffiniol (mae'n pontio tair sir) a fyddai'n cynnwys yr holl elfennau cymunedol o fewn y broses adfer iaith gan gynnwys y maes addysg, yr economi, ynghyd â chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc.

2.2 Ateb y galw

At ei gilydd, mae'r sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn wedi eu hastudio yn gwneud ymdrech lew i hyrwyddo'r Gymraeg o ystyried y gyllideb sydd ar gael iddynt a'r rhwystrau strwythurol sy'n pwysu arnynt. Mae'r goreuon yn meddu ar gynlluniau sy'n ateb gofynion lleol (o ran cynllunio ieithyddol a datblygu cymunedol) ac yn meddu ar systemau gweinyddol a rheolaethol sy'n dangos lefel uchel o broffesiynoldeb. Mae eraill, ar y llaw arall, yn gweithredu cynlluniau ad hoc a phytlog. Un sylw nodweddiadol yw'r diffyg enghreifftiau o gynllunio ieithyddol a oedd yn ystyried polisi cyhoeddus ar y cyd â chynllunio ieithyddol lefel feicro a datblygu cymunedol. Hynny yw, nid yw cynllunio holistaidd yn hollbresennol yn y maes. Bach iawn oedd nifer yr enghreifftiau o lunwyr polisi mewn awdurdodau lleol yn trafod ac yn cydgyllunio â'r sefydliadu. Gall hyn fod yn bwysig wrth ystyried ad-drefnu posibl ar lywodraeth leol.

2.3 Gwerthuso Cynllunio Ieithyddol ar Lefel Feicro

Ein casgliad yw bod gormod o sylw wedi'i roi i brosesau a gweithgareddau, heb fynd i'r afael yn ddigonol â dulliau sy'n cynnig tystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae'r sefydliadau yn ei wneud i sefyllfa'r iaith ar lawr gwlad. Gall hwn ddeillio o'r bri a roddir ar gyflawni targedau gweithredol. Prin yw'r dystiolaeth o weithredu mewn dull integredig i fynd i'r afael â chynllunio ieithyddol ar lefel feicro, h.y. gan drafod a chydgyllunio'n drylwyr â chyrff perthnasol mewn meysydd eraill a rhai cysylltiedig. Byddai mabwysiadu rhai o'r egwyddorion a dulliau gwerthuso a drafodir isod yn cyfrannu at well ddealltwriaeth o effaith y sefydliadau a'r gwerth y maent yn ei greu ar gyfer y bunt gyhoeddus.

2.4 Gwelliannau Posibl i Strwythurau Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r dystiolaeth yn nodi bod consensws o blaid sefydlu corff cydlynu cenedlaethol i'r Mentrau Iaith. Yn ogystal, mae cefnogaeth i'r syniad o uno agweddau gweinyddol a rheolaethol y sefydliadau lle bo'n briodol ar lefel facro er mwyn rhyddhau amser a chyllid i gynnal mwy o weithredu ar lefel feicro. Nid oes cefnogaeth eang i'r syniad o uno'r holl *Fentrau Iaith* yn gyfansoddiadol fel un endid cenedlaethol. Mae'r Mentrau'n cael anhawster wrth fynd ati i benodi staff sy'n brofiadol ac yn meddu ar arbenigedd sylweddol yn y maes cynllunio ieithyddol. Yn gyffredinol, er gwaethaf y ffaith bod polisi iaith y Gymraeg wedi esgor ar gynifer o gyfleoedd i weithio ym maes hyrwyddo ieithyddol, nid yw cynllunio ieithyddol o reidrydd wedi datblygu'n alwedigaeth arbenigol. Yn wyneb y broblem hon, teg nodi hefyd bod rhai sefydliadau'n gweithio'n arbennig o dda o ystyried cyn ised y cyllid a chyn uchod y disgwyliadau sydd arnynt i ysgwyddo cyfrifoldeb am y Gymraeg yn eu hardaloedd. Cawsom dystiolaeth bod gan y sefydliadau staff sy'n frwdfrydig ac ymroddgar

iawn. Credwn fod ganddynt botensial aruthrol ar sail eu hymrwymiad i'r iaith i fod yn effeithiol iawn, ond nid ydym yn teimlo eu bod bob amser, ac ymhob sefydliad, yn sianelu'r egni hwn i gyfeiriad pwrpasol ac i gynlluniau sy'n gwneud gwahaniaeth strategol, cynaliadwy yn y manau priodol. Ceir sawl eithriad clodwiw i hyn.

Un agwedd lle y ceir cryn botensial yw arweiniad strategol ar lefel Cymru gyfan. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn dangos bod angen cysondeb o ran dulliau gweithredu a rheoli ynghyd â buddsoddiad sylweddol o ran hyfforddiant a datblygiad staff. Yr ateb amlycaf a gynigwyd gan yr ymatebwyr oedd bod angen cryfhau ac ailstrwythuro Mentrau Iaith Cymru am na all fynd i'r afael â'r materion hyn yn ddigonol ar hyn o bryd.

2.5 Adnoddau a Hyfforddiant

Clywsom fod cylch gweithredu tymor byr grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo'r Gymraeg (o flwyddyn i flwyddyn) yn atal sefydliadau rhag recriwtio'n ddigonol a rhag cynllunio mewn modd tymor canol a hir. Yn ogystal, teimla'r ymatebwyr fod lefel y cyllid a ddyrennir i'r sefydliadau yn anghyson; mae'n destun cryn rwystredigaeth ar lawr gwlad. O'r herwydd, mae rhai sefydliadau wedi teimlo gorfodaeth—ddealladwy—i chwilio am gyllid drwy lwybrau amgen ac mae risg y gallent fod yn peryglu eu cenhadaeth ieithyddol wreiddiol.

Mae angen cryfhau nifer o elfennau, megis gwell hyfforddiant a dulliau systematig er mwyn adnabod anghenion a blaenoriaethau ieithyddol (ar sail ymchwil, dadansoddi data, barn grwpiau ffocws ac ati), troi'r angen yn gynllun gweithredu, gweithredu prosesau monitro effeithiol a dulliau priodol i fesur deilliannau ac effaith gan nad yw hyn yn digwydd yn gyffredinol ar hyn o bryd.

2.6 Arweiniad Strategol Llywodraeth Cymru

Roedd natur arweiniad gan y Llywodraeth yn gonsŷrn gan nifer o'r sefydliadau. Yn benodol, nodant eu bod yn cael eu gyrru gan dargedau a osodir gan swyddogion Llywodraeth Cymru heb iddynt godi o reidrwydd o ddadansoddiad anghenion lleol. Mae targedau'r Mentrau'n cael eu pennu'n annibynnol ar dargedau'r mudiadau iaith eraill ac nid yw'r targedau'n cael eu cytuno ar y cyd mewn ardal benodol. Gall hyn arwain at ddyblygu gwaith, a thramgwyddo cylch gwaith sefydliadau eraill. Wedi dweud hyn, cawsom nifer o enghreifftiau da o gydweithio, ond mae lle i Lywodraeth Cymru fynd â'r drafodaeth leol a rhanbarthol gam ymhellach er mwyn ei gwneud yn fwy effeithiol, yn arbennig o ran pennu union gyfrifoldebau sefydliadau a llunio eu targedau grant yng nghyd-destun gwaith amlasiantaethol.

2.7 Cryfder Cydweithio

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau hwythau feddu ar weledigaeth gwbl eglur ynglŷn â beth yw swyddogaeth/cylch gorchwyl y sefydliadau sy'n weithredol ochr yn ochr â mudiadau iaith eraill fel yr Urdd, prosiect TWF, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr ac ati. Mae peth dryswch ynglŷn ag ai priod dirioogaeth yr Urdd yn unig (neu sefydliad arall) yw gweithgareddau i blant a phobl ifanc, ai maes gweithredu prosiect TWF yn unig yw teuluoedd, ai cyfrifoldeb y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn unig yw gwaith â dysgwyr?

Mae'r Fforymau Iaith Sirol (fforymau trafod sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau lleol perthnasol) yn cael eu hystyried gan lawer yn endydau heb fod iddynt werth sylweddol, dylanwad strategol nac effaith llusoi, er bod iddynt botensial o ran gallu cydlynu ymdrechion yr holl fudiadau perthnasol a'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol. Yn yr un modd, mae'r uchelgais a pharodrwydd i fentro i feysydd 'anodd' yn amrywio'n fawr o sefydliad i sefydliad. O ganlyniad i'r anghysondeb hwn, mae rhai sefydliadau'n dal i fodloni â'r meddylfryd 'bore coffi', tra bo sefydliadau mwy arloesol yn mynd ag ystyriaethau ieithyddol i fyd cyflogaeth ehangach ac i beuoedd economaidd gwirioneddol strategol a hunangynhaliol.

Clywyd sôn lawer gwaith nad yw'r awdurdodau lleol yn rhoi cefnogaeth ariannol i'r sefydliadau nac ychwaith yn cymryd digon o ddiddordeb yn eu gwaith. Nododd rhai ymatebwyr eu bod o'r farn bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian a roddir i'r sefydliadau o fewn yr Adolygiad fel esgus i beidio â diwallu dyletswyddau o ran y Gymraeg. Byddai gwneud fel arall yn dangos eu bod yn cymryd eu cyfrifoldeb eu *hunain* am weithredu cymunedol a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc—ac am hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach, mewn ffordd briodol a holistaidd. Yn y cyd-destun hwn, clywsom fod rhai o'r sefydliadau'n gwneud ymgais i dynnu sylw cyrff cyhoeddus ynglŷn a'r diffygion yn lleol yn y ddarpariaeth yn y Gymraeg. Mae i'r rôl hon gryn botensial yn y dyfodol.

O ran cydweithredu rhwng sefydliadau ieithyddol eu hunain, fel rheol, nid yw'r berthynas rhwng Cynlluniau Gweithredu Iaith a'r Mentrau Iaith mor dda na chynhyrchiol ag y gallai fod. Mae tensiynau ac elfen o gystadleuaeth yn bodoli rhyngddynt, sy'n llesteirio'r nod ehangach o hyrwyddo'r Gymraeg. Wedi hyn o feirniadaeth, credwn fod y syniad o roi ffocws dwys ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig yn un gwerthfawr ac archwiliwn yr egwyddorion a'r athroniaeth gydweithredol rhwng asiantaethau perthnasol y gallai Cynllun Arbrofol Aman Tawe eu cynnig yn hyn o beth.

3 Rhestr o'r Argymhellion

1. Dylid parhau i adeiladu ar gryfderau gwaith cymunedol y sefydliadau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen parhau i ddatblygu eu gallu i gynllunio, gosod targedau perthnasol a phriodol a mesur effaith eu gwaith. Dylid addasu system ariannu Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu hyn.
2. Dylid sefydlu is-gynllun gweithredu manwl i strategaeth *Iaith Fyw: Iaith Byw*. Yn-ddo, dylid nodi blaenoriaethau manwl ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol a chymdeithasol. Dylid sicrhau mewnbwn arbenigwyr o raglenni megis Cymunedau'n Gyntaf a sefydliadau perthnasol eraill. Ymhlith ei themâu, dylid cynnwys meysydd yr economi a chyflogaeth, bywyd cymunedol, maes plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol, ynghyd â pheuoedd mwy anodd eu cyrraedd y tu allan i strwythurau arferol. Dylid gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fod yn rhan o lunio'r cynllun a'i weithredu.
3. Dylid trefnu cytundeb rhwng yr holl asiantaethau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i gytuno beth yn union yw eu priod ddyletswyddau a thasgau yn y cynllun gweithredu uchod, a hynny ar sail angen cynllunio ieithyddol lleol. Dylai'r fframwaith hwn roi eglurder strategol a hyder i'r sefydliadau hynny ynglŷn â beth yw eu priod waith a lle y dylent gydweithio mewn partneriaeth. Dylai hyn anelu at ddileu dyblygu gwaith. Dylid ystyried rhannu swyddogaethau 'swyddfa gefn' yn y cyd-destun hwn. Dylid addasu system ariannu Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu hyn.
4. Dylid sefydlu grŵp o arbenigwyr ieithyddol a pholisi, nad ydynt yn derbyn cyllid grant, i gynnig llwybr pellach ymlaen yn y maes cynllunio ieithyddol a datblygu economaidd a chymunedol. Dylid hefyd gefnogi corff cydlynu i'r Mentrau Iaith i'w ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Bydd y corff hwn yn gorff partneriaethol i gwmpasu diddordebau polisi'r Llywodraeth a'r Mentrau Iaith eu hunain. Dylid sicrhau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan greiddiol o drefniadau'r corff hwn.
5. Dylid sefydlu rhagor o Gynlluniau Datblygu Ardal. Wrth wneud hyn dylid ystyried p'un a ddylid uno'r Cynlluniau Gweithredu Iaith â'r Cynlluniau newydd hyn neu â'r Mentrau Iaith yn eu hardaloedd. Dylid comisiynu gwaith pellach ar sut mae estyn dylanwad cynlluniau partneriaeth o'r fath. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod eu hawdurdod llawn yn sylfaen i'r datblygiadau partneriaethol hyn. Dylid cynnal asesiad effaith llawn o'r datblygiadau partneriaethol hyn bob 5 mlynedd.
6. Dylid estyn cylch ariannu'r sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg i 3-5 mlynedd. Er mwyn gweld gwerth ieithyddol am y bunt gyhoeddus, dylid cynnal asesiad effaith annibynnol bob 5 mlynedd ar sail y gwaelodlinau y dyrannwyd y cyllid grant ar eu cyfer.
7. Dylid sicrhau rhaglen o hyfforddiant dwys i'r sefydliadau ym maes newid ymddygiadol a chynllunio ieithyddol. Dylid hefyd sefydlu cofnod cenedlaethol ffurfiol o wersi a ddysgwyd er mwyn cyfnewid arfer da a gwael fel y gellir dysgu ohonynt oll.
8. Dylid cryfhau'r berthynas rhwng y sefydliadau a sefydliadau datblygu cymunedol megis Cymunedau'n Gyntaf.

9. Dylid ailfeddwl sut mae dyrannu arian hyrwyddo'r Gymraeg ar y lefel feicro yng Nghymru. Mae sawl ffordd o wneud hyn (nid yw'r isod yn nhrefn blaenoriaeth):
- i. Dim newid yn y broses dyrannu arian, ond cynyddu faint o arian a ddyrennir.
 - ii. Terfynu'r system ariannu gyfredol, adolygu'r holl gyllid a ddyrennir i'r sefydliadau, gan osod disgwyliadau uchelgeisiol a gofyn am gynlluniau gan y sefydliadau a phartïon a chanddynt ddi-ddordeb mewn gweithredu'r is-gynllun gweithredu uchod ar ffurf cais grant o'r newydd. Sicrhau adnoddau priodol i wneud hyn.
 - iii. Rhoi terfyn ar yr holl gyllid a sicrhau bod pob menter yn cael swm penodol fel cyllid grant.
 - iv. Rhoi terfyn ar yr holl gyllid fel uchod a'i ailddyrrannu i Fentrau Iaith Cymru neu glwstwr o fentrau iaith rhanbarthol a chanddynt y cyfrifoldeb am weithredu argymhellion yr adroddiad hwn a blaenoriaethau ieithyddol eraill Llywodraeth Cymru.
 - v. Ariannu'r Mentrau Iaith drwy gynllun Cymunedau'n Gyntaf fel bo modd i'r Mentrau Iaith fanteisio ar ffynonellau incwm llywodraethol 'prif ffrwd' yn ogystal.
 - vi. Rhoi terfyn ar yr holl gyllid fel uchod a'i roi i bartneriaethau Cynllunio Strategol sirol i'w dyrannu.
 - vii. Rhoi terfyn ar yr holl gyllid fel uchod a gweithredu cynllun grantiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol, ond gan bwysleisio mai cychwyn o'r newydd y mae'r holl broses ariannol ac ni fydd derbyn grant o'r blaen yn golygu y bydd grant yn cael ei ddyrrannu i'r un sefydliad eto. Byddai hyn hefyd yn agor posibilrwydd i grwpiau a sefydliadau nad ydynt yn ddeiliaid grant cyfredol gystadlu am arian.
 - viii. Cynnal adolygiad manwl o'r holl wariant ar gynllunio ieithyddol cymunedol (ar ffurf a ddefnyddiodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2009 i archwilio'r celfyddydau) gan fynnu cynllun busnes gan sefydliadau a chan greu portffolio o sefydliadau i ddiwallu anghenion cynllunio ieithyddol cymunedol Llywodraeth Cymru ac argymhellion eraill yr adroddiad hwn.

Awgrymwn weithredu ar sail rhif (ii) uchod

10. Dylid rhoi hyfforddiant tymor hir i'r sefydliadau ar symud i fodel rhagweithiol o gyraedd pobl sy'n aelodau o grwpiau y cyfeirir atynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010, h.y. Oedran, Anabledd, Ethnigrwydd, Gender, Ailaseinio Gender, Priodas a phartneriaethau sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, Crefydd/Cred, Cyfeiriadedd rhywiol.

4 Cyflwyniad i'r Maes

Pan gyhoeddwyd *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* yn 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003), cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) arian ychwanegol i feithrin gallu i gefnogi prosiectau ar lawr gwlad. I'r perwyl hwn, datblygodd y Bwrdd ymhellach ei bartneriaethau ag amrywiol gyrff ledled Cymru, gan gynnwys y Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin a chyrff eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Ym mis Ebrill 2012 trosglwyddwyd y swyddogaeth o ddyrannu grantiau a chomisiynu prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Lywodraeth Cymru. Dyrennir yr arian hynny bellach er mwyn cyfrannu at amcanion strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Iaith Fyw: Iaith Byw* (Llywodraeth Cymru 2012).

Nod yr Adolygiad annibynnol hwn yw llunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru ar waith y Mentrau, gwaith y Cynlluniau Gweithredu Iaith a gwaith Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Pwysleisiwn mai barn annibynnol a gynigir isod, a hynny'n seiliedig ar synthesis o'r holl ddeunydd a gasglwyd drwy'r offerynnau ymchwil a'n dehongliad ni o arwyddocâd a goblygiadau'r dystiolaeth honno. Cynigiwn gyfres o argymhellion yn seiliedig ar ein dehongliad i'r Llywodraeth eu hystyried, gan wybod y bydd angen i'r Llywodraeth ystyried yr argymhellion hynny ar y cyd â nifer o adolygiadau ac adroddiadau diweddar eraill ym maes polisi iaith yng Nghymru.

4.1 Sgop yr Adolygiad

Dylid nodi ar gychwyn cyntaf yr adroddiad hwn nad bwriad yr Adolygiad yw gwerthuso gwaith y Mentrau ac eraill (yn enwedig o ran asesu'r effaith a gânt ar y defnydd o'r Gymraeg). Nod y Llywodraeth yw y bydd yr Adolygiad hwn yn sail ar gyfer cynnal rhagor o waith yn unol â *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2013a). Bydd yr Adolygiad hwn yn cyfrannu at yr wybodaeth gefndirol, a bydd yn tynnu sylw at feysydd y gallai fod angen rhoi mwy o sylw iddynt drwy ymchwil a llwybrau eraill.

O fewn sgôp yr Adolygiad, mae'r elfennau canlynol. Eir i'r afael â'r rhain i wahanol raddau o fanylder, ond y nod wrth gynnal y gwaith maes ac wrth lunio'r adroddiad oedd canolbwyntio ar yr elfennau oedd—neu a allai—hybu'r Gymraeg yn strategol ac yn ymarferol yn hytrach na bod yn awdit rheolaethol.

- Beth yw ystod y gweithgareddau y bydd y sefydliadau yn eu cynnal?
- Statws cyfansoddiadol y sefydliadau a pham y'i dewiswyd
- Sut mae gweledigaeth y sefydliad yn cael ei chreu a'i throï'n gynllun gweithredu, sut mae'r cynllun gweithredu hwnnw yn cael ei lunio wrth ystyried canlyniadau ieithyddol?
- Pa broses sydd yn ei lle i fesur llwyddiant y gweithgareddau o ran canlyniadau i ddefnydd o'r Gymraeg (nodwn fod swyddogaethau awdit a rheolaeth pobl ac arian y tu hwnt i sgôp y prosiect hwn)?
- Nifer staff
- Nifer aelodau ar y Pwyllgor Rheoli, sut y cawsant eu dewis

- Trosiant ariannol
- Ffynonellau a symiau nawdd/incwm/grant
- Manylion unrhyw gytundeb lefel gwasanaeth a/neu gydweithredu ag Awdurdod Lleol neu gyrff cyhoeddus eraill.
- Dadansoddiad SWOT gan y swyddogion eu hunain o'u sefydliad (dadansoddiad canlyniadau'r rhain wrth lunio corff yr adroddiad ac ni fyddant yn cael eu dadansoddi fel thema ar wahân)
- Gweithgareddau hybu'r Gymraeg (ac unrhyw weithgareddau amgen) yn ôl thema, e.e.
 - chwaraeon a hamdden
 - datblygu cymunedol
 - plant a phobl ifanc
 - ymwybyddiaeth iaith
 - trosglwyddo iaith
 - meithrin gallu/hyder ieithyddol arall
 - mentrau masnachol
 - sgiliau iaith
 - gweithgareddau â'r sector preifat
 - gweithgareddau â'r sector cyhoeddus
 - gweithgareddau â'r sector gwirfoddol
 - unrhyw weithgarwch arall
- Cyfweiliadau â phrif bartneriaid y sefydliadau—e.e. Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, Merched y Wawr, prosiect TWF, Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Cyfweiliadau â rhai o brif arbenigwyr yn y maes a phobl brofiadol o ran gweithredu polisi iaith ar wahanol lefelau

Allan o Sgôp

Nid yw'r Adolygiad hwn yn mynd i'r afael â barn neu brofiad 'cwsmeriaid/y cyhoedd' o waith y sefydliadau. Nid yw ychwaith yn edrych ar ba mor effeithiol y mae eu gwaith o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Pwysleisiwn eto, felly, nad yw'n asesiad 'effaith'.

Ystyr 'sefydliad' yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn yw unrhyw un o'r Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith neu Gynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Lle bo angen gwahaniaethu rhwng y sefydliadau, gwneir hynny drwy gyfeirio atynt yn ôl eu henw. Ystyr 'partneriaid' yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn yw unrhyw un o'r sefydliadau y cyfweiliad â hwy sydd â'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg yn eu cenhadaeth mewn rhyw ffordd ond nad ydynt yn fentrau iaith/Cynlluniau Gweithredu Iaith neu Gynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe.

4.2 Datblygiad y Mentrau Iaith: Cyd-destun

Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghymru yn 1991, sef Menter Cwm Gwendraeth. Ym mlwyddyn cynnal yr Adolygiad hwn, sef 2013, mae 23 o Fentrau Iaith ledled Cymru.

Un o rinweddau damcaniaethol y Mentrau yw eu bod yn organig a bod eu cynlluniau'n adlewyrchu anghenion lleol, boed ar lefel sirol neu ardaloedd o fewn ffiniau sirol. Mae

hynny'n golygu bod blaenoriaethau pob un yn wahanol wrth iddynt ymateb i'r cyd-destun ieithyddol a sosio-economaidd sy'n eu hwynebu.

Mae dyfeisgarwch prif swyddogion a Byrddau Rheoli yn golygu bod y Mentrau at ei gilydd wedi datblygu mewn ffordd wahanol iawn i'w gilydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ambell un, er enghraifft, wedi penderfynu mai dylanwadu ar bolisiau awdurdodau lleol yw'r flaenoriaeth iddynt, gan weld bod gan yr awdurdodau gyfraniad pwysig i'w wneud mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, gwasanaethau plant a phobl ifanc, chwaraeon a hamdden, tai a chynllunio, datblygu economaidd ac ati. Mae rhai wedi camu i faes datblygu cymunedol ac adfywio economaidd ac wedi mynd ati i sefydlu mentrau masnachol eu hunain, a thrwy sicrhau incwm o wahanol ffynonellau maent wedi cynyddu nifer y staff sydd ganddynt a'u trosiant ariannol blynyddol. Mae rhai Mentrau wedi cael arian gan awdurdodau lleol i ddarparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar eu rhan, tra bod eraill wedi cyfyngu eu gweithgarwch i gynlluniau sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddefnydd yr iaith a chynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg, heb fentro ymhellach o ran eu cylch gorchwyl.

Mae'r Mentrau yn anorfod wedi gorfod ymateb i heriau lleol a'r cyfyngiadau ariannol sydd arnynt mewn ffordd wahanol, ond yr hyn sy'n eu gwahaniaethu fwyaf yw'r graddau mae pob un wedi datblygu i fod yn gyrrff sefydliadol. O ganlyniad mae rhai yn cyflogi degau o staff sy'n gweithio ar fyrdd o brosiectau iaith a chymunedol gwahanol, ac eraill yn ymdrechu gydag un neu ddau o staff llawn amser.

Ceir rhestr sy'n cynnwys manylion y Mentrau Iaith a'r sefydliadau eraill yn adran 11.7.

4.3 Sefydlu'r Cynlluniau Gweithredu Iaith: Cyd-destun

Cafodd y Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI) cyntaf eu sefydlu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2002 er mwyn rhoi ffocws arbennig i ardaloedd lle yr oedd shifft iaith arwyddocaol yn digwydd tuag at y Saesneg. Gan fwyaf, roedd y cynlluniau cynnar yn targedu trefi a chanddynt ganran cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ond a welodd ddirywiad yn ystod y cyfnod rhwng Cyfrifiad 1991 a 2001.

Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg⁴, mae Cynlluniau Datblygu Ardal (sef yr enw gwreiddiol a roddwyd ar y Cynlluniau Gweithredu Iaith ar ddechrau eu bodolaeth) yn enghreifftiau o:

[g]weithgaredd arloesol sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd holistaidd, ac sydd hefyd yn rhoi ffocws ar hybu'r Gymraeg

⁴ Dogfen 58/3 Cyfarfod Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Pwllheli) [25/2/2002],

<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330013723/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/26.7.2002.pdf>. Ceir hefyd adroddiad ar y Cynllun cyntaf (Abergwaun) ym mhapurau cyfarfod y Bwrdd 53/7 (Carno) [4/10/2001],

<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330013727/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/134.pdf> [Cyrchwyd y ddwy set o bapurau 28/11/13]

fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Caiff yr ardaloedd hyn eu diffinio fel rhai (1) lle mae tystiolaeth o shifft ieithyddol amlwg, a (2) lle mae tystiolaeth fod llai o ddefnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc.

Mae Cynlluniau datblygu ardal yn wahanol i Fentrau iaith oherwydd maent yn targedu ardaloedd llai na'r mentrau tra'n effeithio ar waith sydd y tu hwnt i ddylanwad y Mentrau, e.e. polisïau a gwaith cyrff statudol fel ELWa, Awdurdod Datblygu Cymru a chynghorau sir.⁵

Bwriad y Bwrdd drwy'r cynlluniau hyn oedd chwistrellu egni i ardaloedd penodol yn y gob-aith y byddai gweithredu dwys yn arwain at adfywiad ieithyddol. Drwy ganolbwyntio ymdrechion cynllunio ieithyddol ar ardal gymharol gyfyngedig, y nod oedd cydlynu gwaith amrywiol bartneriaid yn yr ardal a rhoi perchnogaeth i'r gymuned leol yng ngweithrediad y Cynlluniau Gweithredu Iaith. Roedd y Bwrdd yn gweld y Cynlluniau fel erfyn yn y broses normaleiddio iaith, sef ymestyn defnydd o'r iaith i gynifer o sefyllfaoedd cymdeithasol ag y bo modd fel cyfrwng cyfathrebu arferol.

Roedd y Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI) hyn yn cael eu cyflwyno i ardaloedd lle'r oedd Mentrau iaith eisoes yn gweithredu. Roeddynt hefyd yn cael eu sefydlu fel prosiectau an-nibynnol oedd yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan swyddogion y Bwrdd tra roedd swyddogion y Mentrau'n atebol i Bwyllgor Rheoli o wirfoddolwyr lleol. Yr unig eithriad i hyn yw Cynllun DJ yn ardal Abergwaun sydd ers nifer o flynyddoedd wedi dod o dan reolaeth Menter Iaith Sir Benfro.

Yr hyn sydd wedi bod yn batrwm cyson ers sefydlu'r CGI cyntaf yw bod un person llawn amser wedi cael ei gyflogi gan y Bwrdd (Llywodraeth Cymru wedi diddymu'r Bwrdd yn 2012) i weithio ym mhob ardal. Mae pob CGI hefyd wedi derbyn arian prosiect blynyddol i'w wario ar gynlluniau hybu iaith lleol.

⁵ Seiliwyd y cynlluniau dilynol yn rhannol ar waith ymchwil dwys lefel feicro yr oedd y Bwrdd wedi ei gomisiynu ar rwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc mewn 12 cymuned CANOLFAN YMCHWIL CYMRU & CWMNI IAITH CYF. 2006. *Rhwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc: adroddiad terfynol* [Online]. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Available: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020421/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/3561.pdf> [Accessed 28/11/13.. Rhannodd canlyniadau'r ymchwil honno y cymunedau y gwnaethpwyd yr ymchwil ynndynt yn 3 math. "Yn gyntaf y cymunedau gydag amledd uchel o ran y defnydd o'r Gymraeg, a'r rhai o gartrefi lle nad oedd Cymraeg yn cael ei defnyddio o gwbl. Yn ail, y clwstwr o leoliadau lle yr oedd y defnydd o'r Gymraeg yn isel ymysg y ddau gategori o ymatebwyr. Yn olaf, clwstwr canolig o leoliadau lle'r oedd yn ymddangos bod dwy gymuned ieithyddol yn bodoli fel grwpiau ieithyddol ar wahân. Mae amledd y defnydd o'r Gymraeg ymysg y rhai hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg yn uchel, tra ei fod yn isel ar gyfer y rhai hynny o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio." Seiliwyd y cynlluniau hefyd yn rhannol ar ymchwil a wnaed gan yr Athro Colin Baker, aelod o'r Bwrdd ar y pryd ynghylch manau lle yr oedd cyfraddau trosglwyddo iaith yn peri pryder o safbwynt polisi iaith. Cynhyrchwyd map 'golau traffig' i ddangos y manau hynny. Adeg llunio'r Adolygiad, nid oedd modd dod o hyd i'r map ar archif gwefan y Bwrdd.

Yn 2010, newidiwyd ffiniau rhai o'r Cynlluniau Gweithredu Iaith er mwyn gweithio ar draws ardal ddaearyddol ehangach. Erbyn hyn mae pum Cynllun Gweithredu Iaith yn weithredol mewn rhannau gwahanol o Gymru. Mae tri Chynllun arall yn 'fyw', ond heb swyddog adeg cynnal yr Adolygiad, a hynny am wahanol resymau (gweler Adran 7 am ganlyniadau'r Adolygiad yng nghyd-destun Cynlluniau Gweithredu Iaith).

Ceir isod restr o Gynlluniau Gweithredu Iaith a'r dyddiad y'u sefydlwyd. Noder fod CGI wedi dod i ben mewn rhai ardaloedd arall dros y blynyddoedd diwethaf. Noder hefyd fod ambell i CGI heb swyddog adeg cynnal y gwaith ymchwil, naill ai oherwydd trosiant staff h.y. bod y swydd yn wag neu, er enghraifft, oherwydd cyfnodau mamolaeth. Adeg cynnal yr Adolygiad, felly, roedd pum Cynllun Gweithredu Iaith yn weithredol, gyda tri chynllun arall yn 'fyw', ond heb swyddog ar y pryd.

Ardal CGI	Dyddiad Dechrau	Wedi dod i ben?
Abergwaun	2002	
Rhuthun	2002	
Pwllheli	2002	x
Corwen	2003	
Rhydaman	2003	x
Llanrwst	2003	x
Aberteifi	2003	
Casnewydd	2003	x
Machynlleth	2004	
Bangor	2004	x
Amlwch	2004	
Gwauncaegurwen	2006	x
Meirion Dwyfor	2009	
De Arfon	2009	

4.4 Sefydlu Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe: Cyd-destun

Yn dilyn dadansoddiad ystadegol ac ymchwil a gyflwynwyd gerbron cyfarfod agored y Bwrdd (Dogfen 95/5 [26/11/2010]),⁶ cafodd ardal Aman Tawe ei hadnabod yn un o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Roedd y synthesis o'r wybodaeth a oedd ar gael yn awgrymu'n gryf bod parhad y Gymraeg fel iaith bob dydd yn yr ardal o dan fygythiad difrifol. Yn ôl Cyfrifiad 2001 gwelwyd bod niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn gymharol uchel gyda chanrannau o dros 60% mewn naw allan o un ar bymtheg adran etholiadol yn yr ardal. Er hynny, roedd teimlad cyffredinol yn bodoli, oedd yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gyffredol, fod y Gymraeg yn colli tir yn sylweddol fel iaith fyw yn y gymuned. Penderfynodd y Bwrdd, felly, fod angen rhaglen o ymyrraeth ieithyddol ddwys yn yr ardal er mwyn adfer sefyllfa'r Gymraeg ac er mwyn diogelu'r iaith i genedlaethau'r dyfodol.

Er bod yr ardal yn ymestyn o Dŷ-croes ger Rhydaman yn y gorllewin i Ystradgynlais ac Abercraf yn y dwyrain, ac yn pontio tri Awdurdod Lleol (Sir Gâr, Powys a Chastell Nedd Port Talbot) gwelwyd mai un o'r prif flaenoriaethau oedd sicrhau bod cynllunio strategol cytûn yn digwydd ar draws yr ardal. Nod y Bwrdd pan sefydlwyd y prosiect oedd cydweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau adfywio cymunedol ac economaidd oedd eisoes yn gweithredu yn yr ardal er mwyn egnïo a bywiocáu gweithgareddau ieithyddol a diwyllianol a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws nifer o wahanol sectorau. Crisialwyd y nod hwn yn nheitl y ddogfen a oedd yn sail i ddechrau'r prosiect, sef *Tair Sir, Dwy Iaith, Un Bartneriaeth*. Roedd Cynllun Gweithredu'r prosiect wedi ei seilio ar y model canlynol:

- Sefydlu Partneriaeth Datblygu'r Gymraeg yn Aman Tawe i gynllunio'n strategol ac i fonitro cynnydd y Cynllun;
- Y Bartneriaeth i gynnwys staff y Cynllun, Rheolwr Rhanbarthol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Prif Swyddogion y Mentrau Iaith, Swyddogion Awdurdodau Lleol, Aelodau etholedig Awdurdodau Lleol a chynrychiolwyr y Grwpiau Gweithredu;
- Sefydlu Grwpiau Prosiect fyddai'n cynnal prosiectau mewn meysyddpenodol ac yn cael eu harwain gan staff y Cynllun a'r Mentrau Iaith;
- Y Grwpiau Prosiect i gynnwys gwirfoddolwyr lleol a staff proffesiynol partneriaid allweddol;
- Sefydlu Grwpiau Ardal o wirfoddolwyr fyddai'n adnabod anghenion eu cymdogaethau ac yn llunio cynlluniau datblygu ardal ar sail Fframwaith Cymdogaethau Cymraeg Hyfyw a Ffyniannus (y Bwrdd).

Daeth y cynllun i fodolaeth yn 2011 ac mae Menter Bro Dinefwr a Menter Castell Nedd Port Talbot ill dau yn derbyn grant ar gyfer cyflogi 1.5 swyddog yr un. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cyflogi dau swyddog i weithio fel rhan o'r tîm ac yn cyfrannu tuag at ariannu prosiectau. Mae Menter Brycheiniog a Maesyfed hefyd yn rhan o'r bartneriaeth.

⁶ Ceir copi o bapurau'r cyfarfod, a gynhaliwyd yn Neuadd Sgeti, Abertawe, ar y ddolen ganlynol: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330013636/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Cyfarfod+y+Bwrdd+95+Abertawe.docx>

5 Methodoleg

Dyma'r camau a ddilynwyd wrth ddylunio a cynnal yr Adolygiad.

- Cam 1. Y cam cyntaf oedd defnyddio offer holiaduron ymchwil ar-lein 'Bryste' (gweler <http://www.surveys.cf.ac.uk/>) i greu holiaduron oedd yn sail rannol i'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb. Agorwyd y broses hon ar 22/5/13 a'i chau ar 4/6/13. Defnyddiwyd yr holiadur i ganfod prif nodweddion y sefydliadau ac i gasglu data ychwanegol ar eu strwythur, maint a ffynonellau cyllid, nifer eu staff, natur eu partneriaethau ac yn y blaen. Amgaeir yr holiadur yn adran 11.4. Hefyd yn rhan o'r cam hwn, gofynnwyd i'r sefydliadau lenwi 'Dadansoddiad SWOT' (Cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau) ynghylch eu gweithgareddau a'u barn am y dyfodol. Amgaeir y ffurflen a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn yn adran 11.3. Dychwelwyd holiaduron a dadansoddiadau SWOT gan bob sefydliad ond un (21 Menter Iaith, 5 Cynllun Gweithredu Iaith, Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe). Cynhaliwyd cyfweiliad llawn â'r sefydliad na chyflwynodd holiadur yn nes ymlaen yn y broses ymchwil;
- Cam 2. Cyfres o gyfweiliadau wyneb yn wyneb â'r sefydliadau (yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2013), Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Lleol, prif bartneriaid y sefydliadau, actorion yn y maes a chynrychiolwyr eraill. Amgaeir canllaw'r cyfweiliad yn adran 11.5;
- Cam 3. Adolygiad pen desg/dogfennol a oedd yn rhedeg gydol yr Adolygiad (gweler adran 5.1);
- Cam 4. Dadansoddiad o ganlyniadau'r gwaith maes a'r cronfeydd data a gafwyd o'r holiaduron (er mwyn ymbaratoi at y broses cyfweld);
- Cam 5. Cyfres o gyfweiliadau ychwanegol i ategu'r gyfres gyntaf o gyfweiliadau. Roedd y rhain wedi eu cynnal ag arbenigwyr yn y maes neu unigolion a oedd yn gyfrifol am raglenni datblygu cymunedol, polisi llywodraeth leol neu ganolog (Gorffennaf-Hydref 2013).
- Cam 6. Gwirio data a sicrhau cysondeb y gronfa ddata. Wrth i'r dadansoddiad fynd rhagddo, aethpwyd yn ôl at rai sefydliadau ac unigolion a oedd wedi cael eu cyfweld er mwyn sicrhau cysondeb yr atebion. Roedd hwn yn arbennig o bwysig o ran data yn ymwneud â staff, cyllid a phartneriaethau (Medi-Tachwedd 2013).

Gweithredwyd yr Adolygiad yn unol â Rheolau Moeseg Ymchwil Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd (gweler <http://www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/moesegymchwil>). Cadwyd holl ddata'r holiaduron ar weinydd diogel yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data. Er mwyn defnyddio'r cyfleuster a'i ganlyniadau, roedd yn rhaid pasio prawf ar y Ddeddf a'i goblygiadau ar gyfer y data a gesglir o'r holiaduron. Amgaeir copi o'r Ffurflen Cydsynio i gyfweiliad yn adran 11.6.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â chyfanswm o 49 unigolyn neu sefydliad, fel a ganlyn:

- 22 Menter Iaith
- Mentrau Iaith Cymru

- 5 Chynllun Gweithredu Iaith
- Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Aman Tawe
- Swyddogion Llywodraeth Cymru
- 15 o actorion yn y maes, fel a ganlyn:
 - Canolfannau Cymraeg i Oedolion Caerdydd, De Orllewin Cymru a Gogledd Cymru
 - Clybiau Gwawr
 - Cyngor Sir Ceredigion
 - Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
 - Eisteddfod Genedlaethol Cymru
 - Ffermwyr Ifanc Cymru
 - Merched y Wawr
 - Mudiad Meithrin
 - NPLD (Rhwydwaith er hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol)
 - Prosiect TWF
 - Urdd Gobaith Cymru

Nod casglu'r deunydd o'r offerynnau ymchwil oedd meddu ar ddarlun mor gynhwysfawr â phosibl o'r hyn a oedd yn digwydd yn y sefydliadau, a barn rhanddeiliaid eraill ar weithgaredd y sefydliadau. Dylid cofio fodd bynnag mai nifer cymharol fechan o sefydliadau sydd. O'r herwydd, y bwriad oedd casglu tystiolaeth o natur ansoddol. Felly, nid yw'n briodol cynnal dadansoddiadau o arwyddocâd ystadegol ar y dystiolaeth a gasglwyd.

Defnyddiwyd y dadansoddiad SWOT a'r holiaduron er mwyn casglu tystiolaeth gefndirol, ffeithiol ar sefyllfa'r sefydliadau. Mae'r Adolygiad yn adrodd am y fath dystiolaeth yn bennaf wrth iddi gynnig gorolwg ffeithiol, caniatáu i ni greu tablau ffeithiol (e.e. o weithgareddau, ffononellau ariannol) ac adlewyrchu canfyddiadau o gyfleoedd a bygythiadau y mae'r sefydliadau yn eu hwynebu. Roedd hwn yn gefndir ac yn fodd o ddewis cwestiynau atodol i'w gofyn yn y cyfweiliadau. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd o'r cyfweiliadau yn sail i ni gyffredinoli a dod i farn am themâu'r maes ymchwil. Drwyddi draw yn yr adroddiad hwn, fe ddyfynnir llais uniongyrchol yr ymatebwyr yn y cyfweiliadau er mwyn goleuo eu safbwynt. Dynodir dyfyniadau o'r fath drwy ddefnyddio'r fformat isod, a mewnlir y testun o gorff gweddill y ddogfen. Er enghraifft:

Dyfyniad yw hwn

Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, penderfynwyd na fyddai'n briodol, fel rheol, enwi sefydliadau nac ychwaith swyddogion, na theitlau swydd unigol. O'r herwydd, defnyddir y term cyffredinol 'ymatebwyr' i ddynodi rychwant o'r bobl y derbyniwyd tystiolaeth ganddynt ymhob un o'r offerynnau ymchwil.

5.1 Ymchwil Pen Desg

Archwiliwyd hefyd ddogfennaeth o blith y canlynol:

- Strwythur corfforaethol y sefydliadau
- Cynllun Gweithredu/Rhaglen Waith sefydliadau

- Strwythur staffio a swydd ddisgrifiadau
- Cynlluniau monitro perfformiad staff
- Cynlluniau datblygu a hyfforddi staff
- Adroddiadau blynyddol gan gynnwys adroddiadau ariannol
- Cofnodion cyfarfodydd perthnasol
- Tystiolaeth a ddarperir gan y sefydliadau o sut mae prosiectau/gweithgareddau perthnasol yn ymateb i anghenion lleol
- Adolygiad o brif nodweddion polisiâu'r Llywodraeth, gan gynnwys *Iaith Pawb* Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), *Iaith Fyw: Iaith Byw* Llywodraeth Cymru (2012), Cynllun Gweithredu'r Strategaeth 2013-2014 (Llywodraeth Cymru, 2013b) a'r ddogfen tystiolaeth sy'n deillio ohono, Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2013a)
- Canllawiau ac adroddiadau Cymunedau'n Gyntaf.

5.2 Nodyn ar gyfrinachedd

Yng ngweddill yr Adolygiad hwn, prin yr enwir sefydliad unigol. Mae hyn yn benderfyniad ymwybodol ar ein rhan ac yn destun trafodaeth â chomisiynydd yr Adolygiad, sef Llywodraeth Cymru. Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a phrotocolau perthnasol eraill, bydd y tîm ymchwil yn cadw copïau o holl recordiadau a nodiadau'r cyfweiliadau, cronfa ddata'r holiaduron a'r dadansoddiadau SWOT at ddibenion ymchwil cysylltiedig. Nid yw'n fwriad gennym rannu'r manylder hwnnw y tu allan i'r tîm ymchwil.

5.3 Themâu

Yn sgil dadansoddi deunydd y gwaith maes, daeth yn amlwg fod nifer o themâu yn nodweddiadol o gynllunio ieithyddol lefel feicro yn y Gymru sydd ohoni. Y pwysicaf ohonynt yw'r canlynol:

- Arweiniad strategol Llywodraeth Cymru
- Dulliau cyfredol o ariannu sefydliadau yn y maes
- Dryswch ynghylch cyfrifoldebau sefydliadol
- Ffiniau daearyddol, sectorol a sefydliadol
- Yr angen am gydweithio strategol
- Dulliau o ddylanwadu ar bolisi
- Yr angen am feithrin arbenigedd yn y maes
- Trosglwyddo arfer da, yn arbennig wrth fesur deilliannau

Gallai unrhyw newid yn y system, e.e. argyfwng ariannol byd-eang, safonau iaith Gymraeg Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ad-drefnu posibl ar lywodraeth leol, effeithio ar y sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn mynd i'r afael â hwy mewn ffordd nad oes modd ei darogan ar hyn o bryd.

6 Canlyniadau'r Gwaith Maes: Mentrau Iaith

6.1 Materion Cyllido

6.1.1 Cyllido'r Mentrau Iaith Heddiw

Yn ôl y Mentrau, mae perthynas amlwg rhwng sefydlogrwydd a llif arian a'u gallu i weithredu'n briodol i hyrwyddo'r Gymraeg. Nodant fod diffyg arian craidd yn eu gorfodi i fynd ar ôl ffynonellau nawdd eraill er mwyn ymateb i'r galw. O ganlyniad, mae perygl bod gormod o amser staff yn cael ei dreulio ar gwblhau ffurflenni cais am grantiau yn hytrach na gweithredu'n ymarferol dros y Gymraeg. Hyd yn oed pan fydd ceisiadau'n llwyddiannus, cydnabyddir bod yn rhaid neilltuo amser ar gyfer hyfforddi staff newydd, monitro cynnydd, adrodd ar dargedau a chadw cyfrifon ar gyfer pob prosiect ychwanegol. Yn sgil hyn, teimlir bod baich gwaith gormodol yn cael ei ysgwyddo er mwyn mynd i'r afael â threfniadaeth weinyddol. Nodwyd y gellid treulio'r amser hwn mewn modd mwy buddiol ar gynlluniau gweithredol i hybu'r Gymraeg.

Ym marn mwyafrif helaeth y Mentrau iaith nid yw'r grant a geir gan Lywodraeth Cymru'n ddigonol. Dywedwyd wrthym bod angen lleiafswm o £200,000 ar bob Menter er mwyn eu galluogi i weithredu'n effeithiol a gwneud gwahaniaeth i sefyllfa'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o Gymru. Clywsom y byddai'r lleiafswm hwn yn caniatáu i'r Mentrau benodi o leiaf chwech o staff llawn amser i weithio naill ai mewn ardaloedd daearyddol penodol neu mewn meysydd arbenigol megis plant a phobl ifanc, teuluoedd, addysg, hyfforddiant, busnesau, y trydydd sector, dysgwyr ac ati. Ar hyn o bryd, mae'r Mentrau yn teimlo nad ydynt yn gallu ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau a chefnogaeth yn y Gymraeg oherwydd diffyg gallu. Dywedwyd wrthym sawl tro fod mwy o arian yn cael ei wario ar Ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus nag ar yr iaith Gymraeg a bod gwariant Llywodraeth ymreolus Gwlad y Basgiaid ar hyrwyddo'r Fasgeg hyd at ddeg gwaith mwy na'r hyn sy'n cael ei wario ar y Gymraeg. Nodwyd hefyd fod yr arian sy'n cael ei wario ar y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru yn bitw o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei wario ar weithgarwch yn yr iaith Saesneg.

Ffactor arall sydd yn peri rhwystredigaeth i nifer o'r Mentrau yw'r ffaith mai prosiectau byr dymor yw'r rhai sy'n cael eu hariannu gan sefydliadau megis y Loteri Fawr, Cynlluniau Datblygu Gwledig ac arian strwythurol Ewropeaidd. Canlyniad hyn yw bod trosiant staff yn uchel a bod diffyg cynaliadwyedd prosiectau yn peri rhwystredigaeth i gymunedau lleol. Nodwyd enghreifftiau lle'r oedd gobeithion wedi eu codi, ond yn aml oherwydd byrhoedled prosiectau nid oedd eu hamcanion wedi cael eu cyflawni'n llwyr. Ceir teimlad yn aml bod y Mentrau yn hercian o un pot o arian i'r llall. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar allu'r sector i ddatblygu staff dros y tymor hir ac i lunio gyrfa broffesiynol i weithwyr yn y maes datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol.

Cyfeiriwyd droeon a thro yng nghwrs yr ymchwil at y teimlad bod rhai Mentrau wedi llwyddo'n well na'i gilydd i ddenu nawdd i gefnogi prosiectau mewn meysydd sy'n bennaf gysylltiedig â datblygu cymunedol, adfywio economaidd neu leihau tloidi. Er bod y rhan fwyaf yn edmygu creadigrwydd a dyfeisgarwch y Mentrau hyn, roedd eraill yn credu eu bod yn cael eu tynnu yn bellach a phellach oddi wrth eu hamcanion craidd. Roedd un neu

ddau yn amau bod rhai Mentrau wedi colli ffocws ar gynllunio ieithyddol a'u bod bellach yn gweithredu fel *busnesau* cymunedol. Mynegodd eraill bryder am y tueddiad cynyddol ymhlith rhai i brosiect ddilyn arian yn hytrach na bod arian yn dilyn prosiect a chanddo hyrwyddo'r Gymraeg yn brif nod. Mynegodd rhai Mentrau rwystredigaeth am nad oes ganddynt statws cyfansoddiadol fyddai'n eu galluogi i fynd ar ôl arian ychwanegol gan eu bod yn rhan o strwythurau awdurdodau lleol.

6.1.2 Cyllido'r Mentrau Iaith i'r Dyfodol

Barn y mwyafrif a holwyd yw bod angen cynyddu'n sylweddol y grant sy'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru i'r Mentrau os ydynt i gyfrannu o ddifrif tuag at adfywiad y Gymraeg. Cyfeiriwyd at y ffaith bod cyllid y Mentrau wedi ei rewi dros y tair blynedd ddiwethaf, sydd yn golygu mewn termau go iawn eu bod wedi gorfod gweithredu ar lai o arian. Tynnwyd sylw at y gred bod potensial aruthrol gan y Mentrau i gael effaith hir dymor ar y Gymraeg pe bai arian digonol ar gael iddynt gyflawni hyn. Nodwyd hefyd bod y Mentrau wedi llwyddo i ddenu dwy bunt ychwanegol fel gwariant ar y Gymraeg am bob punt a roddir gan y llywodraeth. Ond cyn i ni dderbyn gosodiadau o'r fath, mae angen casglu tystiolaeth sydd yn cefnogi neu'n gwanhau'r fath ymdeimlad. Yn sicr mae mwy o adnoddau yn ddyhead amlwg ymhlith y sefydliadau, ond adnoddau ar gyfer beth yn union—ai ymyrraeth strategol ac iddi werth ychwanegol o ran newid ymddygiad ieithyddol neu baratoi mwy o weithgareddau a phenodi staff i'w cynnal?

Er bod teimlad cyffredinol fod maint y gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru i'r Mentrau yn annigonol, mae'r ffaith bod cymaint o wahaniaeth yn y grant a roddir i bob Menter hefyd yn fater o rwystredigaeth a dicter i rai. Nid yw'n ymddangos i nifer o'r Mentrau bod sail resymegol i'r grant blynyddol—ceir teimlad ei fod naill ai yn swm hanesyddol heb gysylltiad ag anghenion neu flaenoriaethau sirol neu'n ganlyniad i fympwy. Gwelir annhegwch hefyd yn y ffaith bod rhai siroedd yn cael arian i gynnal tair Menter iaith (er enghraifft Sir Gaerfyrddin) tra bod siroedd eraill yn gorfod gweithredu ag un Fenter ar draws ardal ddaearyddol eang.

Er y gred hon nad yw arian y Mentrau'n ddigonol i ateb y galw, roedd rhai'n barod i nodi bod llawer gormod o arian ac amser yn cael eu gwario a'u treulio ar weinyddiaeth a biwrocratiaeth. Awgrymwyd y dylai'r Mentrau sy'n ffinio â'i gilydd ystyried dulliau o rannu beichiau gweinyddol er mwyn arbed costau. Byddai hyn yn ei dro'n sicrhau bod mwy o arian yn cael ei wario ar weithgareddau ymarferol i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg ac ehangu'r defnydd o'r iaith. Awgrymwyd hefyd y dylid cysoni cyflogau a chostau teithio ar draws y Mentrau ynghyd â thelerau ac amodau gwaith swyddogion, swydd-ddisgrifiadau, gweithdrefnau a pholisïau. Y mae ffiniau yn nodwedd arwyddocaol oherwydd nid yw ffiniau'r Mentrau iaith bob tro yn mapio ar ffiniau awdurdodau lleol ac felly mae'n anodd dynodi weithiau beth yw'r gymuned 'leol' y mae'r Mentrau yn ei gwasanaethu. Eir i'r afael â gwaith trawsffiniol isod ac wrth gwrs mae'r Adolygiad yn cyfeirio'n gyson at fath arall o ffin, sef y ffin rhwng priod waith y sefydliadau ac asiantaethau sy'n gweithio yn yr un maes. Yn aml iawn, y mae'r gorgyffwrdd yn creu ansicrwydd ar y naill law, a thyndra ar y llaw arall. Roedd y lefel ranbarthol o bwys, ond nid yn lle Mentrau sirol, ond yn hytrach fel modd o'u gwneud yn fwy effeithlon.

Ceir teimlad yn ogystal fod y broses o gyflwyno cais blynyddol am grant yn faich diangen ac yn cynyddu'r teimlad o ansicrwydd. Byddai'n well gan y Mentrau weld cylch ariannu tymor hwy o lawer yn cael ei sefydlu er mwyn caniatáu iddynt gynllunio i'r dyfodol â mwy o sicrwydd a thrwy hynny ddenu staff fyddai'n gwerthfawrogi'r cyfle i wneud eu marc ac ennill profiad ar gyfer y dyfodol. Ychwanegwyd hefyd fod y broses o gytuno a dosbarthu'r grantiau'n flynyddol yn ei gwneud hi'n anodd cadw staff ac i roi cyfleoedd iddynt ddatblygu yn eu swydd a chael dyrchafiad.

6.2 Strwythurau'r Mentrau

6.2.1 A oes angen Menter Iaith ymhob Sir yng Nghymru?

Cafwyd barn unfrydol o du'r Mentrau ynglŷn â'r angen am o leiaf un Fenter Iaith ym mhob sir yng Nghymru. Y ddadl o blaid y safbwynt hwn yw'r ffaith bod y Mentrau lleol yn adnabod eu cymunedau'n dda ac wedi datblygu perthynas agos â hwy dros nifer o flynyddoedd. Credir mai'r Mentrau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n gweithio ar lefel feicro ac sydd wedi llwyddo i sefydlu elfen gref o ymddiriedaeth â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Pwysleisiwyd dro ar ôl tro bwysigrwydd y cyswllt lleol hwn o safbwynt adnabod anghenion a blaenoriaethau'r ardal a chael pobl i deimlo perchnogaeth dros y Gymraeg. Nodwyd mai un o gryfderau'r Mentrau yw eu gallu i weithio ar lawr gwlad i wireddu dyheadau cymunedau lleol ac y byddai dileu neu wanhau'r cyswllt hwn yn lleihau gallu'r Mentrau i ddylanwadu ar ddeinameg yr iaith. Roedd teimlad cryf y byddai diddymu'r Mentrau lleol yn mynd â chynlluniau hybu iaith yn bellach i ffwrdd oddi wrth y bobl a'u cymunedau.

Ar ben y gefnogaeth gadarn o blaid cadw presenoldeb lleol ym mhob sir, cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth i'r syniad o greu strwythur rhanbarthol ar gyfer y Mentrau yn benodol i leihau'r baich gweinyddol. Roedd nifer yn gweld y byddai manteision hefyd i weithio'n strategol ar lefel ranbarthol a gweithredu'n ymarferol ar lefel sirol. Awgrymwyd y gellid penodi swyddogion rhanbarthol i gydlynu gwaith y Mentrau ac i ysgwyddo cyfrifoldebau gweinyddol fel rheoli cyllid, datblygu polisiâu a gweithdrefnau, cysoni amodau gwaith a chytundebau staff ac ati. Drwy argymhell hyn, roedd rhai yn ei weld fel cyfle i arbed costau, er enghraifft, cael un cwmni yswiriant i ddarparu gwasanaethau, ac un cwmni i weinyddu cyflogres staff, a rhannu'r gost o archwilio cyfrifon a chynnal archwiliadau cofnodion troseddol ar draws nifer o Fentrau. Dywedodd un ymatebwr:

Mae angen Menter ym mhob sir oherwydd ffactorau fel adnabyddiaeth, cysylltiadau a pherchnogaeth gan y gymuned leol, ond mater arall yw os oes angen prif swyddog gan bob Menter, hefyd swyddog busnes, swyddog ieuentid ac ati. A ddylid rhannu arbenigedd ar draws ffiniau?

Ceir nifer o enghreifftiau eisoes o brosiectau sy'n gweithredu ar draws ffiniau sirol—mae'r Prosiect Iaith Cydweithredol sy'n hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth Gymreig a ariennir gan Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru (RDP) yn gweithio ar draws siroedd Wrecsam, Flint, Dinbych a Chonwy. Mae Cynllun Datblygu Gwledig arall sy'n darparu hyfforddiant mewn sgiliau gweithgareddau awyr agored, cyfieithu cymunedol a chysiau iaith dwys yn gweithio ar draws Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych. Mae'n amlwg felly bod cysail eisoes yn bodoli o safbwynt cydweithio rhanbarthol ac mae'n deg nodi bod yr egwyddor hon yn cael cefnogaeth gan fwyafrif y Mentrau.

O droi at bartneriaid y sefydliadau, y farn gyffredinol oedd—mewn egwyddor—y dylai pob rhan o Gymru feddu ar yr hawl i strwythur sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Yn ôl rhai partneriaid, mae dadleuon cryf dros gadw'r Mentrau Iaith yn endidau sirol gan fod y gallu i fanteisio ar adnabyddiaeth leol yn bwysig. Credir pe bai ffiniau'r Mentrau yn cael eu hystyngtu, bod perygl y gallent golli'r adnabyddiaeth leol. Ar y llaw arall, mae rhai yn ansicr ai Menter Iaith yw'r ateb ym mhob ardal gan fod gormod o wahaniaeth rhyngddynt a bod angen mwy o gysondeb yn y ffordd maent yn gweithio. Teimlir y byddai uno rhai Mentrau'n weinyddol yn fantais i rai a byddai uno cyfansoddiadol yn ffordd ymlaen i eraill.

Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd o'r gwaith maes yn awgrymu bod y Mentrau Iaith yn cael eu tynnu i lawer o gyfeiriadau gwahanol gan geisio, weithiau, i fod yn bopeth ieithyddol i bawb, lle y dylent fod yn sbardun i roi'r Gymraeg ym mhopeth. Cafwyd ambell i sylw hefyd fod rhai sefydliadau'n ceisio adeiladu ymerodraethau a bod hyn yn tynnu ar eu priodwaith, sef adfywio'r Gymraeg mewn ardaloedd penodol.

Mae rhai yn dadlau os oes gormod o awdurdodau lleol, mae'n dilyn felly bod gormod o Fentrau, sydd ar y cyfan yn endidau gweddol fach o'u cymharu. Credir y byddai'n anodd iddynt ddatblygu'n effeithiol os byddai awdurdodau'n uno. Mae rhai yn eu cymharu â sefyllfaoedd ysgolion bach lle mae eithriadau da ond lle nodant, ar gyfartaledd, bod ansawdd mewn unedau mwy yn well ac yn haws i'w datblygu.

Credir yn gryf bod yn rhaid gwerthuso'r gwahanol fodelau o Fentrau Iaith sydd i gael er mwyn gweld pa un sy'n gweithio orau. Mae'r cwestiynau sylfaenol yn cynnwys pa fath o gerbyd ddylai'r Mentrau fod? Pa ganlyniadau dylai'r Mentrau geisio eu cyflawni? Maent yn cynnal gweithgareddau ond pa wahaniaeth maent yn ei wneud i sefyllfa'r Gymraeg? Pa lwyddiant maent yn ceisio ei sicrhau?

Y cwestiwn sylfaenol yw—a ydynt yn rhoi gwerth am arian? Teimla'r partneriaid fod angen gweledigaeth glir ar y Mentrau fel uned gorfforaethol i gyfateb â'r arian cyhoeddus a roddir iddynt. Yn sicr, ein canfyddiad fel tîm ymchwil yw bod angen edrych ar lwyth gwaith y Mentrau a gofyn a ydynt yn ceisio gwneud gormod.

Mae nifer o'r partneriaid yn credu bod angen strategaeth genedlaethol i'r Mentrau. Y Mentrau ddylai arwain ar waith cymunedol gan dynnu partneriaid i mewn, cyd-gynllunio a pharchu meysydd arbenigedd mudiadau a chyrrff eraill. Yn ôl un:

Dylai'r gwaith strategol ddigwydd ar lefel genedlaethol â'r prif bartneriaid iaith. Ar hyn o bryd does dim digon o sail ddeallusol i waith y Mentrau a'r prif bartneriaid. Does dim digon o drafod cenedlaethol yn digwydd â'r Mentrau ar sail ymchwil ac adnabod arferion da. Mae angen creu strwythur cenedlaethol a rhanbarthol i ganiatáu'r gwaith deallusol i ddatblygu a dwyn ffrwyth.

Teimlir bod y syniad o uwch-reolwr rhanbarthol neu uwch-reolwr dros ddwy neu fwy o Fentrau yn syniad da pe bai hynny'n golygu bod mwy o arian yn cael ei wario ar weithgar-

eddau ar lawr gwlad. Credir yn gyffredinol y byddai Menter iaith ranbarthol yn fwy llwyddiannus gan y byddai hyn yn sicrhau y byddai cydweithio mwy effeithiol yn digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Ar hyn o bryd, gan fod y grant craidd mor fach, teimlir bod gormod o amser prif swyddogion yn cael ei dreulio ar sicrhau grantiau o ffynonellau eraill er mwyn datblygu'r Fenter neu warchod swyddi. Mae'r arian bach a geir yn golygu mai swyddogion dibrofiad heb arbenigedd yn y maes cynllunio ieithyddol sy'n cael eu cyflogi gan y Mentrau yn aml. Credir bod angen i'r Mentrau feddu ar swyddogion â mwy o brofiad o weithio ag uchel swyddogion mewn cyrff cyhoeddus ac â chytundeb sy'n ymestyn dim llai na thair blynedd.

Yn ôl un ymatebwr, dylid pwysleisio'r cysylltiad rhwng buddsoddiad, gweithgaredd a chanlyniad. Meddai—

Dim diffyg buddsoddiad yw'r broblem bob tro ond diffyg cynllunio. Rhaid gosod strwythurau yn eu lle i alluogi cyd-gynllunio i ddigwydd yn well. Dydy cynnal gweithgareddau jyst er mwyn ticio blychau ddim yn ddigon. Rhaid i'r arweiniad gwleidyddol cenedlaethol gael dylanwad ar strategaethau sirol a lleol.

Pwysleisiwyd yn fwy na dim y dylai'r Adolygiad hwn geisio diffinio rôl y Mentrau yn fwy clir a thrwy edrych ar y darlun mawr gweld pwy sy'n gwneud beth o ran cyfraniad mudiadau a sefydliadau gwahanol. Credir bod angen arbenigwyr proffesiynol sydd wedi arbenigo yn y maes cynllunio ieithyddol i arwain ar hyn. Ym marn un Prif Weithredwr.

Yr her yw adolygu pob sefydliad, gweld wedyn lle mae'r bylchau a datblygu 'masterplan', â 'joined up thinking' i ateb gofynion y Gymraeg. Rhaid ariannu hwn yn dda, gan efallai ddwyn arbenigwyr o wledydd eraill i mewn i gynorthwyo â'r gwaith. Dylid gofyn a yw'r strwythur presennol yn ddigon effeithiol ac a ddylid defnyddio mwy o arbenigwyr proffesiynol ac awdurdodau lleol gan gynnwys rhywun o Wlad y Basg neu Ganada i gynorthwyo â'r gwaith cynllunio hwn?

6.2.2 Datblygu rôl y Mentrau iaith

Mae mwyafrif y partneriaid a holwyd yn credu bod sefydlu corff canolog i'r Mentrau iaith yn bwysig er mwyn cael gorolwg genedlaethol o sefyllfa'r iaith. Gallai gogwydd rhanbarthol yn unig lesteirio gwaith y Mentrau. Mae CYDAG, RHAG, Mudiad Meithrin a'r Urdd wedi bod yn gweithio'n rhanbarthol ond â chorff cenedlaethol y tu ôl iddynt. Mae pob un ohonynt wedi datblygu strategaeth ganolog. Mae trefn ranbarthol a sirol yn rhoi cefnogaeth ymarferol i'r lleol. Mae sefydlu corff cenedlaethol i'r Mentrau yn bwysig am sawl rheswm—creu strategaeth genedlaethol a rhanbarthol, penderfynu a blaenoriaethu ar feysydd gweithredu, tynnu mewn ar lefel prif weithredwyr o fudiadau eraill gan gynnwys prif swyddogion awdurdodau lleol er mwyn cynllunio'r ffordd ymlaen i'r Gymraeg.

Clywyd bod yn rhaid wrth un llais i siarad ar ran y Mentrau. Credai rhai y dylai pob prif swyddog y Mentrau fod yn atebol mewn rhyw ffordd i brif swyddog MIC. Clywsom fod yn rhaid i Brif Weithredwr MIC feddu ar yr hawl i arwain a rhoi cyfeiriad i waith y Mentrau lleol. Yn ôl un ymatebwr, 'Nid oes pwrpas creu'r canol oni bai bod y canol yn arwain—

rhaid i'r Mentrau lleol fod yn atebol i'r canol neu bydd y model byth yn gweithio. Byddai hyn yn golygu y byddai'r Mentrau lleol yn colli rhywfaint o'u hannibyniaeth ond y Gymraeg ddylai elwa yn y pen draw.' Credai fod yn rhaid datblygu MIC i fod yn gorff strategol, cryf. Cyfeiriodd at ddyfyniad gan un o Seneddwr yr Unol Daleithiau ynghylch pwysigrwydd presenoldeb canolog:

'Whom would you phone if you wanted to speak to the European Union?'

Mae consensws ymhlith y partneriaid bod rôl bwysig gan y Mentrau ond bod angen diffinio'r rôl honno'n gliriach ym meddyliau'r partneriaid. Y cwestiynau pwysig y mae'r partneriaid yn eu gofyn yw—a ydynt yn rhoi gwerth am arian, a oes gormod o arian yn mynd ar weinyddu, a yw swyddogion yn gweithio digon yn y gymuned, a oes trafodaethau strategol yn digwydd rhwng y Mentrau a phartneriaid eraill? Un o bryderon gweithwyr yn y maes yw diogelu gallu'r gymuned i arwain, i gynnig syniadau newydd ac i ymateb mewn modd hyblyg a chwim i newidiadau cymdeithasol. Er mwyn cipio'r egni a'r ffresni honedig o du'r gymuned, dylid ymatal rhag caniatáu i'r holl system cynllunio ieithyddol fod yn 'top-i-lawr' boed y 'top' hwnnw ar lefel Lywodraeth Cymru, neu ar lefel sefydliad unigol. Ymbweru, nid darparu yw'r nod. Ar sail y gwaith maes, daeth yn gwbl amlwg bod angen cydlynu hyn oll ac mae nifer o'n hargymhellion yn mynd i'r afael â hyn.

6.2.3 Datblygu Rôl Mentrau Iaith Cymru?

Ceir teimlad unfrydol ymhlith y Mentrau bod yr ymdrechion diweddar i gryfhau Mentrau Iaith Cymru (MIC) fel corff canolog a sefydlu strwythurau rhanbarthol wedi bod yn fuddiol iawn er mwyn creu fforymau ar gyfer rhannu arferion da a chyfnewid syniadau. Credir bod penodi Cydlynedd Cenedlaethol i MIC wedi bod yn ddatblygiad pwysig iawn ac o ganlyniad ceir cydnabyddiaeth bod gwell cyfathrebu'n digwydd rhwng y Mentrau a'i gilydd a bod rhaglen hyfforddiant briodol yn cael ei threfnu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Cyfeiriwyd hefyd at werth y cynllun mentora a sefydlwyd lle mae swyddogion yn gallu ymweld â Mentrau eraill fel rhan o'u datblygiad mewn swydd. Yn ogystal â hyn, trefnir cynhadledd flynyddol ar gyfer y prif swyddogion a chadeiryddion y Mentrau a chynhadledd ar wahân i'r swyddogion maes. Gwelir y cynadleddau hyn fel cyfle rhagorol i drafod, i adolygu, i gynllunio ac i rannu profiadau. Mae'r farn hon yn cael ei chrynhof gan un o'r ymatebwyr fel hyn—

Mae'n dda cael cyfle i rannu syniadau ac arferion da, rhannu pryderon a thrafod yn strategol â'r Mentrau eraill. Mae'n dda i'r rheolwyr a'r swyddogion maes gwrdd â swyddogion eraill mewn cyrsiau hyfforddiant ac yn y gynhadledd flynyddol. Mae MIC wedi datblygu'n dda dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, yn arbennig ar ôl penodi Cydlynedd Cenedlaethol. Ond, mae angen corff ymbarél proffesiynol i roi arweiniad a chefnogaeth i'r Mentrau ac i ymgyrchu'n genedlaethol dros y Gymraeg.

Barn un ymatebwr yw:

[Mae] rôl MIC wedi datblygu'n dda dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at fwy o gefnogaeth i'r Mentrau. Mae penodi swyddogion

canolog wedi bod yn allweddol. Mae'r Mentrau wedi ymrymuso'n fwy dros y blynyddoedd diwethaf a dysgu'n well o brofiad ei gilydd.

Nid pawb fodd bynnag oedd yn gweld cryfhau MIC fel yr ateb i wella statws y Mentrau. Yn ôl un ymatebwr mae'n anodd cael consensws ymhlith y Mentrau gan eu bod mor wahanol (ceir rhestr o wahanol statws cyfansoddiadol y Mentrau yn adran 9.6)— 'Mae'r strwythur canolog wedi cryfhau ond nid yw MIC yn gweithredu ar lefel ddigon strategol uchel. Dydy e' ddim yn gallu llefaru'n ddigon deallus. Mae angen Llywydd Cenedlaethol sy'n an-nibynnol o'r Mentrau unigol â llais cryf sy'n gallu dylanwadu'n effeithiol ar lefel polisi uchel a thargedu Gweinidogion Llywodraeth Cymru, y WLGA ac ati'. Ychwanegai air o rybudd hefyd am y peryglon o geisio fod yn bopeth i bawb— 'Ar hyn o bryd, mae MIC yn gorfod delio â gormod o fân bethau. Gan fod mwy o ddylanwad gan rai Mentrau ar MIC mae hyn yn creu drwgdeimlad. Weithiau mae buddiannau personol yn sefyll yn ffordd y Mentrau". Barn ymatebwr arall yw:

[bod] llais y Mentrau yn cael ei glywed yn fwy yng nghoridorau grym erbyn hyn, ond bod angen i MIC fod yn fwy gweithgar eto wrth lobio.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol hefyd i'r strwythurau rhanbarthol. Gwelir hwy fel fforymau pwysig o ran trafod syniadau a rhannu profiadau a sicrhau cysondeb o ran anghenion hyfforddiant, materion cyfreithiol, rhannu polisiâu, cytundebau cyflogaeth, disgrifiadau swyddi a materion adnoddau dynol. Barn un Fenter yw '[bod] rhannu arferion da'n digwydd yn well erbyn hyn ers i bob Menter brynu mewn i'r egwyddor o MIC, yn arbennig ar ôl i'r Bwrdd ddiflannu. Roedd y cyfan yn wastraff o amser cynt, ond nawr yn cael gwell ymateb. Mae perygl fodd bynnag bod y strwythur rhanbarthol yn dod yn llai pwysig gan fod y trafodaethau mawr yn digwydd ar lefel genedlaethol'.

Ceir teimlad cyffredinol fodd bynnag bod angen cryfhau MIC yn ddirfawr a bod angen llawer mwy o adnoddau arno i gefnogi gwaith y Mentrau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Ym marn y rhan fwyaf o'r Mentrau dylid cryfhau statws a strwythur rheoli Mentrau Iaith Cymru (MIC) a phenodi Prif Weithredwr a swyddogion rhanbarthol llawn amser ynghyd â swyddogion polisi a gweinyddol canolog. Y gred gyffredinol yw y dylid sefydlu strwythur proffesiynol tebyg i'r Urdd neu Fudiad Meithrin sy'n gallu gweithredu ar sawl lefel—o'r cenedlaethol a rhanbarthol i'r lleol.

Yn gyffredinol, mae'r Mentrau'n gweld angen dybryd am gorff canolog sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru a chyrrff cenedlaethol, ymateb i bolisiâu cyhoeddus, darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chynghor i'r Mentrau lleol, llunio rhaglen hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr, cysoni amodau gwaith a chyflogau staff, rhannu gweithdrefnau a pholisiâu, rhannu arbenigedd ar faterion adnoddau dynol, rhoi cynghor ar faterion cyllido, gwneud ceisiadau am nawdd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, rhannu arferion da ymhlith y Mentrau, monitro a safoni gwaith, ymestyn y cynllun mentora, rhannu adnoddau a bod yn bwynt cyswllt canolog i'r Llywodraeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r prif fudiadau iaith. Yn ôl rhai, byddai sefydlu strwythur cenedlaethol fel hyn yn gallu cynnig gwell atebolrwydd ac aeddfedrwydd o ran gwaith meddwl strategol a rhoi cymorth mewn argyf-

wng. Awgrymwyd y gellid penodi swyddogion canolog ag arbenigedd a phrofiad o hyrwyddo'r Gymraeg mewn nifer o wahanol feysydd megis addysg, gofal plant, datblygu cymunedol, yr economi, tai a chynllunio ac ati.

Yn ôl y mwyafrif a holwyd, rhagwelir y byddai swyddogion a fyddai'n gwireddu'r weledigaeth hon ar lefel ranbarthol hefyd yn gallu darparu llawer iawn o'r gefnogaeth, gwybodaeth a'r cyngor a fyddai ar gael yn ganolog ond ei wneud yn fwy lleol a dwys. Byddai'r swyddogion hyn hefyd yn gallu lloio awdurdodau lleol a gweithio'n agos â swyddogion rhanbarthol y prif fudiadau iaith fel yr Urdd, Mudiad Meithrin, prosiect TWF a Merched y Wawr. Byddent yn ogystal yn gallu cydlynu gwaith y Mentrau, cydlynu hyfforddiant, datblygu cysylltiadau a mynd ar ôl potiau o arian rhanbarthol. Roedd bron pawb o'r farn y byddai'r Mentrau sirol a lleol yn gryfach o gael corff canolog grymus i'w cydlynu a'u cefnogi, yn arbennig y Mentrau sydd heb eto gyrraedd eu potensial llawn. Rhagwelir y byddai'r broses gyfathrebu'n digwydd dwy ffordd, sef bod y Mentrau yn bwydo gwybodaeth i'r canol a bod MIC yn rhaeadru gwybodaeth i lawr.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr fodd bynnag mai'r flaenoriaeth ddylai fod cefnogi ac ymbweru'r Mentrau lleol ac ni ddylai datblygu MIC ddigwydd ar draul hyn. Tanlinellwyd pwysigrwydd cadw a chryfhau'r hunaniaeth leol sydd gan y Mentrau ond bod proses o atebolrwydd i MIC yn cael ei sefydlu hefyd. Awgrymodd rhai y dylid ariannu'r Mentrau lleol drwy gytundeb lefel gwasanaeth er mwyn sicrhau bod atebolrwydd a phrosesau monitro a gwerthuso cadarn yn cael eu sefydlu, a chyda hynny gydnabod MIC yn gorff sy'n cynrychioli'r Mentrau dros Gymru. Roedd eraill, ar y llaw arall, yn fwy ansicr ynghylch rhoi gormod o rym i'r canol gan y byddai'n gwanhau ymreolaeth y Mentrau lleol ac ychwanegu lefel arall o fiwrocratiaeth gostus.

Dadl arall a nodwyd o blaid y model hwn oedd y byddai creu corff proffesiynol ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol yn rhoi hygredded i'r maes a galluogi'r Mentrau i ddatblygu arbenigedd rhanbarthol a sirol. Cyfeiriodd llawer iawn o'r Mentrau at y ffaith bod bwlch enfawr yn bodoli ers diflaniad y Bwrdd a bod angen corff hyd braich o'r Llywodraeth i fod yn gyfrifol am gynllunio ieithyddol ar lawr gwlad. Cyfeiriodd eraill at y ffaith nad oes datblygiad mewn swydd yn bosibl â'r strwythurau presennol ac y byddai creu corff cenedlaethol yn galluogi hyn i ddigwydd. Y gobaith yn y dyfodol, drwy wella cyflogau ac amodau gwaith, yw y byddai llai o drosiant staff yn digwydd wrth i bobl ifanc yn arbennig weld gyrfa bosibl yn y maes cynllunio ieithyddol.

Yn ôl un ymatebwr—

Mae'r amser wedi dod i gael corff ymbarél i weithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae angen cryfhau llais y Mentrau o fewn coridorau grym llywodraeth ganol a llywodraeth leol. Mae angen llais cenedlaethol cryf ar y Mentrau i ymateb i ddatblygiadau strategol a gwleidyddol. Mae angen brandio MIC yn well, a'r cryfaf yw MIC y cryfaf fydd y Mentrau. Dylai MIC fod yn arwain o ran gosod safonau o ran dulliau gweithredu i'r Mentrau a rhoi cymorth â phob agwedd ar gynllunio ieithyddol, materion rheolaethol a chyfreithiol, a threfniadau gweinyddol.

6.2.4 A yw'r Mentrau yn gwneud gwaith y dylai eraill fod yn ei wneud?

Yn ddi-os, y farn gyffredinol yw bod y Mentrau'n gwneud gwaith y dylai awdurdodau lleol fod yn ei wneud ac ar brydiau mudiadau fel yr Urdd a phrosiect TWF. Dadl y Mentrau yw eu bod yn gorfod llenwi bylchau yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan awdurdodau lleol yn arbennig, ac mae honno'n farn resymol i feddu arni.

Ar hyn o bryd mae'r Mentrau'n darparu gweithgareddau i bobl ifanc, hyfforddiant gofal ac iechyd, cynlluniau chwarae, gofal plant, dosbarthiadau addysg gymunedol, gweithgareddau hamdden, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith, a chefnogaeth i deuluoedd. Y cwestiwn a godir yw ai dyma ddylai fod un o brif swyddogaethau sefydliad? Ceir nifer o enghreifftiau o gytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei roi i Fenter er mwyn darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor Sir. Mae eraill yn darparu heb gefnogaeth y Cyngor gan fod gwacter yn bodoli o ran gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Sylweddolwn ein bod yn ailadrodd rhai o'r themâu a grybwyllwyd uchod, ond tâl pwysleisio bod mwyafrif y Mentrau'n teimlo nad yw awdurdodau'n cymryd eu cyfrifoldeb statudol tuag at y Gymraeg o ddifrif. Mae rhai yn teimlo bod yr awdurdodau'n defnyddio'r Mentrau er mwyn ticio blychau o ran gwireddu gofynion eu Cynlluniau Iaith. Bernir bod sawl awdurdod yn cael eu gorfodi i ddirprwyo gwasanaethau craidd i'r Mentrau gan nad oes ganddynt y gallu eu hun i ddarparu. Yn ôl un ymatebwr—

Does dim gallu, dealltwriaeth na gweledigaeth gan yr awdurdodau ar hyn o bryd ac mae'r staff at ei gilydd yn ddi-glem o safbwynt anghenion siaradwyr Cymraeg'.

Mae rhai Mentrau'n gweld y fantais o gael cytundeb lefel gwasanaeth ag awdurdodau lleol gan eu bod yn caniatáu iddynt gael lle o gwmpas y bwrdd trafod a dylanwadu'n strategol arnynt. Mewn rhai achosion mae'r Mentrau'n cael eu defnyddio mewn rôl ymgynghorol. Ym marn y Mentrau dylai'r safonau iaith Gymraeg arfaethedig orfodi awdurdodau lleol i brif-ffrydio'r Gymraeg mewn ffordd llawer mwy amlwg a'u gorfodi i recriwtio staff dwyieithog i ymgymryd â'r gofynion statudol fydd yn ddisgwyliedig ganddynt. Barn sawl un o'r Mentrau yw y byddai hyn wedyn yn eu rhyddhau i wneud gwaith mewn meysydd nad ydynt yn cael cymaint o sylw ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, wedi ystyried holl ganlyniadau'r gwaith maes, nid ydym o reidrwydd wedi'n hargyhoeddi y dylai'r sefydliadau fod yn brif ddarparwr 'Cymraeg' i awdurdodau lleol. Mewn gwirionedd, mae gennym bryder bod y sefydliadau'n cael eu tynnu i fwy o gyfeiriadau gweithredol nag y gallant ymdopi â hwy. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gwaith priodol yn cael ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg ar lawr gwlad—nid pwy yn union sy'n gwneud y gwaith hwnnw.

Teimlai rhai o'r Mentrau eu bod yn cael eu gorfodi i ddarparu yn y maes ieuencid oherwydd diffyg gallu'r Urdd mewn rhai ardaloedd a'u tueddiad i ganolbwyntio ar waith ag ysgolion yn hytrach na gweithgareddau cymunedol. Mae'r un sefyllfa'n codi â chynlluniau i annog trosglwyddiad iaith yn y cartref mewn ardaloedd lle nad oes gan brosiect TWF swyddogion maes. Ceir yr un agwedd tuag at gyrff sy'n arwain y trydydd sector gan fod y

Mentrau'n aml iawn yn gorfod rhoi cefnogaeth i fudiadau a chymdeithasau gwirfoddol yn absenoldeb cymorth canolog.

Cafwyd rhybudd fodd bynnag bod awydd rhai Mentrau i gael eu gweld yn dylanwadu ar bob gweithgaredd a chynllun lleol yn gallu tanseilio hyder ac ymdrechion gwirfoddolwyr. Cyfeiriwyd yn benodol at enghraifft o Fenter Iaith yn rhedeg papur bro. Yn ôl un ymatebwr— 'Dyma'r peth gwaethaf gall Menter Iaith fod yn ei wneud gan fod cymryd drosodd rhywbeth sydd wedi bod yn waith gwirfoddol ers blynyddoedd yn tanseilio ymdrechion pobl ac yn eu hatal rhag datblygu sgiliau pwysig. Ymbweru pobl ddylai'r Mentrau wneud nid gwneud gwaith drostynt'. Mae hwn yn codi pwynt mwy sylweddol, a hwnnw y tu allan i gylch gorchwyl y sefydliadau, hynny yw: a ddisgwylir i'r sefydliadau gadw golwg ar bob elfen sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y gymuned—neu a yw hyn yn ormoddedd o ran ein disgwyliadau a gallu'r Mentrau Iaith i gyflawni'r ddyletswydd hon? Y mae'r ymatebwr yn deall i'r dim un o brif resymau gwreiddiol dros sefydlu Menter, sef ymyrryd yn effeithlon er mwyn ymbweru eraill yn y gymuned i weithio ac i weithredu, nid i ddyblygu neu i ddisodli gweithgareddau eraill.

6.3 Gweithio Mewn Partneriaeth

6.3.1 Rhannu Arfer Da rhwng y Sefydliadau

Mae nifer o'r sefydliadau yn cyfarfod yn chwarterol â'r prif bartneriaid er mwyn rhannu gwybodaeth a chyfleoedd i gydweithio a chodi arfer da.

Mae'r mwyafrif yn elwa o weithio ar y cyd ag eraill e.e. drwy gytundeb lefel gwasanaeth, i wella eu systemau gweinyddol, rhannu prosesau cyllidol, rheoli, tendro, polisïau, llawlyfr staff, cynllun dirprwyaeth ariannol ayb.

Mewn rhai sefydliadau roedd rhannu cronfa ddata yn eu galluogi i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau neu mewn mwy nag un sector. Yn wir, mae defnydd o dechnoleg gwybod-aeth yn nodweddu pob sefydliad. Cafwyd enghreifftiau o ddefnyddio systemau cyfrifiadurol i hysbysu gweithgareddau/digwyddiadau, ac o ddefnyddio GIS, sef gwaith mapio cyfrifiadurol, mewn mannau i adnabod cryfderau a diffygion gwasanaethau, yn enwedig ym maes hamdden ac adloniant.

Mae arfer da yn cael ei drafod a'i rannu adeg sesiynau hyfforddi MIC a chynadleddau swyddogion a phrif swyddogion. Mae'r trafodaethau gan amlaf yn agored, yn adeiladol ac yn fuddiol iawn, yn ôl y sefydliadau. Felly mae'r cyfleoedd yn werthfawr tu hwnt, ond nid oedd llawer o dystiolaeth yn yr ymatebion i adrodd ar sut roedd mesur i ba raddau yr oedd sefydliadau unigol wedi manteisio ar y cyfleoedd ac ar arfer da.

Wrth reswm roedd y sefydliadau bychan yn adrodd eu bod yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus o du MIC a'r sefydliadau cyfagos. Mae hyn yn allweddol wrth iddynt gynnig am arian a thendro am waith newydd. Adroddir yn gyson bod y sefydliadau hefyd yn elwa ar ddysgu arfer da a grëwyd gan bartneriaethau plant a phobl ifanc/cynlluniau sengl yr awdurdodau lleol ac o gyrff a phartneriaid eraill.

Yn olaf, roedd manteisio ar brofiad eraill o dderbyn cyllid o ran y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, cyfarfodydd ar gyfer cyrff gwirfoddol a statudol ym maes plant a phobl ifanc a dysgu am fanylion a goblygiadau llawlyfr y sefydliad yn nodweddu nifer o'r sefydliadau.

6.3.2 Partneriaethau rhwng y Mentrau

At ei gilydd mae'r Mentrau'n cefnogi ei gilydd yn dda ac yn cwrdd yn gyson ar lefel ranbarthol. Ceir tri rhanbarth i gyd, sef y gogledd, de-orllewin a'r de-ddwyrain. Fel arfer mae'r rhanbarthau'n cwrdd yn chwarterol i rannu arferion da, profiadau, syniadau, deunyddiau ac adnoddau. Mewn rhai achosion mae is-bwyllgorau rhanbarthol wedi eu sefydlu, yn bennaf ar gyfer swyddogion maes, mewn meysydd fel gofal plant, teuluoedd a gwaith ieuencid. Ceir enghreifftiau arbennig o hyfforddiant ar y cyd yn cael ei ddarparu o fewn rhanbarthau.

Ceir enghreifftiau hefyd o gydweithio effeithiol yn digwydd ar brosiectau penodol, yn bennaf â Mentrau'r gogledd drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r cyd-gynllunio rhwng y Mentrau wedi esgor ar nifer o brosiectau cyffrous sydd wedi cael dylanwad ar draws ardaloedd eang. Mewn rhannau eraill o Gymru fodd bynnag, ceir teimlad nad oes digon o gydweithio traws ffiniol yn digwydd ar hyn o bryd. Ychydig o enghreifftiau a geir o Fentrau'r canolbarth neu'r de'n cydweithio ar brosiectau penodol. Fel y dywed un ymatebwr— 'Does dim traddodiad o gydweithio ar brosiectau ar lefel ranbarthol—y tueddiad yw bod y Mentrau'n cadw at ardaloedd eu hunain, er eu bod yn gefnogol i'w gilydd'. Ar y cyfan mae lefel y cydweithio rhwng y Mentrau a'r prif fudiadau iaith yn dda ond nid oes digon o gynllunio strategol yn digwydd rhyngddynt. Mewn rhai siroedd mae'r Mentrau, yr Urdd a'r awdurdodau lleol yn cyd-ariannu swyddog ieuencid sy'n gorfodi'r partneriaid hyn i gynllunio rhaglen waith ar y cyd ac i fonitro cynnydd a gwerthuso llwyddiant. Mae hyn yn enghraifft dda o gydweithio strategol sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arian cyhoeddus. Ar y llaw arall mae'r diffyg cydweithio honedig rhwng yr Urdd a'r Mentrau mewn rhai ardaloedd yn golygu bod cystadlu a dyblygu gwaith diangen yn digwydd. Yn sicr mae awydd yn bodoli ymhlith y Mentrau i gydweithio'n agosach a ffurfio partneriaeth strategol ond gwelai rhai beryglon hefyd fel y mynegodd un ymatebwr— 'Drwy gydweithio, mae perygl bod y Mentrau a'r Urdd yn adrodd ar dargedau dwbl. Mae dadl synhwyrol dros rannu'r cyfrifoldebau'n fwy clir rhwng y prif fudiadau iaith—gallai pawb helpu ei gilydd yn hytrach na chystadlu fel sy'n gallu digwydd yn achlysurol ar hyn o bryd, ond byddai angen i un mudiad arwain mewn modd strategol. Efallai gallai'r Mentrau wedyn lenwi bylchau ar ôl iddynt gael eu hadnabod gan y bartneriaeth. Mae diffyg cysondeb a dryswch ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth ar hyn o bryd. Byddai'n syniad cael un swyddog cydlynu ar draws yr holl bartneriaid'.

Er bod enghreifftiau da o gydweithio yn bodoli mewn rhai ardaloedd o gydweithio ymarferol rhwng y Mentrau a TWF, Clybiau'r Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, maent yn rhy brin i fedru dweud bod lefel y cydweithio'n ddigon eang, yn ddigon strategol ac wedi ei wreiddio'n ddigon dwfn i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r Gymraeg. Yn ogystal, prin yw'r enghreifftiau o gyd-gynllunio effeithiol ag awdurdodau lleol, er bod ganddynt y potensial i weddnewid y sefyllfa ac i brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws yr holl feysydd polisi y mae ganddynt reolaeth drostynt. Er bod enghreifftiau o gytundebau lefel gwasanaeth ac arian yn cael ei roi i gefnogi mân brosiectau

cymunedol ac enghreifftiau o'r Mentrau'n cyfrannu i bartneriaethau sirol, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o'r Mentrau'n llwyddo neu hyd yn oed yn ceisio dylanwadu ar bolisiau cyhoeddus gan gyrrff statudol. Mae angen iddynt fynd i'r afael â hyn.

Er mai darlun cymysg a geir o ran cydweithio â mudiadau a sefydliadau eraill, mae'r berthynas rhwng y Mentrau a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI) yn fwy eglur—gall fod tensiynau a dryswch rhyngddynt. Dylid cofio, serch hyn, mai dim ond mewn 5 ardal y mae Cynlluniau Gweithredu Iaith yn weithredol ar hyn o bryd. Felly ni ddylid gorbwysleisio'r elfen hon a chymryd ei bod yn nodweddu ymdrechion cynllunio ieithyddol ar lefel Cymru gyfan. Mae'r pryder sy'n bodoli yn cael ei amlygu mewn sawl ffordd, er enghraifft:

Mae creu dau gorff yn yr un ardal yn creu tensiynau, dyblygu gwaith a chreu dryswch lleol. Ceir teimlad bod [Ardal X] yn 'no-go area' i'r Fenter!

Mae bodolaeth y CGI hefyd yn creu problemau o ran adrodd ar dargedau, fel y nodai un ymatebwr— 'Mae targedau'r Cynllun Gweithredu Iaith a'r Fenter yn rhy debyg sy'n achosi diffyg eglurder o ran natur y cydweithio. Mae hyn yn golygu bod y CGI yn amddiffyn eu tir rhag ofn bod y Fenter yn dwyn eu targedau!' Yn gam neu'n gymwys felly, mae'r Mentrau at ei gilydd yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o ardaloedd y Cynlluniau Gweithredu Iaith a bod y diffyg cydweithio'n arwain at ddryswch ymhlith trigolion lleol.

6.3.3 Partneriaethau a Chysylltiadau Allanol

Yn yr adran hon, eir i'r afael â'r partneriaethau hynny rhwng y sefydliadau a'r mudiadau ieithyddol nad ydynt yn Fentrau Iaith neu'n Gynlluniau Gweithredu Iaith. Byddwn hefyd yn edrych ar bartneriaethau y tu hwnt i fyd iaith y gallai polisi iaith ymelwa o'u dilyn.

Dechreuir drwy edrych ar un strwythur sydd ar waith ar y lefel feicro mewn sawl ardal yng Nghymru, sef Cymunedau'n Gyntaf. Prif waith y rhaglen yw ymladd yn erbyn tlodi a'i effeithiau. Sefydlwyd y cynllun yn 2000, ac erbyn 2012, roedd 50 o bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf. Wedi Medi 2012, gwnaed adolygiad a bellach ceir 52 clwstwr ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau ardaloedd ehangach o lawer na'r partneriaethau cymunedau'n gyntaf gwreiddiol. Diffinnir yr ardaloedd hyn ar sail Mynegai Aml Amddifadedd Cymru sydd yn cynnwys nifer o ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf. Cyfanswm y cyllid a roddir i'r holl glystyrau yw £75 miliwn⁷ (Mawrth 2013-Mawrth 2015). Mae'r clystyrau'n canolbwyntio ar dair elfen:

- Cymunedau iach
- Cymunedau sy'n dysgu
- Cymunedau sy'n llewyrchus

Mae ei ffocws yn un trefol, ac felly'n cynnwys nifer o'r ardaloedd a chanddynt y canranau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Er hynny, nid yw'n amlwg bod yr iaith yn ffactor allweddol ym mhrosesau cynllunio a gweithgarwch Cymunedau'n Gyntaf. Mewn nifer o feysydd er-

⁷ Ffynhonnell: Cyfathrebiad personol gan adran Cymunedau'n Gyntaf, Llywodraeth Cymru.

aill ymddengys fod y cynllun wedi'i brif-ffrydio'n llwyr i sawl agwedd ar weithgarwch polisiau Llywodraeth Cymru, ond nid felly polisi iaith. Mae'r rhaglen yn defnyddio system o 'bencampwyr' gwrth-dlodi ledled Cymru. Nid oes gan y rhaglen ryngwyneb uniongyrchol â'r Mentrau Iaith. Byddai'n ymddangos yn symudiad synhwyrol i ryngwyneb ffurfiol o'r fath gael ei greu ar y lefel lywodraethol uchaf. Mae posibiladau sylweddol yn codi o'r dysgu dwyffordd a allai ddeillio o gryfhau'r berthynas hon, yn arbennig o ran hyfforddiant i swyddogion.

6.3.4 A yw'r Mentrau yn dyblygu gwaith eraill?

Ceir rhai enghreifftiau o gydweithio da'n digwydd rhwng y Mentrau a phartneriaid eraill, yn arbennig yn y gogledd, ag arian y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo prosiectau megis sesiynau dwys i ddysgwyr, darparu cyfieithu cymunedol, cynnal gweithgareddau awyr agored a phrosiectau i gymathu mewnfudwyr. Mae'r cynllun wedi galluogi'r Mentrau i gynllunio ar y cyd ac adnabod blaenoriaethau sy'n targedu rhai meysydd penodol.

At ei gilydd fodd bynnag, mae nifer o bartneriaid yn credu bod gormod o ddyblygu gwaith yn digwydd ar y foment a bod hyn ar adegau'n tanseilio'r berthynas rhwng y mudiadau iaith a'r Mentrau. Teimlir yn gyffredinol y dylai'r Mentrau feddu ar rhaglen waith sy'n cadw'n glir o rai meysydd penodol er mwyn canolbwyntio ar sectorau lle nad oes arbenigedd neu wasanaethau i'w cael yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Yn ôl un ymatebwr—'Mae'r Mentrau gorau'n gwneud yn dda o ran cefnogi a chydweithio. Mae rhai yn adnabod y ffiniau o ran cyfrifoldebau'r gwahanol fudiadau ond mae eraill yn croesi'r ffiniau hynny weithiau'. Credai mai Llywodraeth Cymru ddylai ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am sicrhau bod terfynau clir yn cael eu cytuno â phob mudiad iaith o ran meysydd gweithredu er mwyn annog mwy o gydweithio a gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus— 'Rhaid gosod ffiniau pendant i waith pob Menter a mudiad yn y maes iaith a deall ffiniau eu cyfrifoldebau a glynu wrthynt. Rhaid wrth well cydweithio a rhannu gwybodaeth—dylai hyn fod yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol neu asiantaethau allanol allai weithredu fel cyrff cydlynu'. Awgrymodd y byddai datblygu cynllun fel hwn yn hwyluso'r broses o werthuso'r Mentrau Iaith— 'Dylid cytuno ar rai pethau dylai'r Mentrau wneud, sef eu gwaith creiddiol-a dylid asesu eu perfformiad ar y rhain', meddai.

Mae'r awydd i sicrhau gwell cyd-ddealltwriaeth rhwng y gwahanol bartneriaid yn cael ei ategu gan reolwyr eraill sy'n nodi:

Ni ddylid cymylu'r ffiniau rhwng cylch gorchwyl y gwahanol fudiadau iaith. Rwy'n teimlo'n gryf y dylai pob mudiad iaith gael diffiniad clir o beth yw eu rôl. Efallai dylai'r Urdd arwain ar yr holl weithgarwch sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, TWF â theuluoedd, y Canolfannau Cymraeg i oedolion â dysgwyr [...] Gallai'r Mentrau gefnogi yn ôl y galw a byddai hyn yn eu rhyddhau i wneud mwy o waith ag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill, dwyieithogi busnesau a mudiadau yn y trydydd sector, cymathu mewnfudwyr a darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn y gymuned. Mae angen deall cyfrifoldeb pwy yw beth'. Teimlai bod llawer o arian ac egni'n cael ei wastraffu oherwydd y diffyg cynllun-

io strategol gan ofyn a ddylai awdurdodau lleol gydlynu gwaith y mudiadau iaith.

Ar hyn o bryd mae'r gefnogaeth ariannol i'r mudiadau iaith yn aneffeithiol gan fod gormod o faglu ar draws ein gilydd yn digwydd a dim digon o gynllunio a gweithredu strategol. A ddylai'r arweiniad a'r rheolaeth ddod gan y Cyngorau Sir?

Mae ymatebwr arall yn credu mai diffyg cyfathrebu a chymhelliant ariannol sy'n gyfrifol am lawer o'r dyblygu gwaith— 'Dylid sicrhau bod mwy o gydweithio a chynllunio strategol yn digwydd—dylai rhywun o'r Cyngor Sir gydlynu hyn. Rôl gefnogol ddylai fod i waith y Mentrau. Mae'r Mentrau yn dda yn mynd ar ôl nawdd ond nid ydynt yn trafod digon ymlaen llaw â phartneriaid eraill'.

Ar sail y gwaith maes, credwn—er cyn bwysiced yr elfen strategol—fod perygl seilio strategaeth yn benodol ar lenwi bylchau yn unig. Mae bylchau'n bodoli nid oherwydd diffyg gallu sy'n deillio o ddiffyg ariannol, ond weithiau oherwydd diffyg gweledigaeth neu barodrwydd i freuddwydio realiti wahanol. Mae angen ateb gwahanol i bob ardal. Rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan o strwythurau sylfaenol pob awdurdod lleol. Dyna yw byrdwn yr adran nesaf.

6.3.5 Mentrau iaith, Awdurdodau Lleol a chyrrff eraill: cydweithio strategol?

Ar y cyfan nid yw'r mudiadau iaith a holwyd yn credu bod digon o gydweithio a chyd-gynllunio'n digwydd rhwng y Mentrau iaith ac awdurdodau lleol a chyrrff statudol eraill. Â'r awdurdodau lleol yn gorfod wynebu toriadau llym dros y blynyddoedd nesaf a'r angen i flaenoriaethu eu gwariant, credai nifer fod yr amser wedi dod lle bydd rhaid cynnal trafodaethau strategol ar ddyfodol yr iaith â nifer o bartneriaid allweddol mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, tai a chynllunio, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector, yr economi ac ati. Gan fod consensws ymhlith arbenigwyr iaith ynglŷn â phwysigrwydd cryfhau'r isadeiledd cymdeithasol ac economaidd fel sail i adfywiad yr iaith teimlir bod rhaid edrych ar y darlun ehangach o ran pwy allai gyfrannu orau i'r broses adfywio yn hytrach nag edrych ar rôl y Mentrau yn unig, sydd yn un darn o'r jig-so.

Ceir teimlad cyffredinol nad oes gan y mwyafrif o awdurdodau lleol gyfeiriad strategol o safbwynt y Gymraeg a bod nifer ohonynt yn gweld y Mentrau fel cyfle i drosglwyddo cyfrifoldeb am yr iaith i rywun arall—naill ai oherwydd diffyg diddordeb, diffyg gallu neu ddiffyg ymrwymiad. Credir bod gormod o awdurdodau'n gweld y Mentrau fel esgus i wneud dim dros y Gymraeg eu hunain ac yn aml maent yn eu hariannu â hynny mewn golwg. I nifer, credir bod rôl y Mentrau'n parhau i fod yn aneglur. Mae'n deg gofyn felly a oes cytundeb yn bodoli o gwbl rhwng awdurdodau a'r Mentrau o safbwynt cytuno ar gyfrifoldebau a chanlyniadau? Nid oes llawer o arwyddion bod awdurdodau lleol wedi bod yn ddigon rhagweithiol yn eu perthynas â'r Mentrau.

Ar sail tystiolaeth yr Adolygiad, nid oedd cytundeb clir ynglŷn â pherthynas y Mentrau â'r awdurdodau lleol a ph'un a ddylai'r Mentrau ddod dan eu rheolaeth ai peidio. Barn un ymatebwr yw bod angen i'r Mentrau glosio mwy at awdurdodau lleol i ddylanwadu ar eu polisiau mewn meysydd fel addysg, hamdden, cynllunio, polisiau recriwtio, cynlluniau

gofal plant, gweinyddiaeth fewnol ac ati. Yn ddelfrydol credai y dylai pob Menter fod yn hybrid o fodel sy'n dylanwadu ar bolisi Cyngor Sir a Menter sy'n hwyluso gweithgareddau cymunedol. Gwelai fanteision uniongyrchol i'r Mentrau dan ofal awdurdodau lleol wrth iddynt elwa ar y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael mewn perthynas â materion personél, rheoli cyllid, polisiau a gweithdrefnau, adnoddau dynol, cyfraith cyflogaeth, yswiriant ac ati. Dadleuai fod angen i'r Mentrau ddylanwadu llawer mwy ar awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn y sector iechyd, heddlu ac adfywio economaidd. Teimlai nad yw'r Mentrau at ei gilydd wedi bod yn ddigon gweithgar yn yr agwedd hon ar hyrwyddo'r Gymraeg.

Ar y llaw arall teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r Mentrau aros y tu allan i reolaeth awdurdodau lleol gan y byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt ac yn eu galluogi i ddenu nawdd allanol a bod yn fwy dyfeisgar a chreadigol. Teimlir y byddai cyfundrefn yr awdurdodau lleol yn eu caethiwo'n ormodol ac yn eu rhwystro rhag herio penderfyniadau a pholisiau pe bai achosion yn codi.

Roedd eraill yn holi am ddull ariannu'r Mentrau gan ofyn a ddylid symud i sefyllfa lle dylai'r Mentrau a mudiadau iaith eraill gael eu comisiynu i wneud gwaith penodol yn ôl blaenoriaethau a adnabyddir gan yr awdurdod lleol a phartneriaid strategol eraill yn hytrach na rhoi arian craidd i'r Mentrau fel rhyw fath o 'siec wag'?

Rhybuddiwyd oni bai bod yr awdurdodau lleol yn cynnig arweiniad cadarn, y byddai temtasiwn i fynd ar ôl ffynonellau nawdd o feysydd nad ydynt yn benodol yn gysylltiedig â hyrwyddo'r iaith yn parhau a bod perygl yn gallu codi o wneud hyn—

Mae arian awdurdodau lleol ym maes datblygu cymunedol yn gallu creu gwaith darniog drwy dynnu'r Mentrau yn bellach oddi wrth eu cenhad-aeth greiddiol. Mae hefyd yn eu gwneud yn ddarostyngedig i weithredu ac ufuddhau i feistri'r sir yn hytrach na gweithredu'n unol â strategaeth genedlaethol neu argyfwng lleol.

Mae hyn, wrth reswm, yn galw am drafodaeth athronyddol ynghylch union natur Mentrau iaith, yn arbennig yng nghyd-destun newid sylweddol yn nhirwedd polisi iaith yng Nghymru a'n gobaith yw bod yr Adolygiad hwn yn cyfrannu at y drafodaeth honno.

6.3.6 Barn Partneriaid: Mentrau a chydweithio strategol

Y farn unfrydol ymhlith y mudiadau iaith a holwyd yw nad oes digon o gynllunio strategol yn digwydd rhwng y sefydliadau a'u partneriaid a rhwng y sefydliadau ac awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill. Cynigwyd nifer o resymau am hyn, gan gynnwys y ffordd mae Llywodraeth Cymru'n gosod targedau ar gyfer y mudiadau iaith a'r gystadleuaeth sy'n bodoli am arian a statws.

Yn ôl nifer o bartneriaid, mae gormod o Fentrau'n gweithio ar lefel rhy arwynebol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r Gymraeg gan fod gormod o bwysau yn cael eu rhoi arnynt i gyflawni targedau a thicio blychau. Credir bod hyn yn ganlyniad i'r ffordd mae'r Mentrau'n cael eu hariannu a'r orfodaeth sydd arnynt gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd targedau meintiol, byrdymor. Barn un o'r partneriaid yw:

[...] ymarfer cwbl ddi-werth os nad yw'n rhan o strategaeth ehangach, hirdymor. Nid yw'r Mentrau'n edrych ddigon tu allan i'r bocs oherwydd eu bod yn cael eu cyfyngu gan dargedau artiffisial y Llywodraeth. Mae hyn yn eu cyfyngu a'u rhwystro rhag gweithredu'n fwy strategol.

Mae'r safbwynt hwn yn cael ei ategu gan ymatebwyr eraill sy'n cydnabod bod y prif fudiadau iaith i bob pwrpas yn gweithio'n annibynnol i'w gilydd. Meddai un— 'Mae targedau Llywodraeth Cymru'n gorfodi mudiadau i weithio'n annibynnol. Pe bai cydweithio'n digwydd byddai perygl i dargedau gael eu cyfrif tair gwaith! I osgoi hyn, dylid gosod targedau ar y cyd mewn ardal benodol er mwyn annog mwy o gydweithio'. Lleisir yr un farn gan un arall, sef:

Dyw'r Mentrau ddim yn gweithio'n ddigon strategol â mudiadau iaith eraill. O ganlyniad nid ydynt yn gwneud gwahaniaeth mawr i sefyllfa'r iaith—ar y cyfan maent yn ymateb yn rhy gaeth i dargedau'r llywodraeth.

Ar y llaw arall barn ambell i fudiad iaith yw bod llond dwrn o Fentrau'n fwriadol yn cystadlu yn eu herbyn yn hytrach na chydweithio gan fod hyrwyddo brand y Mentrau'n bwysicach iddynt na gweld y darlun mawr. Yn ôl un sylw a gafwyd:

Mae rhai o'r Mentrau yn credu bod hyrwyddo eu delwedd gorfforaethol a chwyddo eu statws yn bwysicach na chydweithio dros y Gymraeg.

Cyfeiriwyd hefyd at enghreifftiau mewn ambell i sir o fudiadau iaith a'r Mentrau'n cystadlu am yr un pot o arian yn hytrach na chyflwyno cais ar y cyd, sy'n tanlinellu'r diffyg cynllunio strategol sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Cyfeiriwyd yn benodol at waith ieuencid lle mae cynifer o fudiadau ac asiantaethau'n baglu ar draws ei gilydd i ddarparu ar gyfer y grŵp oedran 11-25. Ym marn un partner roedd 'yr ysgrifen ar y mur' flynyddoedd yn ôl:

Dylai'r sgwrs fod wedi digwydd pum mlynedd yn ôl pan ddechreuodd y Bwrdd roi targedau plant a phobl ifanc i'r Mentrau. Roedd hyn yn gwaidd cystadleuaeth. Os oedd arian gan y Bwrdd i'w roi tuag at waith ieuencid bryd hynny pam ddim ei roi i'r Urdd er enghraifft neu'r Ffermyr Ifanc?'

Credir bod y Mentrau'n llenwi bylchau ar hyn o bryd gan nad oes adnoddau gan y mudiadau ieuencid Cymraeg i ymateb i'r galw ym mhob man. Barn y mudiadau hyn fodd bynnag, yw y gallent wneud y gwaith hwn petai mwy o gyllid ar gael— 'Os yw'r Llywodraeth yn edrych o ddifrif ar waith y Mentrau, rhaid iddynt beidio annog y Mentrau i gystadlu ond yn hytrach atgyfnerthu beth sydd yna'n barod. Rhaid osgoi ail-greu'r olwyn', ychwanegodd.

Er mwyn osgoi rhagor o wrthdaro a chystadlu, awgrymwyd y dylai'r Mentrau a'u partneriaid feddwl am gyflogi swyddogion ar y cyd fel sy'n digwydd mewn rhai siroedd yn barod neu ddod i gytundeb ynglŷn â phwy ddylai ddarparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae lle i holi, er enghraifft pam na fyddai'r Urdd yn gallu canolbwyntio ar yr oedran 4-18

a chyd-ariannu swyddogion i ddarparu ar gyfer yr oedran 18-25 â'r Mentrau neu'r Clybiau Ffermwyr Ifanc? Yn ôl un ymatebwr:

Dyw'r Mentrau ddim yn tynnu [enw mudiad] mewn i'r broses gynllunio o'r cychwyn—maent yn barod i ddefnyddio [enw mudiad] i hyrwyddo gweithgareddau'r Mentrau ond ddim yn cael yr un gefnogaeth yn ôl. Ceir teimlad cryf o 'ni a nhw'. Ceir teimlad bod gan y Mentrau gynllun ond ddim ar y cyd â mudiadau eraill. Mae hyn yn creu elfen o gystad-leuaeth.

6.4 Gweithio'n Strategol

At ei gilydd, mae'r Mentrau'n cydnabod nad ydynt wedi bod yn gweithio'n ddigon strategol yn y gorffennol ond bod y ffocws ar ddefnyddio dulliau gwahanol i adnabod anghenion wedi gwella rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn dal i gredu bod angen iddynt gynllunio'n fwy strategol, i weithio'n fwy systematig a defnyddio data ac ymchwil yn well i adnabod blaenoriaethau. Maent yn cyfaddef bod gormod o brosiectau a chynlluniau wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhai mympwyol a phoblogaidd yn hytrach na rhai sy'n adlewyrchu angen strategol. Mae'r gwaith wedi dangos rhai enghreifftiau da o systemau monitro gweithgareddau, ond bod y systemau hynny yn ynysig. Nid yw fel petai'r systemau monitro hynny yn cael eu rhannu fel enghreifftiau o arfer da rhwng y sefydliadau. Y perygl yw, heb gydlynw canolog ar, er enghraifft, systemau monitro effaith gwaith, neu hyd yn oed systemau gweithredol megis cronfeydd data digwyddiadau, y bydd dyblygu diangen yn parhau, ac ni fydd diwylliant digonol o ddysgu yn cael ei feithrin.

Ar y llaw arall mae rhai Mentrau'n ymgynghori'n gyson â grwpiau penodol drwy grwpiau ffocws, cyfarfodydd ardal a'r defnydd o holiaduron, ac yn defnyddio data, proffiliau fesul adran etholiadol a phroffil iaith sirol i gynllunio'u rhaglen waith. Maent hefyd yn gwerthuso prosiectau'n drwyadl a chasglu adborth er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau a gwella'r broses gynllunio drwy adnabod bylchau o ran gwybodaeth a darpariaeth. Fel y dywed un o'r Mentrau:

Dylai rhaglen waith flaengar a thargedau clir a mesuradwy fod yn ganolog i'n gwaith. Dylai adnabod angen, cynllunio a gwerthuso fod yn rhan greiddiol o'r broses o gynllunio rhaglen waith y Fenter, nid dim ond cynnal prosiectau poblogaidd, hawdd eu trefnu!

Mae ychydig Fentrau'n dadlau serch hynny ei bod yn anodd gweithredu'n strategol oherwydd diffyg gallu sy'n deillio o ddiffyg arian craidd gan Lywodraeth Cymru. Yn ôl un Fenter— 'Dyw'r Mentrau ddim yn gweithio'n ddigon strategol oherwydd bod llawer o amser prif swyddogion yn cael ei dreulio'n rhedeg ar ôl potiau o arian, nad ydynt bob tro'n ymateb i flaenoriaethau'r ardal. Mae diffyg arian craidd yn golygu nad ydym yn gallu cynllunio'n ddigon manwl'. Mae'r agwedd hon yn cael ei hadleisio gan nifer o Fentrau sy'n cyfaddef eu bod wedi gorfod arallgyfeirio er mwyn manteisio ar ffynonellau nawdd eraill tra'n cydnabod mai canlyniad hyn yw eu bod yn colli ffocws ar gynllunio a sicrhau cynnydd ieithyddol, fel y nodir gan un swyddog— 'Mae'n demtasiwn mynd ar ôl arian craidd o

ffynonellau eraill, ond y perygl yw bod hyn yn mynd â'r Mentrau yn bellach oddi wrth gynllunio ieithyddol'.

Dywed un arall bod diffyg arbenigedd ac amser staff yn golygu nad yw'r Fenter yn gallu dylanwadu'n ddigon effeithiol ar awdurdodau lleol— 'Mae angen gwella ein gallu i weithredu'n fwy strategol. Mae angen mwy o bresenoldeb gan y prif swyddogion ar bartneriaethau strategol yr awdurdodau e.e. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Theuluoedd yn Gyntaf. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth'. Mae'n werth nodi serch hynny bod tair Menter wedi penderfynu peidio trefnu gweithgareddau cymunedol er mwyn canolbwyntio ar weithio'n strategol yn unig. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ddylanwadu ar gyrrff statudol a'r holl bartneriaethau strategol sy'n gysylltiedig â hwy. Teimlent fod gweithio yn y dull hwn yn cael mwy o effaith hirdymor ar y Gymraeg ac yn gwreiddio'r iaith ym meysydd polisi cyhoeddus yn well na darparu prosiectau.

Unwaith eto, mae'r system dargedau gan Lywodraeth Cymru'n cael ei beio hefyd am ddiffyg cynllunio strategol rhwng y Mentrau a'r prif fudiadau iaith eraill. Yn ôl rhai ymatebwyr, mae'r ffaith bod targedau mudiadau iaith megis yr Urdd a TWF er enghraifft yn cael eu pennu'n annibynnol ar y Mentrau yn golygu bod dyblygu gwaith a cholli cyfleoedd i gydweithio yn anorod. Ym marn un— 'Mae'r Fenter yn ceisio bod yn fwy strategol ond teimlir bod mudiadau iaith eraill yn llai parod i gydweithio nag yn y gorffennol'. Credir bod angen llawer mwy o gydweithio strategol rhwng y mudiadau iaith, awdurdodau lleol a'i gilydd fel sy'n digwydd â'r awdurdodau addysg ar lefel ranbarthol. Byddai hyn, meddir, yn galluogi pob mudiad ac awdurdod lleol i gydweithio'n fwy systematig ac effeithiol er mwyn sicrhau'r deilliannau mwyaf pellgyrhaeddol a chynaliadwy. Ar y llaw arall mae uchelgais un Fenter yn ddigon clir pan ddywed—

Cyrraedd ein targedau yw'r unig flaenoriaeth, does dim ots sut y byddwn yn llwyddo i wneud hyn!

O safbwynt blaenoriaethu cynlluniau i'r dyfodol, mae mwy a mwy o'r Mentrau erbyn hyn yn credu y dylid canolbwyntio ar ymdrechion i wella'r economi leol er mwyn creu gwaith i siaradwyr Cymraeg a chreu gweithlu dwyieithog. Mae Mentrau iaith Cymru wedi cyflwyno Cynllun Marchnad Lafur Cymraeg i Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu sut i adnabod sgiliau dwyieithog lleol a'u marchnata er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith. Yn ôl un ymatebwr—

Y flaenoriaeth yw cadw pobl ifanc yn yr ardal a'r allwedd i hynny yw swyddi lleol. Mae gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig o ran amlhau cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ond mae rhoi hwb economaidd i'r ardal drwy'r iaith yn gwbl angenrheidiol. Mae angen dangos bod yr iaith yn sgil ac yn fantais i bob math o swyddi. Gellir lleihau allfudiad drwy greu gwell troedle economaidd i siaradwyr Cymraeg drwy fodoli fel cymuned economaidd nid cymuned ddiwylliannol yn unig. Gwaith sy'n hoelio pobl wrth ddarn o dir.

Mae'r sylw hwn yn cael ei adleisio gan ymatebwyr eraill sy'n pwysleisio'r angen am roi ffocws ar adfywio economaidd—

Er mor ddiwylliannol bwysig yw'r Gymraeg, dydy hi ddim yn llenwi bol-iaiu! Mae'n bwysig mynd â'r Gymraeg i feysydd polisi eraill. Byw drwy'r Gymraeg sy'n bwysig nid byw dros y Gymraeg. Normaleiddio'r Gymraeg ddylai'r nod i fod ym mhob maes polisi, ond rydym yn bell o gyrraedd y sefyllfa honno eto!

Credir yn ogystal fod angen buddsoddi llawer mwy mewn ymchwil, yn arbennig yn y maes addysg. Awgrymir y dylid cynnal astudiaethau o faint o gyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg sy'n siarad yr iaith o hyd a ble maent yn byw a sefydlu system dracio cyn i'r disgyblion adael yr ysgol uwchradd er mwyn medru cadw cysylltiad â hwy wedyn. Mae angen mwy o bwyslais gan yr ysgolion uwchradd Cymraeg ar weithgarwch cymunedol gan y Fenter a'r Urdd ac annog disgyblion i fynychu er mwyn iddynt ddod i arfer â defnyddio'r iaith yn gymdeithasol. Teimlai rhai fod perygl i'r Mentrau dargedu pobl hawdd eu cyrraedd a threfnu prosiectau meddal nad ydynt mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth hirdymor i sefyllfa'r iaith.

Cyfeiriwyd sawl gwaith at fodolaeth y Fforymau Iaith sirol a'r potensial sydd ganddynt i fod yn gyfrwng effeithiol o ran dod â mudiadau a chyrrff cyhoeddus o gwmpas y bwrdd i gynllunio a chydweithio. Pwysleisiwyd y posibilrwydd o gynnal ymchwil ar y cyd i adnabod tystiolaeth a blaenoriaethau a'r cyfleoedd sy'n bodoli i gydweithredu'n strategol ar gynlluniau blaengar wedi eu ffocysu ar grwpiau targed neu ardaloedd daearyddol penodol. Yn anffodus, ym marn y mwyafrif nid yw'r Fforymau Iaith ar eu ffurf bresennol yn gymorth mawr i'r gwaith. Er bod gwerth iddynt o ran dod i adnabod gwahanol sefydliadau ac unigolion a chlywed drwy adroddiadau beth sydd wedi digwydd, ni welir pwrpas iddynt o ran gweithredu fel chyrrff cynllunio strategol.

6.4.1 Datblygu rôl y Mentrau Iaith ymhellach?

Roedd pob Menter yn credu bod ganddynt y potensial i wneud llawer mwy nag sy'n bosibl ar hyn o bryd, pe bai cyllid ychwanegol ar gael i'w galluogi i benodi mwy o staff. Teimlwyd yn gyffredinol y gallai'r Mentrau gyfrannu mwy i feysydd fel datblygu cymunedol, adfywio economaidd a'r sector fusnes fel bod y Gymraeg yn cael troedle mewn cynlluniau creu swyddi, datblygu sgiliau, hyfforddiant a gwella cyfranogaeth. Barnwyd hefyd bod lle i'r Mentrau gryfhau eu dylanwad ar awdurdodau lleol, chyrrff cyhoeddus a phartneriaethau strategol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn ystyriaeth ganolog yn eu polisiâu craidd. Yn sgil diddymu'r Bwrdd a chyda golwg ar ad-drefnu llywodraeth leol ar y gorwel, roedd rhai yn gweld cyfleoedd masnachol yn codi lle byddai'r Mentrau yn gallu tendro am waith megis darparu gwasanaethau neu reoli prosiectau i gynhyrchu incwm. Roedd eraill yn gweld y potensial o sefydlu busnesau cymunedol fel gwasanaethau gofal plant, cyfieithu cymunedol, agor siopau llyfrau Cymraeg a chaffis cymunedol er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i wneud arian.

Roedd nifer o Fentrau wedi cyfeirio at y potensial i ddatblygu marchnad lafur Gymraeg gan ddadlau y byddai creu rhestr o bobl ar lefel sirol sy'n gallu darparu gwasanaethau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymorth mawr i gyrff a mudiadau—yn y sector cyhoeddus yn bennaf—sy'n chwilio am weithwyr â sgiliau dwyieithog. Teimlwyd y byddai hyn yn arbennig o addas ar gyfer gweithredu safonau iaith Gymraeg Mesur y Gymraeg (Cym-

ru) 2011. Yn yr un modd, petai'r gallu gan y Mentrau, roeddent yn teimlo y gallent wneud mwy i helpu cyrff cyhoeddus a mudiadau yn y trydydd sector i ddatblygu gweithlu dwyieithog. Nodwyd y byddai hyn yn arbennig o fuddiol yn yr ardaloedd di-Gymraeg lle byddai modd recriwtio cyn-ddisgyblion o ysgolion Cymraeg i swyddi lle mae angen sgiliau dwyieithog. Byddai hyn, meddir, yn cryfhau gwerth economaidd y Gymraeg ac yn sicrhau bod yr iaith yn cael ei hystyried fel sgil bwysig ar gyfer y byd gwaith. Yn ôl un ymatebwr:

Rhaid creu hinsawdd sy'n annog y defnydd o'r iaith mewn gweithleoedd. Mae cyflogwyr yn dadlau nad oes modd recriwtio siaradwyr Cymraeg, ac eto mae nifer fawr yn gadael ein hysgolion Cymraeg a cholegau bob blwyddyn yn gallu siarad yr iaith. Rhaid i'r Comisiynydd drwy'r Safonau Iaith ddefnyddio ei phwerau i orfodi cyrff cyhoeddus i newid eu meddylfryd a phrif ffrydio'r Gymraeg i wasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn rhoi pwrpas a gwerth economaidd i'r Gymraeg.

Gwelwyd hefyd botensial i wneud llawer mwy i gefnogi teuluoedd, i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector hamdden a threfnu mwy o ymgyrchoedd marchnata a chodi ymwybyddiaeth o fanteision addysg Gymraeg a gwerth dwyieithrwydd, pe bai mwy o staff arbenigol i gael i gyflawni hyn. Byddai'n rhaid gwerthuso'r syniad hwn yn fanwl cyn ei gymeradwyo yn gyffredinol am nad yw yn gwbl amlwg bod darpar gyflogwyr yn defnyddio'r un set o asiantaethau er mwyn recriwtio. Ond yn sicr y mae yn gynnig sy'n werth ei ystyried.

6.4.2 Y Sefydliadau'n Cnoi Cil ar eu Gwaith

Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r sefydliadau a wnaeth iddynt fwrw golwg ar sut maent yn profi llwyddiannau, a'r hyn y gallent ei wneud pe bai sefyllfa wahanol yn codi yn y dyfodol. Er mwyn deall hyn rhaid mynd i'r afael â sut beth yw 'llwyddiant'. Mae saith thema yn dod i'r amlwg o atebion y cwestiwn hwn:

1. Creu cyfleoedd (e.e. sefydlu clybiau, gweithgareddau i ddysgwyr)
2. Denu arian (e.e. ennill grant o £X i gyflogi Y o bobl), ennill grant cynllun datblygu gwledig
3. Effaith leithyddol (e.e. cynllun wedi cynyddu nifer y siaradwyr (neu ddefnydd iaith siaradwyr) o X i Y)
4. Creu swyddi (cyfrannu i'r economi)
5. Cryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (e.e. ymchwil, gweithredu ar ran Awdurdod Lleol X)
6. Creu incwm ychwanegol i'r sefydliad (e.e. cyfieithu cymunedol)
7. Gwyliau cerddorol a diwylliannol (e.e. parti Tref X, Pwyllgor i drefnu digwyddiadau proffil uchel)

Yr hyn sy'n taro rhywun wrth ddarllen trawsgrifiadau a chanlyniadau'r offerynnau ymchwil yw lluosedd y dehongliadau o'r hyn sy'n cyfrif fel llwyddiant ym maes cynllunio ieithyddol.

Prin oedd yr enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel llwyddiannau a fyddai'n sicrhau llwyddiant i'r Gymraeg a gosod seiliau tymor hir iddi mewn ffordd hunangynhaliol. Ymddengys fod nifer o sefydliadau yn buddsoddi llawer o egni am ychydig o dâl o ran cyfalaf cymdeithasol ieithyddol tymor hir. I rai golyga llwyddiant drefnu gweithgareddau cymdeithasol fel boreau coffi, partiön Nadolig a chyfleoedd i ymarfer y Gymraeg yn gymdeithasol. Ni ddylid dibrisio'r math hwn o gyfle sylfaenol, ond nid yw'r math hwn o feddylfryd yn esgor ar gynlluniau a gweithgareddau uchelgeisiol, strategol. Wrth fwrw i edrych ar y pum mlynedd nesaf, gofynnwyd i'r sefydliadau roi amcan o'u blaenoriaethau strategol a'r hyn y byddent am ei weld 'mewn byd delfrydol' o ran datblygiad eu sefydliad. Mae sawl thema strwythurol yn codi o'r dystiolaeth:

- Cyflogi llawer mwy o staff—gofal plant, datblygu teuluoedd ayb
- Cydweithio â mwy o sefydliadau—agenda effaith gref
- Gweithio fel canolbwynt gweinyddol a gwybodaeth er hybu'r Gymraeg, systemau aeddfetach a chydweithio mwy â'r Cyngor Sir
- Mwy o staff ar lefel adran etholiadol ac ar lefel ranbarthol
- Datblygu rhwydweithiau cynaliadwy

Cymherir y 'byd delfrydol' hwn â'r blaenoriaethau y mae'r sefydliadau wedi eu gosod iddynt eu hunain dros yr ychydig flynyddoedd nesaf:

- Ymrwymo i ddatblygu MIC i fod yn sefydliad sydd yn cefnogi datblygu'r Mentrau Iaith
- Y farchnad lafur—targedu swyddi y gellid eu llenwi gan siaradwyr Cymraeg er mwyn bwrw agenda polisi'r Gymraeg yn eu blaen
- Cynllunio gwlad a thref—dylanwadu ar y broses cynllunio gwlad a thref er mwyn lleihau'r effaith niweidiol a all ddigwydd yn sgil datblygiadau economaidd ac adeiladu rhagor o gartrefi
- Sgîl effaith newidiadau demograffaidd ac economaidd
- Cryfhau ymwneud y gymuned o wirfoddolwyr trwy ddenu rhagor o wirfoddolwyr
- Sicrhau cyllid a chynyddu nifer y staff er mwyn targedu meysydd newydd
- Goroesi: a cheisio sicrhau cyllid digonol i wrthsefyll bygythiadau'r sefyllfa argyfyngus sydd ohoni mewn rhai manau/sefydliadau
- Dylanwadu a cheisio sicrhau bod y Cyngor Sir yn gweithredu ei ymrwymïadau ieithyddol statudol

Unwaith eto, bach iawn yw'r blaenoriaethau sy'n cydblethu â'r weledigaeth wirioneddol uchelgeisiol a holistaidd ar gyfer y Gymraeg mewn ardal benodol. Un cynnig allweddol oedd gweld Mentrau Iaith Cymru yn gydlynedd cenedlaethol mwy effeithiol a dylanwadol nag y gall fod o ystyried yr adnoddau presennol sydd ganddo. O ran ymwneud asiantaethau datblygu cymunedol â'r gyfundrefn cynllunio gwlad a thref, roedd yn amlwg bod dyhead, ond nid amlinelliad o raglen waith, i ddylanwadu ar bolisi awdurdodau lleol. Nododd un sefydliad, yn nghyd-destun Cynllunio Gwlad a Thref, fod penderfyniadau llywodraethol yn cael mwy o effaith negyddol ar y Gymraeg nag o effaith gadarnhaol a grëwyd trwy gynlluniau grant llywodraethol, a hynny o bell ffordd. Mae'r diffyg canfyddedig yn y system cynllunio gwlad a threfn yn peri cryn dipyn o bryder a'r disgwyl synhwyrol fyddai i'r Llywodraeth integreiddio polisiau sydd, ar hyn o bryd, yn gwrthdaro â'i gilydd, mewn ffordd fwy integredig a chydlynol.

Yn olaf, gofynnwyd dau gwestiwn ynghylch y sefydliadau yn y dyfodol ar newydd wedd, er mwyn meithrin eu gallu i'r eithaf. Cafwyd 5 thema o dan y maes hwn:

- Sicrhau gwell cytundebau/cydweithrediad rhwng y Mentrau Iaith a'r Awdurdodau Lleol a sefydliadau cyhoeddus perthnasol.
- Mwy o arian = mwy o staff = mwy o effaith (nid ydym yn derbyn y farn hon yn ddi-gwestiwn).
- Safonau iaith Gymraeg Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011—mae sawl un o'r sefydliadau yn eu gweld eu hunain yn gallu dylanwadu ar gyrrff eraill yn fwy effeithiol i gynnig gwasanaethau Cymraeg—nodant hefyd awydd i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg.
- Cylch arian tymor hwy.
- Arian i greu/i fentro/i gymryd risg/i fod yn uchelgeisiol/cyfalaf mentro.

Dwy elfen nodedig oedd ymwybyddiaeth o'r ffaith bod newid ar rôl bosibl y sefydliadau yn sgil sefydlu Comisiynydd y Gymraeg. Yn amlwg, mae'r sefydliadau'n gweld eu hunain yn gallu dylanwadu ar gyrrff statudol i gynnig gwasanaethau Cymraeg er mwyn cydymffurfio â'r drefn safonau iaith arfaethedig.

Yn ail, mae galwad eglur iawn i dderbyn sicrwydd ariannol hyd at gyfnod 5 mlynedd. Gellir deall yr alwad hon ac, yn wir, ei chefnogi, yn y gobaith y bydd hyn yn galluogi mwy o gynllunio corfforaethol tymor hir. Hefyd, mae'n lleddfu pryderon y sefydliadau lleiaf sydd yn poeni am oroesi, heb sôn am oroesi yn y tymor hir.

6.4.3 Prif ffrydio ystyriaethau economaidd

Gofynnwyd ynghylch effaith ehangach gwaith y sefydliadau er mwyn canfod a oes unrhyw dystiolaeth i ddangos eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar eu heconomi leol, datblygiad cymunedol, lleihau tlodi plant, hyrwyddo treftadaeth leol, creu swyddi, helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, hyfforddi pobl neu ddenu cyllid i wella bywyd cymunedol.

Yn union fel y nodir wrth drafod ystyriaethau cydraddoldeb yn yr Adolygiad hwn, y sefyllfa ddelfrydol yw bod sawl thema wedi'i phrif-ffrydio i waith gweithredol y sefydliadau. Y duedd oddefol yw dibynnu ar gyllideb refeniw drwy gymorth grant er mwyn darparu gwasanaethau. Ond ag ond ychydig o feddwl strategol, gellir manteisio ar effaith luosogi'r bunt gyhoeddus i greu effeithiau pellgyrhaeddol. Cafwyd tystiolaeth am un datblygiad strategol o'r fath yng nghyd-destun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg Mentrau Iaith Cymru. Mae sawl thema'n codi o dan y pennawd economaidd hwn:

1. Y peth mwyaf elfennol i'w nodi yng nghyd-destun effaith economaidd y sefydliadau yw eu bod hwythau eu *hunain* yn gyflogwyr sydd yn creu swyddi ledled Cymru. Ceir parhad yn yr effaith economaidd hyd y gwelwn, o'r lleiaf sef un swyddog mewn swyddfa ardal, i ochr arall y raddfa â mwy nag un Fenter Iaith yn cyflogi (ar sail rhan amser neu amser llawn) dros gant o bobl.
2. Cafwyd cryn dystiolaeth bod nifer o'r sefydliadau wedi ymelwa ar gymorth grant y tu hwnt i grant craidd Llywodraeth Cymru. Un o'r ffynonellau eraill oedd Cronfa'r Loteri Fawr.

3. Ffordd ychwanegol o effeithio ar yr economi leol drwy greu swyddi yw dibynnu ar wasanaethu rhaglenni llywodraethol, e.e. Cynllun Datblygu Gwledig, Teuluoedd yn Gyntaf, Cynllun Tlodi Plant, Cynllun Twristiaeth a Threftadaeth Leol ac Adfywio Cymunedol. Er pwysiced y rhain o ran cyflawni cylch gwaith y sefydliadau, ni ellid ystyried y rhain yn ymyraethau polisi economaidd. Yn hytrach, maent yn orddibynol ar benderfyniadau o fewn y sector cyhoeddus yn hytrach nag yn adlewyrchiad o fomentwm neu greadigedd leol.
4. Ar raddfa fechan iawn, cafwyd enghreifftiau o'r sefydliadau'n trefnu caffis neu theatrau cymunedol. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn gyfraniad i'r economi leol, ond hefyd maent yn cael effaith ychwanegol, sef creu cyfalaf *cymdeithasol* drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny mewn cymdeithas ôl-ddiwydiannol lle mae rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol wedi bod ar drai ers sawl degawd.
5. Ffordd arall o greu effaith economaidd yw cynnal 'Gwyliau' diwrnod neu benwythnosau Cymraeg. Cafwyd tystiolaeth o effaith y gwyliau hyn ar yr amgylchiadau lleol. Nid yw'n gwbl glir i ba raddau y mae'r effaith economaidd yn cydweddu deillianau ieithyddol a allai darparu o ddigwyddiadau o'r fath. Rhaid pwysu a mesur cost ac effaith gwyliau tymor byr o'r fath yn erbyn gwario symiau cyffelyb ar swyddogion datblygu sydd ar waith weddill y flwyddyn i hyrwyddo'r Gymraeg.
6. Mae rhai sefydliadau wedi cynnwys ystyriaethau economaidd yn eu prosesau cynllunio corfforaethol, gan gynnwys hyd yn oed roi'r gair yn arwyddair eu sefydliad. Ond er mwyn sicrhau potensial llawn arwyddeiriau o'r fath rhaid unwaith eto, wrth feddwl strategol iawn. Sefydlogrwydd y math hwn o feddwl yw bod y Gymraeg wedi'i phrif-ffrydio a'i normaleiddio mewn polisi ag iddo botensial ac effaith hirdymor a phellgyrhaeddol. Ei berygl yw canolbwyntio'n ormodol ar yr economi ar draul materion ieithyddol. Ond o ystyried cyn lleied o dystiolaeth a gafwyd o feddwl o'r math cyntaf, hyfryd fyddai bod mewn sefyllfa i ffrwyno'r fath berygl.
7. Er mwyn dylanwadu ar sectorau penodol o'r economi, mae'n amlwg bod angen cyrsiau hyfforddi galwedigaethol drwy'r Gymraeg ac i dargedu siaradwyr Cymraeg o bob lefel. *Ni ddylai Gymraeg fod yn brif ffocws y cyrsiau hyn.* Cyfrwng ydyw, ac nid y brif neges. Un enghraifft arbennig o dda o'r fath ymwybyddiaeth strategol, holistaidd yw'r Cynllun Datblygu Cymunedol Awyr Agored. Hyfforddwyd dros 200 o bobl ac mae 50 bellach yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes. Camau allweddol y math hwn o weithio yw
 - Adnabod anghenion
 - Paratoi hyfforddiant
 - Creu swyddi ychwanegol
 - Caniatáu i bobl leol aros yn eu cynefin
 - Cynnig gwerth ychwanegol i'r profiad o fod yn yr awyr agored.

Awgryma'r math hwn o weithredu yr hyn y gellir ei gyflawni o gamu'n ôl ac edrych ar anghenion ieithyddol ardal wrth wisgo het economaidd. Gellir rhagweld y cynllun awyr agored yn gweithio mewn sawl ardal yng Nghymru. Fodd bynnag, gellid hefyd ragweld cynlluniau

tebyg o'r fath ym myd gofal plant, arlwyo, datblygiadau agro-economaidd, ynni, hamdden a chwaraeon a meysydd eraill. Ac yn wir, mae rhai o'r rhain eisoes yn egin syniadau ymarferol.

Enghraifft a gafwyd o'r gwaith maes yw'r Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg (Mentrau Iaith Cymru et al., 2013). (Gweler hefyd gynnig cysylltiedig (Cwmni Iaith and Menter a Busnes, 2002)).

Mae'r cynllun ei hun yn sylweddoli pwysigrwydd perthnasedd cymdeithasol i'r Gymraeg—gan gydnabod y cyfraniad y mae'r system addysg wedi ei wneud, ond gan fwrw'r disgwrs yn ei flaen i fyd yr economi. Nod y cynllun yw cryfhau economi Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg gan fabwysiadu dull aml-asiantaeth i greu gweledigaeth ar y cyd (mae'r partneriaid y mae MIC yn eu hawgrymu yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, y Sector Preifat, Mentrau Cymdeithasol a Mudiadau gwirfoddol), Comisiynydd y Gymraeg). Nod cynllun arfaethedig Mentrau Iaith Cymru et al. (2013) yw:

- adnabod meysydd lle mae yna alw am wasanaeth Cymraeg
- bwydo unigolion sydd yn mynd drwy addysg cyfrwng Cymraeg i swyddi lle maent yn defnyddio'u Cymraeg
- cryfhau cymunedau a rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru
- cryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob sector
- lleihau allfudo ynghyd â lleihau newidiadau demograffeg niweidiol
- codi statws a gwerth economaidd y Gymraeg fydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar raddfeydd trosglwyddo iaith a'r galw am addysg Gymraeg.
- gwneud Mentrau Cymdeithasol sydd yn datblygu gwasanaethau Cymraeg a'r Mentrau Iaith yn fwy cynaliadwy
- gwell marchnata o wasanaethau Cymraeg fydd yn arwain at fwy o ddefnydd.

Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r cynllun hwn eto ar waith ac ni ellir, o'r herwydd, cyfrif ei effaith neu ei gyfraniad fel arfer da. Cryfder y cynllun arfaethedig fyddai harneisio diddordebau'r Mentrau â phrif actorion polisi'r Gymraeg. Gall hwn, wrth gwrs, hefyd fod yn wendid os nad yw'r prif actorion yn ymateb i'r her yn chwim a chyda digon o arddeliad.

6.4.4 Ffit Strategol

Gofynnwyd i ba raddau yr oedd y sefydliadau'n seilio eu gwaith ar ffit strategol â strategaeth iaith Llywodraeth Cymru (*Iaith Fyw: Iaith Byw*). Teg nodi bod mwyafrif y sefydliadau'n ymwybodol o'r ddogfen ac yn cyfeirio ati yn eu prosesau cynllunio. Nododd un Fenter Iaith, er mai dim ond mewn un bennod o'r ddogfen strategol yr enwir y Mentrau, bod y Fenter honno'n gweithio ym mwyafrif meysydd strategol y ddogfen ei hun. Cafwyd sawl ymateb yn nodi mai pethau cymharol ddiweddar yw dogfennau strategol gan Lywodraeth Cymru (e.e. *Iaith Pawb*), er gwaethaf bodolaeth dogfennau strategol y Bwrdd Gynt. O'r herwydd, *esblygiad* organig oedd y sefydliad penodol hwnnw, yn hytrach nag yn gynnyrch strategaeth na chynllun pwrpasol. Cafwyd mynych gyfeirio at ymgorffori rhain mewn ceisiadau grant (y tu hwnt i geisiadau grant i'r Llywodraeth) ac mewn prosesau cynllunio corfforaethol. Fodd bynnag, un sefydliad yn unig a nododd ei fod hefyd yn cydblethu gweithgarwch â fframwaith gwerthuso strategaeth iaith y Llywodraeth, er mwyn dadan-

soddi llwyddiant y gwaith. At ei gilydd, ein barn yw bod digon o ymwybyddiaeth o strategaethau iaith cyffredinol y Llywodraeth yn perthyn i'r sefydliadau. Yr hyn sy'n bwysig yw sut yn union maent yn cynllunio gweithgarwch digon strategol yn eu hardaloedd eu hunain a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn hunangynhaliol mewn pau benodol.

6.5 Gweithgareddau

6.5.1 Addasrwydd ystod y gweithgareddau

Gofynnodd yr holiadur ynghylch y math o weithgareddau yr oedd y sefydliadau yn eu trefnu. Ein bwriad gwreiddiol oedd eu rhestru'n llawn yn yr adroddiad. Fodd bynnag, maent yn rhy niferus ac amrywiol i'w cyflwyno ar ffurf sy'n deg i'r sefydliadau. Yr hyn a wnawn, felly, yw crynhoi'r themâu y gellid priodoli'r gweithgareddau hynny iddynt. Nid yw'r rhestr mewn trefn blaenoriaeth/amlder y digwyddiad. Gellid priodoli mwyafrif llethol y gweithgareddau hynny i'r pedwar maes canlynol:

- Mwynhau (Hamdden a chwaraeon)
- Hyfforddi
- Diogelu
- Rhwydweithio

Ceir rhestr fanylach yn adran 11.9.

Roedd y rhan fwyaf o'r Mentrau yn nodi bod ystod eu gweithgareddau'n cael ei gyfyngu gan y targedau y disgwylir iddynt eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targedau hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau Strategaeth Iaith y Llywodraeth—*Iaith Fyw: Iaith Byw*, ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg â theuluoedd, plant a phobl ifanc, ac yn y gymuned. Er bod y meysydd hyn yn rhoi digon o sgôp i'r Mentrau gynnal lluo o weithgareddau amrywiol, roedd nifer o'r Mentrau'n awyddus i ymestyn eu darpariaeth i gynnwys, er enghraifft, busnesau, dysgwyr, y celfyddydau, hyfforddiant yn y gweithle, gweithgareddau hamdden. Ar y cyfan, roedd y mwyafrif yn fodlon derbyn blaenoriaethau'r Llywodraeth ar yr amod y gellid eu haddasu ar gyfer anghenion lleol.

Yn sgil y drafodaeth ar natur y gweithgareddau, gofynnodd nifer o'r ymatebwyr pam mae'r Mentrau'n gorfod darparu ar gyfer plant a phobl ifanc pan mae'r Urdd, sef prif fudiad ieuencid Cymru, ar gael i wneud hynny? Holwyd pam yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod plant a phobl ifanc fel maes blaenoriaeth i'r Mentrau gan wybod y gallai hyn greu sefyllfa lle byddai'r ddau fudiad yn cystadlu yn erbyn ei gilydd? Nododd rhai o'r Mentrau gyfraniad pwysig Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru i'r maes ieuencid a sut mae tensiynau'n bodoli weithiau rhwng y gwahanol fudiadau. Cododd yr un cwestiwn hefyd yng nghydestun teuluoedd a pherthynas prosiect TWF a'r Mentrau ac ym maes Cymraeg i Oedolion berthynas y Mentrau â'r Canolfannau Iaith rhanbarthol. Dadl rhai wrth gwrs yw mai llenwi bylchau mae'r Mentrau yn ei wneud gan nad oes digon o allu gan y mudiadau iaith eraill i ateb y galw. Ar y llaw arall cafwyd enghreifftiau o ddiffyg cydweithio a dyblygu gwaith. Cred rhai Mentrau fod targedau'r Llywodraeth yn gorfodi'r mudiadau iaith i fod yn fwy amddiffynnol, annibynnol ac ynysig.

Mynegwyd pryder gan rai ymatebwyr bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar dargedau meintiol a'u bod yn rhy feddal, byr eu dylanwad a mympwyol. Teimlai rhai nad oedd y Mentrau'n gyffredinol yn gweithredu'n ddigon strategol nac yn ddigon soffistigedig o ran defnyddio data ac ymchwil fel sail i lunio cynlluniau gweithredu. O ganlyniad ceir gormod o weithgareddau arwynebol sydd yn rhy ddiogel a byrhoedlog eu heffaith.

Er bod barn wahanol am natur y gweithgareddau y dylai'r Mentrau eu darparu, roedd cytundeb cyffredinol ynghylch yr angen i ymgynghori'n helaeth â'r gymuned a grwpiau targed penodol cyn gweithredu. Cafwyd nifer o enghreifftiau o sut y mae'r Mentrau yn casglu barn pobl, gan gynnwys holiaduron, grwpiau ffocws, pwyllgorau ardal, fforymau ieuenctid, fforymau ysgol, cyfweiliadau, arolygon, adborth o ddigwyddiadau, blychau awgrymiadau, cyswllt e-bost a defnydd o Twitter a Facebook. Cyfeiriodd ambell un at ymarferion SWOT a gynhaliwyd mewn ardaloedd penodedig. Roeddent oll yn hyderus fodd bynnag eu bod yn gwrando ar farn a gweithredu ar argymhellion eu cymunedau.

Soniodd nifer, yn arbennig yn yr ardaloedd di-Gymraeg, am yr awydd i lunio cronfa ddata o siaradwyr Cymraeg a manylion cyswllt mudiadau a chymdeithasau Cymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i sefydlu system dracio fyddai'n galluogi'r Mentrau i gadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg a rhoi cyfleoedd iddynt gymdeithasu drwy'r iaith a'u hysbysu am swyddi sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog.

6.5.2 Gweithgareddau ar lawr gwlad

Cafwyd cannoedd o enghreifftiau o'r gweithgareddau yr oedd y sefydliadau yn eu trefnu ar lawr gwlad. Eir i'r afael â'r rhain yng nghyd-destun eu cyfraniad i gynllunio ieithyddol isod. Dechreuwn yr adran hon drwy edrych ar 'berchnogion' y gweithgareddau a'r problemau strwythurol y clywsom amdanynt o'r gwaith maes. Afraid dweud, wrth reswm, mewn byd delfrydol, ni fyddai angen yr un Fenter Iaith na sefydliad hybu iaith. Nid yw'r byd yn ddelfrydol, wrth gwrs. Fodd bynnag, mae cryn ffordd gan Awdurdodau Lleol Cymru i'w droedio cyn y gallant ddweud eu bod yn llwyr ddiwallu'r dyletswyddau i'r Gymraeg o ran gweithgarwch cymunedol y byddant yn ei drefnu y byddid yn disgwyl i gorff etholedig eu darparu. Dylent hefyd gofio y bydd disgwyl *statudol* arnynt o dan safonau llunio polisi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a fydd yn dod i rym dros y tymor canol. Os yw'r hyn a glywsom o'r sefydliadau yn adlewyrchiad teg o agwedd ac ymrwymiad llywodraeth leol Cymru tuag at yr iaith, ni ddylid tanbrisiu'r gwaith sylweddol y bydd angen iddynt ei wneud er mwyn diwallu'r safonau polisi a gweddill y safonau. Mae rôl ganolog gan sefydliadau'r Adolygiad hwn i'w chwarae wrth eu cynorthwyo yn hyn o beth. Gwelwyd sawl enghraifft o gydweithredu rhwng y sefydliadau a'r awdurdodau lleol, o ddarparu gwasanaethau ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth a'r tebyg, ond hefyd clywyd beirniadaeth o'r awdurdodau, â sawl ymatebwr yn cyfeirio at yr arian a ddyrannant i weithgarwch cymunedol Cymraeg fel 'arian cydwybod' yng nghyd-destun ymwneud â'r cyngor sir. Mae'r iaith emosiynol hon yn dangos i ba raddau mae rhai o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw'r awdurdodau lleol yn cyfrannu'n ddigonol at gynnal y Gymraeg. Ond rhaid cofio mai sefydliadau democrataidd sydd yn atebol i'r etholwyr yw'r Awdurdodau Lleol ac felly byddai'n amhriodol i ni gytuno neu anghytuno â gosodiad o'r fath parthed ariannu'r gweithgarwch cymunedol Cymraeg. Deallwn yn rhwydd, fodd bynnag, y rhwystredigaeth sydd y tu cefn i'r fath honiad.

Hyd y gwelsom, mae sawl model perthnasol i'r sefydliadau y buom yn trafod â hwy at yr Adolygiad hwn:

- Y Cyngor Sir ei hun yw prif ddarparwr gwasanaethau cymunedol/hamdden.
- Mae'r Cyngor Sir yn contractio allan elfennau gwasanaethau cymunedol/hamdden i gwmni masnachol.
- Mae'r Cyngor sir yn darparu'n bennaf y gweithgareddau, ac yn contractio'r sefydliadau i wneud gwaith ar ei ran.
- Y sefydliad a'r Cyngor sir yn gweithredu mewn partneriaeth.
- Y Llywodraeth a'r Cynghorau Sir yn cydweithio wrth lunio strategaeth iaith a'i gweithredu ar y lefel leol.

Yn ôl y dystiolaeth a gawsom, mae faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael yn dueddol o fod yn isel mewn cynghorau sir, a chlywsom gwynion am benodi e.e. gweithwyr ieuenc-tid di-Gymraeg mewn ardaloedd a chanddynt ganrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn, wrth gwrs, yn gofyn am drafodaeth led-athronyddol yng nghyd-destun peuoedd defnydd iaith. Oherwydd mathemateg a seicoleg sosioieithyddol Cymru (gweler, ymhlith eraill Alvarez Enparantza (2001)), hyd yn oed pe bai pob swyddog ieuenc-tid mewn sir benodol yn rhugl ei Gymraeg, oni bai bod gweithgareddau *uniaith* Gymraeg yn cael eu trefnu, byddai'r mynychwyr yn defnyddio Saesneg am gyfran helaeth o'r amser. Ac felly, dim ond rhan o'r ateb yw cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg.

Y rhan arall yw trefnu bod strategaeth ranbarthol yn ei lle sy'n sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg addas a deniadol ar gael—waeth pwy yw'r darparwr. Ofer yw cael y cyntaf heb yr ail. Mae'r ymatebwyr yn teimlo i raddau helaeth, nad yw nifer o siroedd Cymru wedi cymryd y cyfrifoldeb i gynllunio'n fwriadus ar gyfer diogelu'r Gymraeg yn eu hardaloedd, heb sôn am ei *thyfu* yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru. Genhedlaeth yn ôl (Evas and Williams, 1997), rhagdybiwyd y byddai'r awdurdodau lleol yn aeddfedu fel cyrff cynllunio ieithyddol ac o'r herwydd awgrymwyd fod y Mentrau Iaith i fod yn asiantau dros dro i sbarduno datblygiadau cymunedol a phwyso ar awdurdodau lleol i greu darpariaeth Gymraeg y tu hwnt i'r hyn disgwyliid iddynt ei wneud gan statud (dwieithrwydd statws).

Gan nad yw hyn wedi digwydd (ag ambell i eithriad prin), teg trafod a ydym yn dal i feddwl am y Sefydliadau fel catalydd neu ddarparwr.

Wrth wynebu'r angen am greu hinsawdd Cymraeg mae'n ofynnol i'r sefydliadau weithredu mewn pedwar cyd-destun:

- Troi gweithgarwch cymunedol yn Gymraeg a oedd eisoes yn digwydd yn Saesneg yn unig, e.e. pêl-droed/gwersi nofio
- Ymateb i ddyheadau'r gymuned i greu gwasanaethau arbenigol/newydd, e.e. clybiau drama/caiacio/jiwdo/sgiliau gwaith
- Llenwi'r bylchau mewn darpariaeth sydd eisoes ar gael yn lleol
- Gweithredu cytundebau lefel gwasanaeth i gyngor sir

Nodweddion amlycaf y sefydliadau dros gynnig y gwasanaethau a gynigiant yw eu bod yn hyblyg, ac wrth adnabod eu hardal, gallant ymateb yn gyflym a chreu gweithgareddau yn fwy chwim nag y gall sefydliad mwy ei wneud. Yn ail, wrth wneud hyn, maent yn sicrhau

mai'r Gymraeg yw'r iaith a ddefnyddir ar gyfer yr holl weithgareddau. Efallai mai dyma'r prif gyfiawnhad dros fodolaeth y sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn mynd i'r afael â hwy. O ystyried y dystiolaeth a glywsom, pe ymddiriedid yn llwyr yn awdurdodau lleol Cymru yn unig i gynnal ystod lawn o weithgareddau, ni allem fod yn sicr y byddai hyn o reidrwydd yn cynyddu faint o funudau o Gymraeg a fyddai'n cael eu siarad yn y gweithgareddau (defnyddiwn gysyniad 'on task time' i oleuo'n pwynt). Mae lle amlwg iawn i'r sefydliadau fod yn gyfaill beirniadol i'w hawdurdodau lleol. Ond nid yw hwn gyfystyr ag ildio dylanwad dros ddatblygu cymunedol mewn ardal.

Rhinwedd arall y sefydliadau yw mai rhai lleol ydynt ac yn fwy tebygol o fod yn rhagweithiol gan eu bod yn adnabod y trigolion a'r sefyllfa feicro. Golyga hyn fod y trigolion hynny yn fwy tebygol o fynychu rhywbeth gan, dyweder, Menter Iaith, yn enwedig os yw'r peth hwnnw ond ar gael yn Gymraeg, ac nid i'w ddewis rhwng gweithgaredd cyfocrog Cymraeg/Saesneg. Daw hyn â ni yn ôl i ddadl swyddogaethau ieithyddol cadwedig, neu 'reserved linguistic functions' a grybwyllwyd uchod. Pe disgwyliid i'r sefydliadau weithredu ar y lefel feicro mewn ffordd fwy dwys, byddai'n ofynnol iddynt dderbyn llawer mwy o hyfforddiant arbenigol a meithrin eu gallu i fod yn rhagweithiol. Clywsom yn aml nad oedd sefydliadau unigol yn teimlo eu bod naill ai yn gallu paratoi'r fath hyfforddiant neu ymelwa arno am eu bod yn rhy fach. Ac felly mae hyn yn ein harwain inni drafod rôl gydlynol ganolog ar gyfer hyfforddiant i'r sefydliadau, e.e. drwy law Mentrau Iaith Cymru. Er mwyn sicrhau gweithgaredd drwy'r Gymraeg ar lefel feicro, mae'n ofynnol i feddwl am y lefel feicro honno ym mha ad-drefnu bynnag a ddigwydd o yn sgil gweithredu argymhellion yr Adolygiad hwn a'r Adolygiadau eraill sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ym maes polisi iaith.

6.6 Agweddau Rheolaethol/Gweinyddol

6.6.1 Gweledigaeth, rhaglen waith a chasglu data

Yn hanesyddol roedd rhaglen waith nifer o'r sefydliadau wedi dilyn y blaenoriaethau a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Mentrau, gan amlaf wedi dilyn yr un patrwm ond nawr yn canolbwyntio ar brosiectau sydd yn cyrraedd nodau ac amcanion meysydd strategol *Iaith Fyw: Iaith Byw*, sef 1) Y Teulu; 2) Plant a Phobl Ifainc; 3) Y Gymuned.

Mae nifer o'r Mentrau wedi defnyddio fframwaith 'Gweithredu'n Lleol' er mwyn adnabod anghenion a blaenoriaethau lleol. Nododd un ymatebwr—

Mae'n ofynnol o dan y system bresennol sydd yn ariannu'r Mentrau bod yn rhaid i brif swyddog fod yn edrych am ffynonellau ariannol a phrosiectau'n gyson er mwyn cadw pen uwchben y dŵr. Yr arian sydd felly'n llunio ein rhaglen waith/strategaeth ac nid o reidrwydd yr hyn sydd angen yn lleol er mwyn hybu a datblygu'r Gymraeg. Mae anghenion cyllidwyr hefyd yn gosod yr amserlen waith ac yn cyfyngu'r math o waith sydd yn bosib.

Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell data i'r mwyafrif o sefydliadau ar gyfer adnabod a dadansoddi sefyllfa'r iaith ac yn aml adroddir eu bod yn defnyddio yr holl ddata sydd ar gael o'r cyfrifiad fel sail i lunio Strategaeth Iaith a'r rhaglenni gwaith a ddeillia ohoni. Defnyddir

dadansoddiadau gwahanol adrannau o'r Cynghorau Sir, yn arbennig Addysg a Byrddau Iechyd hefyd i adnabod tueddiadau a nodweddion cymdeithasol gwahanol ardaloedd.

Mae strategaeth nifer o'r Mentrau yn strategaethau tair blynedd sydd yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Mae'r wybodaeth sydd yn cael ei hystyried wrth lunio a diweddarau'r strategaeth yn cael ei chasglu mewn amryw ffyrdd: proffil iaith (mapio gwasanaethau, cyfleoedd cymdeithasol a'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol); mewnbwn gan bwyllgorau ardal; mewnbwn gan aelodau'r fforwm sirol; holiaduron; asesiadau gwaelodlin; dadansoddiadau SWOT a'r data a gesglir wrth werthuso'r gweithgareddau.

Soniwyd yn aml am bwysigrwydd dyfodiad cist arfau arfaethedig a fydd yn cynnig arweiniad clir a manwl ar sut i gasglu data yn y dyfodol. Mae'n sicr y bydd yr offeryn hwn yn galluogi'r sefydliadau i gasglu data mewn modd cyson a dibynadwy ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol. Un o brif gasgliadau'r Adolygiad ar sail y gwaith maes yw bod angen casglu a dadansoddi gwybodaeth mewn ffordd fwy systematig nag a wneir ar hyn o bryd. Bydd gweithredu systemau effeithiol a chymesur o gasglu data ar effaith gwaith hefyd yn fodd o gyflawni cylch gorchwyl *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2013a). Nid ydym yn credu y dylai casglu data fod yn brif swyddogaeth y sefydliadau wrth reswm, ond wrth gasglu data priodol a pherthnasol a chymesur, bydd hyn yn ychwanegu'n sylweddol at lwyddiant eu gwaith yn y tymor hir, ac yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer prosesau cynllunio corfforaethol.

Y mae profiad gwledydd eraill yn werthfawr, yn enwedig felly arfer da Gwlad y Basg o gasglu data sosioieithyddol dan arweiniad EAS (System Dangosyddion Ieithyddol Gwlad y Basg) (Llywodraeth Cymuned Ymreolus y Basgiaid 2008) ac yng Nghatalwnia a Gwlad y Basg hithau ceir archwiliadau cyson o sefyllfa'r iaith mewn gwahanol beuoedd e.e. (Generalitat de Catalunya 2011; Llywodraeth Cymuned Ymreolus y Basgiaid 2012). Ceir ymdriniaeth o'r pwnc hwn yn (Williams, 2013a, Williams, 2013b).

Byddai archwiliadau rheolaidd tebyg i'r hyn a gynhelir yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia yn gallu bwydo i mewn i adroddiad pum mlynnyddol Comisiynydd y Gymraeg, yn gallu mesur agweddau ar fywiogrwydd cymunedol a sosioieithyddol gwahanol beuoedd a sectorau ac yn amlygu cyd-destun cymdeithasol, tueddiadau addysgiadol a data defnydd a dewis iaith.

6.6.2 Mesur deilliannau ac effaith ieithyddol

Mae mwyafrif y Mentrau yn cydnabod mai dim ond yn lled ddiweddar maent wedi dechrau rhoi sylw i bwysigrwydd gwerthuso cynlluniau a mesur deilliannau. Maent wedi derbyn hyfforddiant perthnasol dan nawdd y Bwrdd ac mae'r rhan fwyaf wedi mabwysiadu dulliau amrywiol er mwyn cyflawni hyn. Er bod pwysau cynyddol ar y Mentrau i brofi eu gwerth nid ydynt eto wedi dyfeisio dulliau digon soffistigedig i fedru dangos y gwahaniaeth maent yn ei wneud i sefyllfa'r Gymraeg. Dyma yn sicr yw un o brif anghenion y maes fel bo'r sefydliadau'n gallu mabwysiadu dull mwy gwyddonol a systematig o gasglu data, mesur effaith a thracio newidiadau er mwyn 'profi' gwerth ychwanegol ymyrraeth y Mentrau yn y sefyllfaoedd gwahanol.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i fesur effaith yn amrywio'n fawr o Fenter i Fenter ond at ei gilydd maent yn cynnwys holiaduron, grwpiau ffocws, fideos, arsylwi defnydd iaith mewn gweithgareddau, sgysiau unigol, barn arweinwyr, ymchwil, comisiynu gwerthusiadau allanol, hunanasesiadau drwy gyfrwng gwenogluniau, siart cylchoedd a Facebook.

Er bod rhai sefydliadau wedi datblygu prosesau mesur effaith, a bod mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y sefydliadau hynny o *bwysigrwydd* gweithredu ar sail data, mae'r Mentrau'n barod iawn i gydnabod bod lle i wella. Fel y mae un ymatebwr yn ei nodi— 'Mae'r Fenter eisoes yn casglu data drwy holiaduron, adborth gan ddefnyddwyr, cofnodi niferoedd ac ati, ond nid hyn yw hyn yn ddigon.' Dylid gweithredu cynlluniau cymesur i fesur deilliannau a dylent gael eu defnyddio'n deg gan bob Menter. Byddai hyn yn creu cysondeb o ran mesur deilliannau ac yn bwydo'n uniongyrchol i *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2013a).

6.6.3 Llwyddiant gweithgareddau a sut y'u rheolir mewn modd priodol a chadarn

Mae nifer o enghreifftiau o arfer da i fesur llwyddiant gan gynnwys gwerthuso amrywiol, e.e. ffurflenni adborth, siartiau 'llygad tarw', astudiaethau achos, recordio adborth ar lafar a ffilmio. Mae rhai yn adrodd eu bod yn cynnal asesiad ffurfiol yn dilyn pob gweithgaredd er mwyn edrych ar gwestiynau megis 'Pam Cynnal y Gweithgaredd?/Beth oedd yr allbwn a'r canlyniadau? A oes angen gwella unrhyw elfen o'r gweithgaredd at y dyfodol? Ar y llaw arall, mae rhai o'r sefydliadau yn awgrymu mai'r unig fesur o lwyddiant o'u gweithgareddau personol oedd cyfrif y niferoedd a oedd yn mynychu digwyddiadau.

Fel y nodwyd eisoes, mae cist arfau ar gyfer mesur effaith eisoes yn yr arfaeth. Pryder nifer o'r sefydliadau yw eu bod yn cyfrif nifer y mynychwyr ond yn anwybyddu'r union fodd o werthuso gwir effaith gweithgaredd ar y mynychwyr hynny. Bydd hyfforddiant pwrpasol ar fesur, ac ar weithredu llwyddiant yn cryfhau gallu'r sefydliadau bychain i werthuso eu gwaith yn well. Mae nifer o'r sefydliadau yn adrodd eu bod yn dadansoddi'r data yn fanwl ac yn cyflwyno'r canlyniadau ar lwyddiant i'r Pwyllgor Rheoli. Mae dogfen canllaw ar gyfer hyn yn cynnwys nifer o ffynonellau eilaidd ar gael i ymgeiswyr am grantiau'r Llywodraeth, a hithau'n seiliedig ar ddogfen y Bwrdd ar gynllunio ar gyfer deilliannau ieithyddol (Evas, 2011).

Wrth droi at faterion rheoli, mae'n amlwg mai wrth drin cyllid, a chyflawni amodau grant y Llywodraeth y mae materion monitro a gwerthuso manwl yn allweddol.

Mae gan nifer o'r sefydliadau sawl proses reolaethol sydd yn sicrhau bod y gweithgareddau a gwasanaethau'n gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys system dirprwyo Ariannol gadarn—sydd yn gofyn am awdurdodi lefelau gwahanol o wariant gan y Prif Swyddog, y Cadeirydd, y Trysorydd ac yn y blaen. Yn yr un modd, wrth ofyn am ddyfynbris ar gyfer unrhyw wasanaeth neu elfen mae'r broses caffael yn dilyn canllawiau proffesiynol y maes.

Bron yn ddieithriad, mae pob sefydliad yn adrodd bod eu Prif Swyddogion wedi derbyn hyfforddiant rheoli prosiect, rheoli cyllid a hyfforddiant asesu risg.

Felly y norm yw glynu at bolisiâu sydd yn amddiffyn y staff a'r cyflogwr rhag methiant. Mae rhai gan amlaf yn cael ei hadlewyrchu a'u diweddarau'n gyson pan yn briodol neu pan fydd newid yn y gyfraith.

Dilynir prosesau iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant wrth gynnal gweithgaredd a chan gynnwys asesiadau risg. Sicrheir bod pob aelod o staff, gan gynnwys is-gontractwyr ble bo'n berthnasol, yn cael gwiriad CRB boddhaol. Mae Asesiad Risg trylwyr hefyd yn ddi-sgwylidig i bob gweithgaredd cymunedol.

6.6.4 Effaith ehangach y tu hwnt i amcanion ieithyddol craidd

Gofynnodd yr holiadur ynghylch canlyniadau gwaith y sefydliadau y tu hwnt i brif amcanion ieithyddol e.e. tlodi/tlodi plant/helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith a gwella ansawdd bywyd cymunedol. At ei gilydd, cafwyd atebion ar fynd i'r afael â thlodi a gwella'r economi leol. Fodd bynnag, prin (ag ambell i eithriad disglair) oedd yr enghreifftiau y gellid eu hystyried yn hunangynhaliol neu a fyddai'n creu effaith lluosogi tymor hir. Ymhlith yr eithriadau hynny yr oedd cynllun awyr agored (a chynllun i sefydlu cwmni Cymraeg i gynhyrchu trydan drwy hydro), ill dau o eiddo Menter Iaith Conwy. Mae rhai o'r sefydliadau yn nodi'n blaen nad oes a wnelont ddim oll â mynd i'r afael â thlodi yn eu gwaith. Cafwyd enghreifftiau o raglenni a oedd yn meithrin cyfalaf cymdeithasol er mwyn lleihau ynysedd cymdeithasol a diffyg hunan-barch, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Enghreifftiau eraill oedd targedu teuluoedd a chanddynt siaradwyr Cymraeg ynddynt mewn adrannau etholiadol (neu grwpiau ohonynt) o drefi â nodweddion sosio-economaidd o anfantais. Prin iawn oedd y dystiolaeth oherwydd mewn un sefydliad yn unig y cafwyd tystiolaeth o gydweithio pwrpasol, wedi'i gynllunio â rhaglen Cymunedau'n Gyntaf (eir i'r afael â'r posibiladau y byddai cryfhau a throsglwyddo'r fath berthynas yn adran 5.14). Gwerth darparu dyfyniad sylweddol o ateb un sefydliad:

O fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf penodol hefyd rydym wedi llwyddo i gael dylanwad arwyddocaol trwy gynorthwyo pobl leol i ddatblygu prosiectau sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r Gymraeg neu gefnogi Partneriaethau i ddatblygu Cynllun Iaith. [...] Ar draws ein gwasanaethau rydym yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd lleol a fforddiadwy i deuluoedd ac yn ystyried anghenion arbennig cymunedau ynysig. Mae ein darpariaethau gofal plant yn fforddiadwy tu hwnt ac rydym yn ymgynghori'n gyson a rhieni a theuluoedd er mwyn sicrhau fod y ffioedd sy'n daladwy yn rhesymol ac yn adlewyrchu sefyllfaoedd economaidd y cymunedau lleol amrywiol. O fewn y ddarpariaeth gofal plant, mae genym dystiolaeth ein bod yn hyrwyddo credydau treth i rieni er mwyn eu cefnogi'n bellach i ddefnyddio gofal plant. Rydym yn ymwybodol iawn o dlodi yn nhermau mynediad i wasanaethau a'r dewis o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i deuluoedd ac mae ein gwaith ymchwil o fewn cymunedau amrywiol yn cefnogi ein cynlluniau wrth geisio sicrhau a dadlau dros drawstoriad teg o wasanaethau ar gael i deuluoedd ar draws y sir. Yn ogystal, mae ein gwaith o fewn y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn golygu ein bod yn medru cyfrannu at ddatblygiadau a strategaethau lleol ar gyfer ymdrin â thlodi [...].

6.6.5 Teilwra i anghenion lleol a chynulleidfaoedd i'w cyrraedd.

Gofynnodd yr holiadur ynghylch y camau yr oedd y sefydliadau yn eu cymryd i ddenu pobl o bob math o gefndir i'w gweithgareddau. Nod hyn oedd gweld i ba raddau yr oedd egwyddorion cydraddoldeb yn waelodol i'w gwaith. Roedd y mwyafrif yn nodi bod ganddynt bolisiâu cydraddoldeb a bod croeso i unrhyw un gymryd rhan yn y gweithgareddau. Yn ogystal â hyn, cafwyd rhai enghreifftiau rhagweithiol o gynnwys *llinynnau* cydraddoldeb eraill yng ngwaith hyrwyddo'r Gymraeg (yn union fel y mae'r disgwrs yn disgwyl i'r Gymraeg gael ei chynnwys yn y llinynnau hynny, wrth gwrs). Ymhlith yr arferion da hyn clywyd am ymgysylltu ag ysgolion arbennig, gwaith â grwpiau'r henoed a grwpiau anabl. Cafwyd hefyd enghraifft o ymgysylltu â lesbiaid, dynion hoyw a phobl thrawsgendr. Cafwyd gwybodaeth hefyd am sut roedd sefydliad wedi ei gofrestru'n ganolfan bwydo o'r fron a hefyd cafwyd nifer yn sôn am y prosesau cydraddoldeb y byddant yn eu dilyn wrth recriwtio a hysbysebu. Fodd bynnag, at ei gilydd, goddefol oedd tôn y disgwrs hwn. Ein disgwyl oedd y byddai mwy o dystiolaeth ynghylch cydweithredu rhwng gwahanol fudiadau diddordeb (e.e. oedran/rhywioldeb/grwpiau ethnig). Os yw'r Gymraeg i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, anhraddodiadol, rhaid i'r sefydliadau fod yn fwy rhagweithiol a dim disgwyl i grwpiau anodd-eu-cyrraedd ddod atynt o'u gwirfodd. Hyd y gwelsom, nid oes llawer o enghreifftiau o arfer da i ddangos sut mae'r sefydliadau yn pontio rhwng diddordebau "traddodiadol" y Gymraeg a chyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol a allai ddod â llawer o fudd a chyfalaf cymdeithasol i'w gwaith ac i'r ardal leol.

I bob pwrpas, mae'r holl sefydliadau'n fyw i'r ffaith eu bod ond yn cyrraedd peth o'u targedu angenrheidiol os yw'r Gymraeg i ffynnu yn eu hardaloedd. Mae hynny i'w ddisgwyl, i ryw raddau, ac yn cydblethu â'r galw mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, am fwy o adnoddau. Yr hyn sy'n ddiddorol yw nodi sut mae gwahanol sefydliadau'n *canfod* y lacunae; rhai, er enghraifft, yn nodi ardaloedd daearyddol yn gynulleidfa, eraill yn nodi segmentau o'r boblogaeth. Ymhlith y cynulleidfaoedd y nodwyd mae'r rhestr ganlynol. Gellir, wrth gwrs, dadlau ynghylch beth ddylai fod yn briod weithgaredd y sefydliad ond mae'r atebion yn arwydd o hunan-ganfyddiad y sefydliadau o'u priod waith.

- Rhieni neu ddarpar rieni
- Y sector preifat
- Pobl ifanc
- Cyn-ddisgyblion Ysgolion Cymraeg
- Cynghorwyr Sir
- Ardal wledig/drefol/tref x/sir y
- Mewnfudwyr
- Pobl sy'n wrthwynebus i'r Gymraeg
- Dysgwyr

Dylid nodi na wnaeth yr un sefydliad nodi unrhyw rai o'r llinynnau cydraddoldeb yn gynulleidfa nad oedd yn eu cyrraedd ar hyn o bryd.

6.6.6 Arloesi

Mae sawl adran o'r Adolygiad hwn eisoes wedi mynd i'r afael â sut y bydd y sefydliadau'n creu gweledigaeth, a chynllun gweithredu i'w gwireddu. Rydym wedi nodi nad yw'r sefyd-

liadau—fel rheol gyffredinol a chydag eithriadau disglair—yn diferu o syniadau holistaidd, hunangynhaliol, i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg yn eu hardaloedd. Rhan o'r briff oedd holi'n benodol ynghylch sut yn union y byddai syniadau *arloesol* yn cael eu creu. Y bwriad wedyn, fyddai eu trosglwyddo i ardaloedd eraill. A chrynhoi'r ymatebion i'r adran hon, teg dweud bod nifer dda o syniadau arloesol ar waith yn y sefydliadau, ond nid yw pob syniad da ar waith ymhobman. Mewn rhai achosion, byddai'n syniad da rhoi ar waith y ddarpariaeth ymwybyddiaeth iaith a gymerir yn ganiataol mewn rhai ardaloedd, ac sydd— yn ôl yr ymatebwyr—yn talu ar ei ganfed o ran derbyniad cyn-ddrwygdybwyr i brosiectau ieithyddol pellach. Mae sawl thema gyffredinol yn dod i'r amlwg. Dylid nodi bod angen proses yn ei lle ar gyfer trafod a ffurfioli prosesau arloesi. Cydnabyddir yn gyffredinol ledled y byd fod mwyafrif unrhyw ymdrechion arloesol mewn unrhyw sefydliad yn debygol o fethu. O'r herwydd mae angen hefyd roi methodoleg rheoli prosiect ar waith sydd yn caniatáu dogfennu a rhannu arfer da a hefyd gwersi a ddysgwyd ('Lessons Learned Log', chwedl PRINCE2).

Ymhlith y prosiectau arloesol a nodwyd oedd datblygu ar gronfeydd data i gynnal gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg, systemau adrodd safonol ar lwyddiant gweithgareddau, Banc Amser, Gorsafoedd darlledu Hyper lleol i'w trosglwyddo'n ôl i'r gymuned, gwaith ar seicoleg cymdeithasol ieithyddol ac entrepreneuriaeth. Mae'n amlwg bod modd i sefydliad cydlynu cenedlaethol megis MIC fod yn offeryn ar gyfer arloesi o'r fath, ond yn ogystal â'r enghreifftiau—prin—mae angen creu'r broses a'i ffurfioli.

6.6.7 Hyfforddiant, cefnogaeth a dyrchafiadau

Fel rheol, bydd y sefydliadau'n cynnig cynllun datblygu personol i bob aelod o staff ac yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd.

Mae nifer o'r sefydliadau yn cynnig cyfarfodydd mentora staff, hyfforddiant rheoli prosiect ac ymwybyddiaeth iaith. Mae nifer o'r sefydliadau yn dilyn rhaglenni hyfforddiant Llywodraeth Cymru a Mentrau Iaith Cymru.

Gan amlaf mae nifer helaeth o staff ac i raddau llai aelodau o bwyllgorau'r sefydliadau a gwirfoddolwyr wedi mynychu cyrsiau a ddarperir gan y Cyngor Sir a Mentrau Iaith Cymru. Cynnwys y cyrsiau hyfforddi a gynigwyd gan y Cyngorau Sir oedd cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, asesu risg, diogelwch plant, deddf diogelwch data, diogelwch tan, cyfrinachedd technoleg gwybodaeth, ymwybyddiaeth straen a thyndra, marchnata, cydraddoldeb, glendid bwyd. Canolbwyntiodd hyfforddiant MIC ar fesur effaith ieithyddol a mesur effaith gweithgareddau.

Mae rhai staff hefyd wedi dilyn cyrsiau academiaidd ar lefel diploma ac MA ar Ddatblygu Cymunedol ac eraill wedi dilyn cyrsiau ar 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' ac 'Ymwybyddiaeth iaith' a drefnwyd gan iaith Cyf.

Enghreifftiau o arfer da yw cynnal awdit hyfforddiant blynyddol, cynllunio ar gyfer hyfforddiant ychwanegol a threfnu hyfforddiant i'r Mentrau ar lefel rhanbarthol lle rhennir y gost o hyfforddiant arbenigol. Mae nifer o'r sefydliadau hefyd yn defnyddio rhaglen hyfforddiant gan gorff gwirfoddoli lleol). Mewn rhai sefydliadau mae rheolwyr wedi elwa wrth dderbyn

- Cymhwyster ILM lefel 7 Strategaeth Rheoli Busnes;
- Cymhwyster ILM lefel 5 Rheoli Gweithredol;
- Cymhwyster Prince 2 ar sut i reoli prosiectau llwyddiannus.

Pe bai mwy o arian ar gael dymuniad nifer o'r sefydliadau fyddai hyfforddi mwy o staff i dderbyn cymhwyster gwaith ieuencid a/neu datblygu cymunedol

Prin iawn yw'r cyfleoedd am ddyrchafiad oddi fewn i'r Mentrau er bod nifer yn cynnig lwfans uwch ar gyfer gwahanol swyddi yn ôl y cyfrifoldebau. Ar gyfer staff sefydliadau llywodraeth leol neu ganol mae rhai cyfleoedd am ddyrchafiad yn fewnol gan Gynghorau Sir a Lywodraeth Cymru.

6.6.8 Eitemau Cyfansoddiadol

Mae mwyafrif y sefydliadau yn Gwmnïau Cyfyngedig Drwy Warant ac yn elusennau cofrestredig. Eithriadau i'r patrwm hwn yw'r sefydliadau sydd yn eistedd o fewn strwythurau Cyngor Sir. Ceir manylion llawn statws cyfansoddiadol yn adran 11.7.

Rheswm penodol dros ddewis fod yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant oedd lleihau atebolrwydd cyfyngedig i'r aelodau pwyllgor ar yr amod nad ydynt yn gweithredu'n esgeulus neu'n amhriodol. Mae atebolrwydd cyfyngedig yn help lleihau bygythiad atebolrwydd personol ar gyfer yr ymddiriedolwyr. Pwysleisiwyd yn aml, fodd bynnag, fod bod yn gwmni hefyd yn sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.

Mae rhai o'r sefydliadau wedi dewis bod yn Gwmni Cyfyngedig Drwy Warant yn unig er mwyn galluogi'r sefydliad i gynnig am arian cyhoeddus ac i ddiogelu'r aelodau gwirfoddol heb y gofynion ychwanegol sydd ynghlwm wrth fod yn Elusen Gofrestredig.

O ran y sefydliadau sydd yn rhan o gyfansoddiad Cyngor Sir nid oes unrhyw gyfrifoldeb rheolaeth ar aelodau'r pwyllgor llywio. Y Cyngor Sir sydd yn gyfrifol am reoli'r Prif Swyddog a chynnal cefnogaeth weinyddol, polisïau ac ati.

Un o'r rhesymau amlycaf dros lynu wrth fodel y Cyngor Sir a phenderfynu peidio â bod yn annibynnol oedd gwendid posibl y pwyllgor llywio a'r rhagdybiaeth y byddai'r sefydliad yn colli dylanwad, manteision darbodydd maint a chydweithio'n agos â darparwr gwasanaeth.

6.6.9 Rôl y Gwirfoddolwyr

Mae nifer y gwirfoddolwyr yn amrywio o 6 ar y lleiaf i dros 400 ar y mwyaf. Ar gyfartaledd mae'r mwyafrif o sefydliadau yn adrodd bod ganddynt tua 40-50 o wirfoddolwyr (dylid nodi nad yw cyfweld â gwirfoddolwyr yn rhan o gylch gwaith yr Adolygiad hwn).

Prif gyfrifoldeb y gwirfoddolwyr yw cynorthwyo â chynnal digwyddiadau mewn ardaloedd penodol, casglu arian, stiwardio mewn digwyddiadau, arwain boreau coffi a sesiynau siarad. Gwneir hyn oll dan arweiniad staff cyflogedig.

Mae gwirfoddolwyr yn rhan allweddol o bron pob gweithgaredd ond nid ydynt gan amlaf yn aelodau cyflawn o'r pwyllgorau rheoli a phwyllgorau eraill, er y byddant yn cynorthwyo

â gweithgareddau o ran trefniant, rhediad a gwerthuso sydd yn elfen bwysig iawn ac yn dylanwadu ar benderfyniadau'r pwyllgorau.

6.6.10 Rôl Aelodau'r Pwyllgor Llywio

Gan amlaf mae gan bob sefydliad bwyllgor sy'n cynnwys Cadeirydd, is-gadeirydd, trysorydd ac Ysgrifennydd, sydd yn cael eu hethol mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol. Mae'r cadeirydd yn gweithredu am ddwy flynedd gan amlaf.

Ar gyfartaledd, ceir rhwng 5 a 15 aelod o'r Pwyllgor Llywio.

Mae cynnig amlwg i ddenu gwirfoddolwyr i'r Pwyllgor Llywio sydd yn meddu ar sgiliau allweddol fel y byddant yn ymelwa o'r meysydd a ganlyn:

- Marchnata
- Yr economi leol
- Y gyfraith
- Y cyfryngau
- Addysg
- Diwylliant
- Gweithgareddau pobl ifanc.

Y mae'r Pwyllgor Llywio a'i Is-bwyllgorau yn sicrhau bod gwaith staff y sefydliad yn cael ei weithredu a bod rhediad wythnosol a misol y sefydliad yn dilyn y drefn gywir.

7 Canlyniadau'r Gwaith Maes: Cynlluniau Gweithredu Iaith

7.1 Cyllido'r Cynlluniau Gweithredu Iaith

Mae swyddogion y Cynlluniau Gweithredu Iaith wedi eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru, hynny yw: gweision sifil ydynt ac nid ydynt wedi eu cyflogi drwy gymorth grant fel yn achos y Mentrau Iaith a dau o swyddogion Cynllun Aman Tawe. Mae symiau bach o arian prosiect wedi eu neilltuo i bob CGI er mwyn cynnal gweithgareddau lleol.

7.1.1 A ellir cyfiawnhau parhau i gyllido CGI unigol ar yr un raddfa?

Cafwyd tystiolaeth gymysg ynghylch y CGI drwyddi draw wrth i ni gynnal yr holl gyfres o gyfweiliadau â'r holl sefydliadau a'r partneriaid. Ar y naill law mae nifer o ymatebwyr yn credu bod angen mwy o staff arnynt i ddatblygu'r cynlluniau ymhellach ac i weithio'n fwy dwys mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Yn ôl un ymatebwr: 'Mae'r gallu i weithio'n ddwys mewn un ardal yn fantais ac mae angen mwy o arian i ehangu'r gwaith'.

Ond, ar y llaw arall mynegwyd pryder gan lawer ynghylch y dryswch a all godi oherwydd bod cynifer o wahanol bartneriaid yn targedu'r un grwpiau o bobl. Cyfeiriwyd er enghraifft at waith ieuencid mewn un ardal, lle mae'r Urdd, y Ffermwyr Ifanc, Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor Sir, y Fenter Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith oll yn darparu ar gyfer pobl ifanc.

7.2 A oes angen Cynllun Gweithredu Iaith mewn rhannau eraill o Gymru?

O blith yr holl ymatebwyr, nid oedd llawer o gefnogaeth i'r syniad o greu rhagor o CGI ar eu ffurf bresennol mewn rhannau eraill o Gymru. Un o brif themâu'r atebion a gasglwyd gan bawb oedd ansicrwydd ynglŷn â'u swyddogaeth fel cynlluniau a'r berthynas rhyngddynt â phartneriaid eraill, yn arbennig y Mentrau Iaith.

Er bod y CGI wedi cael eu sefydlu i gydlynu gweithgareddau mewn ardaloedd penodol lle mae shifft ieithyddol yn digwydd, gan gynnwys ardaloedd lle yr oedd y mentrau'n bodoli'n barod, ofnir yn ôl y dystiolaeth a gafwyd bod y berthynas â'r Fenter Iaith leol yn tueddu i fod yn un o gystadlu yn hytrach na chyd-dynnu. Oherwydd hyn nodwyd bod perygl i ddyblygu gwaith a gwrthdaro ddigwydd. Clywyd sôn bod hyn yn creu dryswch ac aneglurder o ran ffiniau cyfrifoldebau. Rheswm arall dros y gwrthdaro honedig hwn yw pwysau i gyflawni targedau, yn hytrach na chydweithredu er mwyn ymateb i angen. Un ateb a gynigwyd i ni oedd trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr holl bartneriaid perthnasol er mwyn cynllunio a gweld y ffordd ymlaen yn glir.

7.3 Datblygu rôl y Cynlluniau Gweithredu Iaith ymhellach?

At ei gilydd, o'r 49 o gyfweiliadau a gynhaliwyd, ni chafwyd llawer o syniadau newydd ynglŷn â sut i ddatblygu'r CGI dros y blynyddoedd nesaf. Roedd y cynigion a gafwyd yn trafod yr angen (fel y nodwyd uchod) i gydlynllunio ac i gydlynu gweithgarwch y gwahanol sefydliadau'n well gyda'i gilydd. Cafwyd cynigion eraill, a oedd yn ymwneud â'r posibilrwydd i'r CGI fod yn rhan allweddol o ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd (gan gynnwys manteision economaidd) gan ddefnyddio chwaraewyr rygbi a phêl droed Cymru ynghyd ag actorion, cantorion a modelau rôl eraill.

7.4 Ystod briodol o weithgareddau

Dangosodd y gwaith maes mai cryfhau cymunedau, gweithio â phlant a phobl ifanc a hybu'r Gymraeg ymhlith teuluoedd yw prif ffocws cyfredol y CGI. Er bod y themâu hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Iaith genedlaethol, *Iaith Fyw: Iaith Byw*, bydd y weithgareddau a ddarperir yn cael eu hamrywio o gwmpas y themâu i ymateb i anghenion lleol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau gan y Cynlluniau Gweithredu Iaith i adnabod anghenion, er enghraifft syniadau'n codi o bwyllgorau ardal a gan fudiadau iaith, cymdeithasau, ysgolion neu unigolion.

7.4.1 A yw'r CGI yn dyblygu gwaith eraill?

Cafwyd tystiolaeth o bob cyfeiriad bod gweithio mewn partneriaeth rhwng CGI â mudiadau iaith eraill yn heriol, gan nad oes digon o gynllunio strategol a chydweithio'n digwydd rhyngddynt. Nodwyd sawl gwaith bod perthynas rhai o'r Cynlluniau Gweithredu Iaith â'r Cynghorau Sir hefyd yn fregus yn enwedig gan nad oes rôl wedi'i diffinio'n ddigonol ganddynt a statws anghymarus wrth ymdrin â diddordebau polisi gyda swyddogion lefel uchel mewn sefydliadau eraill.

Drosodd a thro yn yr holl ymchwil a gasglwyd o'r 49 cyfweiliad, clywyd sôn bod cyflawni targedau yn faen tramgwydd rhag sicrhau bod cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng partneriaid— '[Rydym] yn ceisio cydweithio â phartneriaid eraill ond mae cyflawni targedau yn pwysu'n drwm ar fudiadau unigol, sy'n eu gorfodi i weithio'n annibynnol ac ynysig [...] Dylid cael cytundeb cyn gweithio ar y cyd ar bwy sy'n hawlio'r targedau.' Mae rhai yn cydnabod nad yw'r cynlluniau'n gweithio'n ddigon strategol— 'Mae llawer o'r gweithgareddau'n fympwyol ac yn deillio o syniadau gan unigolion yn hytrach na phroses glir a systematig o ddefnyddio tystiolaeth ar gyfer cynllunio'. Nodwyd y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad ar gynllunio strategol i weithwyr yn y maes.

7.5 CGI a gwaith partneriaeth

Fel y nodwyd uchod, prin yw'r enghreifftiau o gynllunio strategol rhwng y partneriaid iaith ac awdurdodau lleol. Nodwyd hefyd bod tensiynau'n codi rhwng gwahanol sefydliadau. Er bod rhywfaint o gydweithio'n digwydd â phrosiect TWF, Mudiad Meithrin ac Urdd Gobaith Gymru, yn ein barn, nid yw'n ddigon cydlynol i wireddu potensial hir dymor ar y Gymraeg.

Nododd nifer o ymatebwyr bod cydweithio da yn arfer digwydd rhwng y Cynllun Gweithredu Iaith a'r Mentrau ond bod y berthynas wedi dirywio i raddau, er enghraifft— 'Roedd cyfarfodydd yn arfer digwydd rhwng y CGI a [Menter X] ond dydyn nhw ddim yn digwydd erbyn hyn. Os yw'r Fenter yn gweithredu prosiect ar lefel sirol dylid cadw'n glir o ardal y CGI. Ceir teimlad bod cystadleuaeth rhwng y CGI a [Menter X] erbyn hyn yn cael ei achosi gan y pwysau i gyrraedd targedau'.

7.6 Effeithiolrwydd y CGI o safbwynt mesur deilliannau ac effaith

Mae gan y mwyafrif ddulliau gwahanol o fesur deilliannau sy'n amrywio o holiaduron ysgrifenedig neu gwestiynau ar lafar, adborth ar ddechrau a diwedd gweithgareddau, adborth uniongyrchol drwy grwpiau ffocws, defnydd o 'flipchart' gan bobl ifanc a gwybod-aeth anecdotaidd. Nid oes llawer o dystiolaeth bod y deilliannau hyn yn cael eu dadan-

soddi ar lefel genedlaethol ac yn bwydo i mewn i ddatblygu polisi ac ymarfer y CGI, ac o'r herwydd mae cyfle i gynnig gwerth ychwanegol y CGI oddi fewn i fframwaith cynllunio ieithyddol cenedlaethol yn cael ei gollu.

7.7 A fyddai'n fanteisiol uno'r Mentrau a'r CGI?

Ac eithrio'r un enghraifft lle mae trefn rheoli wahanol yn bodoli, mae cyfanswm ein gwaith maes yn dangos nad yw'r berthynas rhwng y Cynlluniau Gweithredu a'r Mentrau'n ddigon agos ac o'r herwydd nad oes digon o ymddiriedaeth rhyngddynt i sicrhau cydweithio adeiladol ac effeithiol. Fodd bynnag, cafwyd sylwadau yn y gwaith maes y byddai'r cynllun CGI yn gweithio'n well dan arweiniad y Fenter Iaith gan fod brand y Mentrau cymaint yn fwy amlwg ac adnabyddus—

Mae brand [Menter X] cymaint cryfach. Does neb yn gwybod beth yw'r Cynllun Gweithredu Iaith ac i bwy mae'n atebol. Y lleiaf o gyrff sy'n gweithio mewn ardal, y mwyaf yw'r impact. Mae'r cyhoedd yn credu fod pawb yn perthyn i'r un mudiad beth bynnag sy'n gallu achosi dryswch pam mae brandiau gwahanol yn trefnu gweithgareddau.

Cafwyd awgrym y dylai'r Mentrau Iaith ganolbwyntio mwy ar ddylanwadu'n strategol ar awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill ac y dylent gael mwy o ddylanwad ar bolisiau mewn meysydd megis addysg, tai, gwasanaethau hamdden a chynllunio. Barn yr ymatebwr hwn oedd y dylai'r CGI ganolbwyntio'n llwyr ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan adael gwaith mwy strategol i'r Mentrau.

7.8 Strwythurau i sicrhau gweithio effeithiol?

Y farn gyffredinol gan yr ymatebwyr yw bod angen ychwanegu at strwythur sirol y Mentrau drwy gadarnhau'r elfen ranbarthol a chenedlaethol. Byddai gweithio ar y lefelau uwch hyn yn eu galluogi i roi arweiniad i Fentrau nad ydynt wedi datblygu i'w potensial llawn eto, rhannu arferion da, cydlynu gweithgareddau ar draws ffiniau daearyddol a lleihau'r baich gweinyddol ar Fentrau unigol. Byddai corff cenedlaethol hefyd yn gallu cydlynu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr, lloïo ar ran y Mentrau a rhoi arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio ieithyddol.

Roedd nifer yn dadlau y byddai strwythurau tebyg i'r hyn sydd gan y mwyafrif o'r prif fudiadau iaith yn hwyluso cydweithio rhwng y prif bartneriaid iaith a chyrrff cyhoeddus ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Pa strwythur bynnag a weithredir yn y pen draw, y mae angen sefydlogrwydd ar y system newydd. Nodwn hyn oherwydd bod angen cyfnodau go hir o amser er mwyn gwneud gwahaniaeth o ran newid agweddau ac ymddygiad pobl tuag at y Gymraeg mewn cymuned. Awn ymlaen i drafod cynnig posibl ar hyn yn y bennod nesaf.

8 Canlyniadau'r Gwaith Maes: Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Aman Tawe

Sefydlwyd y Cynllun hwn ym mis Ebrill 2011. Ceir hanes ei sefydlu yn adran 4.4. Oherwydd newydd-deb y cynllun, mae'n amlwg y bydd llai o ddata i adrodd arnynt nag yn achos sefydliadau mwy hirsefydledig. Ymddengys fod Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Aman Tawe yn mynd i'r afael â'i dasgau drwy ddefnyddio model cyd-greadigol (gweler, ymhlith llawer arall (Wooding, 2008)). Sefydlodd 4 'pwerdy' a chanddynt un dasg yn unig, sef llunio rhaglen flynyddol o weithgarwch ar sail anghenion ieithyddol lleol ac ar sail dadansoddiad anghenion ieithyddol gwreiddiol y rhaglen a grëwyd gan y Bwrdd.

Mae swyddogion y cynllun yn nodi bod y dull hwn yn dwyn ffrwyth, bod ymbweru cymunedol yn dechrau cael ei weld, a'u teimlad yw bod y model hwn o weithio yn mynd i'r afael â phroblemau hyder ehangach na rhai ieithyddol yn unig yn yr ardal. Pwysleisiwn drachefn ei bod yn ddyddiau cynnar ar y bartneriaeth ac felly yn rhy gynnar bwrw barn bendant ar ei llwyddiant—ac yn wir, mae hynny y tu hwnt i ofynion y briff. Fodd bynnag, teg nodi bod hwn yn fodel tra gwahanol i brosiectau llywodraethol mewn meysydd a manau eraill sydd yn defnyddio dull 'gorchymyn a rheoli.' Yr hyn sy'n nodweddu dull gwaith y bartneriaeth hon yw cyd-drafod, cyd-greu a dal dyheadau'r gymuned.

Arian cychwynnol a ddyrannwyd i'r bartneriaeth gan Lywodraeth Cymru, a hynny er mwyn sefydlu prosiect peilot. Ond penderfyniad 'annibynnol' cynllun hybu'r Gymraeg Aman Tawe oedd dewis pa union elfennau o'r dadansoddiad anghenion ieithyddol yr aethpwyd i'r afael â hwy fel blaenoriaeth gyntaf. Canlyniad hwn oedd rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth yn hytrach nag ymyrraeth mewn prosesau neu sefydliadau eraill. Llwyd sylweddolwn fod angen ymglymu pobl leol yr ardal i brosesau a gweithgarwch sydd yn hybu eu diwylliant hwy ac o'r herwydd mae hyn yn gam rhesymol, ond nid yn ddigonol ar gyfer diwallu anghenion cynllunio ieithyddol yr ardal yn y tymor hir—ac mae'r bartneriaeth yn sylweddoli hyn.

Er mwyn datblygu yr agweddau strategol mae cynrychiolwyr Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe yn ymwybodol bod angen mwy o staff proffesiynol arnynt a golyga hyn fod angen mwy o fuddsoddiad ar ran y Llywodraeth. Un dehongliad syml o'r angen am fwy o fuddsoddiad yw ychwanegu at wariant grant blynyddol a nifer swyddogion pwrpasol i'r Cynllun. Ond dylid nodi bod dulliau eraill o gyflawni'r nod drwy rannu adnoddau a thrwy feithrin gallu cynllunio ieithyddol asiantaeth sydd hefyd yn gweithio yn yr ardal, e.e. Cymunedau'n Gyntaf (gweler Adran 6.3.3).

O graffu ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni drwy'r offerynnau ymchwil a'r ddogfennaeth a ddarparwyd, ac o gofio—fel y nodwyd eisoes—ei bod yn ddyddiau cynnar ar y cynllun hwn, credwn fod potensial i'r model hwn o weithio. Credwn fod modd i'r model fod yn fwy holistaidd o lawer nag unrhyw fodel arall yn y maes. Prif rinwedd y model yw bod pob partner allweddol yn rhannu'r weledigaeth ac yn cyd-gyfrannu at agenda Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Yn sicr, mae ymwneud y Llywodraeth a'r Awdurdodau lleol yn cynnig grym, dylanwad a mynediad i swyddogion yr Awdurdodau ac, mae'n bosibl, Llywodraeth Cymru ei hun, a hynny mewn ardal ddaearyddol *nad* yw'n uned o unrhyw fath arall.

Mae'r briff yn gofyn i ni ystyried a ddylid sefydlu cynllun cyffelyb mewn rhannau eraill o Gymru. Gwelwn rinwedd yn y model hwn o weithio trawsffiniol, traws sefydliadol y gellid ei ddefnyddio mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Dros gyfnod o amser bu'r Gymraeg yn 'fater sengl' i nifer cyfyngedig o grwpiau pwysu. Trwy safonau hybu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a thrwy fabwysiadu dull gwaith fel a wneir yn Aman Tawe, ceir posibilrwydd o gyflawni agweddau ar yr hyn mae arbenigwyr cynllunio ieithyddol wedi bod yn gofyn amdano ers degawdau sef Cynllunio Ieithyddol Holistaidd. Rhaid, wrth gwrs, i bartneriaethau o'r fath fwydo'n uniongyrchol i gynlluniau a pholisïau'r awdurdodau dan sylw a bod yn llawer mwy nag asiantaethau darparu gweithgareddau yn unig.

Mae'r briff yn gofyn am restr o weithgareddau y bydd Cynllun Hybu'r Aman Tawe yn eu darparu. Fe'u cynhwysir mewn atodiad pwrpasol yn adran 11.10. Nodwn fod y priodweddau a ganlyn yn nodweddu'r bartneriaeth:

- Creu egni a chynnig sbardun seicoleg ychwanegol er mwyn cryfhau hyder yr ardal parthed y Gymraeg;
- Rhanddeiliaid allweddol oll yn cymryd rhan ac yn cymryd cyfrifoldeb am lunio strategaeth i'r Gymraeg yn yr ardal;
- Modd dylanwadu ar weithgarwch ehangach y cynghorau sir;
- Creu haen ychwanegol y 4 pwerdy iaith sydd yn adlewyrchu'r elfen cyd-greu gref;
- Cynnig ffordd mwy ymatebol i anghenion y gymuned nag y mae dull traddodiadol 'gorchymyn a rheoli' mewn meysydd lle cafwyd ymyrraeth lywodraethol (nid o reid-rwydd ym maes iaith);
- Adeiladu ar egwyddorion sylfaenol sef hwyluso, cydlynu a chydweithio.

Hanfod unrhyw bartneriaeth yw ymrwymiad ac ymddiriedaeth yn aelodau'r berthynas newydd. Wrth reswm, mae creu synergedd o'r fath yn cymryd amser a chynllunio sylweddol. Wrth weithio mewn partneriaeth rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan arddel set o egwyddorion sy'n meithrin ymddiriedaeth, tegwch ac atebolrwydd i bob aelod. Ein barn yw bod gan bartneriaeth sefydlog y gallu i gydweithio'n llwyddiannus ac ymateb yn gyflymach i newidiadau nag asiantaethau unigol sydd yn gweithio heb gydlynu strategol digonol. Nid ydym yn dweud bod Aman Tawe yn dempled perffaith ar gyfer gwaith hybu'r Gymraeg, ond mae gwaith partneriaeth—o'i gynllunio i drosgynnu model 'darparu' ac i fynd i'r afael â materion holistaidd—yn fwy tebygol o lwyddo ym maes cynllunio ieithyddol.

Wrth edrych ar enghreifftiau o bartneriaethau mewn meysydd eraill e.e. maes iechyd, mae arbenigwyr megis Sloper (2004) wedi awgrymu bod nifer o fathau o gydweithio, gan gynnwys:

- *Cynllunio lefel strategol*—sy'n arddel gweithio ar y cyd, gwneud penderfyniadau, comisiynu, prynu;
- *Ymgynghori a hyfforddiant*—lle mae gweithwyr proffesiynol o un asiantaeth yn darparu hyfforddiant ar ganlyniadau a dulliau ymgynghori ar gyfer staff asiantaeth arall.
- *Cynlluniau lleoli staff*—yn cynnwys creu swyddi sy'n croesi neu yn pontio'r rhaniadau adrannol, er enghraifft gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio ym maes gofal iechyd sylfaenol.

- *Darparu gwasanaethau amlasiantaethol mewn un lleoliad*; lle mae gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd mewn un lleoliad, ond nid ydynt o reidrwydd yn darparu gwasanaethau ar y cyd.
- *Darparu gwasanaeth cyd-drefnu*—lle mae cydlynnydd yn gyfrifol am dynnu ynghyd nifer o wahanol wasanaethau fel arfer.
- *Sefydlu timau a phrosiectau amlddisgyblaeth ac aml-asiantaethol*—lle mae gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd ar sail dydd-i-ddydd fel tîm amlasiantaethol.
- *Rheoli gwasanaethau a swyddogaethau drwy dimau aml-asiantaethol*—lle mae unigolyn yn bennaf gyfrifol am sicrhau gwasanaeth cydlynol mewn ardal benodol.

O ran y ffactorau sydd yn *hwyluso* gweithio amlasiantaethol, mae'r llenyddiaeth ym maes polisi iechyd yn awgrymu bod gweithredu llwyddiannus yn cael ei hyrwyddo gan:

- Nodau ac amcanion clir a realistig sy'n cael eu deall a'u derbyn gan yr holl asiantaethau.
- Diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir, fel bod pawb yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt ac o eraill, a llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir.
- Ymrwymiad yr uwch reolwyr a staff rheng flaen, sy'n cael ei gynorthwyo drwy gynnwys staff rheng flaen wrth ddatblygu polisïau.
- Arweinyddiaeth gref a'r sgiliau i lywio partneriaeth aml-asiantaeth neu grŵp rheoli
- Sicrhau bod yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer gweithredu newidiadau yn realistig ac yn hyrwyddo ymagwedd gynyddol i dderbyn newidiadau angenrheidiol.
- Integreiddio prosiectau i mewn i brosesau gwneud penderfyniadau cynllunio ac eraill.
- Sicrhau bod systemau cyfathrebu da ar bob lefel, a'r rheini'n seiliedig ar yr arfer da o rannu gwybodaeth a defnyddio systemau TG digonol.

Yn ôl yr astudiaethau a archwiliwyd gan Sloper (2004), mae gweithredu a rheoli parhaus y gwasanaeth yn gofyn am:

- Rannu adnoddau digonol, gan gynnwys cymorth gweinyddol ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer staff i ymgymryd â gweithgareddau gweithio ar y cyd.
- Recriwtio staff sydd yn meddu ar y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol. Yn ôl Atkinson *et al.* (2001) mae llawer o'r rhai sydd yn ymwneud â gwaith aml-asiantaeth eisoes wedi gweithio mewn sawl asiantaeth yn ystod eu gyrfa. Awgryma hyn y gallai math newydd o weithiwr proffesiynol 'hybrid' hwyluso gweithio ar y cyd.
- Hyfforddiant ar y cyd ac adeiladu tîm.
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol i staff.
- Monitro a gwerthuso'r gwasanaeth, gyda pholisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yng ngoleuni amgylchiadau newidiol a gwybodaeth newydd.

8.1 Beth sy'n rhwystro gwaith partneriaeth amlasiantaethol?

Mae llawer o'r rhwystrau a nodwyd gan Sloper (2004), yn ymwneud â sut yn union mae'r bartneriaeth amlasiantaethol wedi ei sefydlu. Yn gyffredinol dyma'r ffactorau sydd yn rhwystro cydweithio da:

- Diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau
- Gwahaniaethau mewn amcanion sefydliadol
- Diffyg consensws ar nodau neu amcanion sydd yn rhy uchelgeisiol
- Diffyg ymrwymiad a chefnogaeth gan uwch rheolwyr
- Prosesau gwael wrth gyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- Systemau TG annigonol neu anghydawns
- Adnoddau annigonol a diffyg sicrhau cyllidebau penodol ar y cyd
- Diffyg hyfforddiant parhaus
- Diffyg arweinyddiaeth
- Diffyg amser ar gyfer gweithio ar y cyd
- Ystrydebau negyddol proffesiynol
- Diffyg ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng unigolion ac asiantaethau

Yn ogystal, canfuwyd ffactorau eraill a oedd yn rhwystro gweithio ar y cyd:

- Ad-drefnu cyson
- Amllder trosiant staff
- Prinder staff cymwys
- Ansicrwydd ariannol, anawsterau cynnal partneriaeth pan fydd cyllid yn brin ac anawsterau wrth sicrhau cydraddoldeb rhwng partneriaid
- Natur a goblygiadau ymarferol gwahanol ideolegau proffesiynol a diwylliannau asiantaeth

Mae Lyne *et al.* (2000) yn awgrymu bod hyfforddiant allweddol ar y cyd rhwng partneriaid yn un dull adeiladol o oresgyn rhai o'r problemau a nodant dystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd rhaglenni gwella ansawdd a hyfforddiant amlasiantaethol yng Nghymru.

Wrth archwilio'r cyfleoedd a'r bygythiadau a ddaw o waith amlasiantaethol, ein barn yw y dylid ystyried yr elfennau uchod yn fanwl iawn wrth ledu'r model Cynllun Datblygu Ardal fel y rhoddwyd ar waith yn Aman Tawe. Mae toreth o brofiad a gwersi i ymelwa arnynt o feysydd eraill a allai sicrhau gweledigaeth a momentwm cytûn. Bwriad y dull gwaith hwn fyddai dwysáu ystyriaethau polisi iaith a gweddnewid effaith gwaith y sefydliadau wrth iddynt ganolbwyntio fwyfwy ar ddeilliannau ystyrion. Dylid cofio bod angen ystyriaethau ehangach o lawer na rhai ieithyddol yn unig er mwyn mynd i'r afael â phroblemau'r Gymraeg yn y Gymru sydd ohoni. Mae dylanwadu ar yr economi a seicoleg gymdeithasol yn elfennau sydd yn haeddu sylw sylweddol, ac mae'r rhain, ill dwy, y tu hwnt i gyrraedd mwyafrif y sefydliadau fel y maent ar hyn o bryd. O nodi hyn y daw ein galwad am fwy o waith amlasiantaethol i gryfhau ymdrechion cynllunio ieithyddol drwy ddefnyddio arbenigrydd meysydd economaidd, seicolegol a datblygu rhanbarthol.

8.2 Athroniaeth Reolaethol y sefydliadau

Mae'r sefydliadau wedi datblygu eu ffyrdd o weithio dan ddylanwad ideoleg ac ymarfer neo-ryddfrydol. Prif nodwedd y datblygiad hwn yw'r newid yn ieithwedd y sefydliadau lle y pwysleisir iaith busnes, ffynonellau ariannol, cyrraedd targedau, mesur canlyniadau, ond er mwyn i hyn weithio mae hefyd angen sicrwydd ariannol a chyfalaf gweithredu ("working capital") arnynt.

Oherwydd yr angen i dderbyn rheolaeth ("managerial control") mae'r sefydliadau yn llawer mwy tebygol nag y buont o ofalu am eu lles eu hunain ac o ganlyniad mae'r elfen o broffesiynoldeb yn debyg o ddisodli'r elfennau 'delfrydol' oedd yn eu nodweddu ar y cychwyn cyntaf.

I raddau hefyd gellid ymdebygu natur a chymeriad rhai o'r sefydliadau i newid yn niwylliant y trydydd sector hefyd e.e. i'r newid a fu yn ddiweddar yn ymddygiad a rheolaeth elusennau.

Mae goblygiadau trafod cynnydd yn arian statudol yn ychwanegu at y tensiwn rhwng yr ideoleg gystadleuol sydd yn pwysleisio deilliannau a'r foeseg bersonol sydd yn pwysleisio gwerth cynhenid yr unigolyn a'r gymuned fel endid ynddi ei hunan. Dyma yn y bôn yw'r her strwythurol mae'r sefydliadau yn ei hwynebu, rhwng creu rhwydweithiau a siaradwyr newydd ac amddiffyn/adlewyrchu/cyfoethogi natur greiddiol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Wrth wynebu'r tensiwn hwn, mae rhai o'r sefydliadau yn bodloni ar ganolbwyntio ar eu prosesau o weithio a chynnal gweithgareddau yn bennaf. O ganlyniad maent yn rhoi llai o sylw nag sydd ei angen i gynllunio bwriadus/pwrpasol a chreu strategaethau sydd yn debycach o gael rhyw effaith ar wyrddroi sefyllfa'r Gymraeg. Er dweud hyn ni ddylid dibrisio pa mor anodd ywcreu effaith o'r fath yn enwedig gan fod gan rhai o'r sefydliadau gyn lleied o staff parhaol. Dyma reswm ychwanegol dros argymell ystyried cyfuno rhai o swyddogaethau'r sefydliadau.

9 Themâu i'w hystyried

Yn sgil y gwaith maes, mae angen gofyn ychydig gwestiynau lled athronyddol ynghylch holl broses hyrwyddo'r Gymraeg ar y lefel gymunedol. Un o'r cwestiynau mwyaf gwaelodol oll yw beth yw pwrpas Mentrau Iaith bellach?

Ateb y sefydliadau yw y dylent:

- Weithio'n strategol
- Darparu gweithgareddau
- Dylanwadu ar weithgarwch cyrff eraill
- Dylanwadu ar bolisi cyrff eraill

Ond mae nifer o broblemau wedi eu codi o'r gwaith maes sy'n eiddo i'r Mentrau, er eng-hraifft:

- Beth yw eu hunaniaeth a'u hunion bwrpas?
- A fyddai strwythur rhanbarthol/cenedlaethol yn eu cynorthwyo i ledu arfer da, a thrwy hynny gynyddu eu heffaith a'u gallu i weithio'n strategol?
- Mae cysondeb llif arian yn broblem
- Mae llwybr gyrfaol a chyflog yn broblem, felly hefyd hyfforddiant
- Sut mae mesur llwyddiant ac effaith?

9.1 Sut mae mesur llwyddiant Ymyrraeth Ieithyddol Gymunedol?

Mae nifer o ddulliau cydnabyddedig eisoes yn bodoli mewn gwahanol feysydd sydd yn ein caniatáu i fesur effaith polisi neu ymyrraeth ar ymddygiad. Y maes mwyaf ffrwythlon yw'r Maes Iechyd lle yr arbrofir ar newid ymddygiad y cyhoedd wrth ymdrin â thlodi, ysmegu, diet a bwyd. Ffynhonnell amlwg arall yw maes seicoleg cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae'r gwyddorau cymdeithasol yn cynnig nifer o ddulliau gwyddonol o fesur cynnydd neu ddirywiad yn nefnydd y cyhoedd o'r cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli. Ceir dulliau eraill o faes TG, economeg ymddygiadol ac yn y blaen. Y nod yw troi'r potensial yn realiti drwy fabwysiadu gwedd lawer mwy gwyddonol e.e. casglu data ar ddeiliannau ieithyddol; troi arfer da mewn meysydd eraill yn arfer da yng nghynllunio ieithyddol; dysgu oddi wrth feysydd eraill ar sut mae newid ymddygiad a'i fesur yn reolaidd; arbrofi yn gyson ar sut i ymyrryd yn effeithlon yn y maes; dysgu oddi wrth ymchwil ar faterion cynllunio ieithyddol mewn gwledydd eraill e.e. Catalwnia, Gwlad y Basg, Québec.

10 Diwedd glo

Ein hargraff gyffredinol wrth gyflawni'r gwaith maes oedd ystod mawr y bwrlwm a lefel yr egni a geir o waith y sefydliadau a'u gwirfoddolwyr. Teg dweud bod gwaith arwyddocaol yn cael ei wneud ganddynt i hyrwyddo'r Gymraeg, a hynny mewn sefydliadau nad ydynt o reidrwydd yn diferu o adnoddau—boed yn adnoddau staff neu ariannol. Rydym am i'r cyfraniad sylweddol hwn barhau, ac ehangu. Er mwyn i hynny ddi-gwydd, mae angen edrych ar union genhadaeth y sefydliadau a'r weledigaeth ar eu cyfer. Nid oes gennym amheuson bod arfer da i'w drosglwyddo. Un o'r heriau yw gosod mecan-waith yn ei le er mwyn i'r trosglwyddo hwn ddigwydd. Hefyd, mae angen bod yn realistig o ran yr hyn y gall un sefydliad ei gyflawni. Afraid dweud bod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Er mwyn i hyn feddu ar ystyr go iawn, mae angen mwy o sefydliadau i ysgwyddo cyfrifoldeb am ei hybu. Hyderwn y bydd safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gyfraniad pwysig at hyn. Un o'n prif negeseuon, a honno wedi'i chodi o'r gwaith maes, yw bod angen cydlynu a chynllunio manwl er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y gall y gwa-hanol sefydliadau ei wneud. Un o'r prif ddarpar gyfranwyr i ddyfodol y Gymraeg yw'r sefydliadau etholedig. Fodd bynnag, clywsom fod awdurdodau lleol yn dyrannu mân symiau o arian i Fentrau Iaith. Canlyniadau hyn yw trosglwyddo perchnogaeth rhai awdurdodau a'u cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg i drydydd parti—sef y Mentrau. Yn anffodus, mae'r trydydd partion hyn yn rhy fach ac ymylol i waith prif ffrwd y cyngor sir i achosi'r effeithiau pellgyrhaeddol y mae eu hangen er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. Sgil effaith arall yw nad yw rhai o'r cynghorau sir hyn yn meddwl yn strategol am y Gymraeg mewn ffordd holist-aidd—neu o gwbl. Sgil effaith bellach yw'r perygl i fydsawd cyfocrog Cymraeg gael ei greu na fydd yn ymelwa ar yr adnoddau sydd ar gael i'r strwythurau cyfatebol 'prif ffrwd'.

Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn fudd cyhoeddus (public good discourse)⁸ mae angen argyhoeddi penderfynwyr, arweinwyr cyhoeddus a gweision cyhoeddus o bob math bod gwerth ychwanegol o hybu'r Gymraeg i bob agwedd ar bolisi a gweithredu yn eu sefydliadau. Mewn sefyllfaoedd lle mae hyn eisoes ar waith, cafwyd tystiolaeth bod sefyllfa'r Gymraeg yn iachach o dipyn o'r herwydd. Mae dirfawr angen i sefydliadau cyhoeddus Cymru ymbaratoi at y newid sylfaenol y bydd y safonau iaith Gymraeg yn ei greu iddynt a'u gwaith. Teg dweud bod rôl i'r sefydliadau drafod goblygiadau hyn yn gyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau, ond nid ydym yn credu y dylai'r ddyletswydd hon amharu'n ormodol ar eu prif dasg. Ni all y Mentrau fod yn bopeth ieithyddol i bawb, ac ni ddylent geisio bod; o hynny daw ein hawydd i gael diffinio eu cenhadaeth yn eglur iawn.

⁸ Gweler, er enghraifft raglen BBC Radio 4, *What are charities for?* (14/10/13), <http://www.bbc.co.uk/programmes/b03cmnzs> <Cyrchwyd 19/11/13>.

Clywsom geisiadau lu am arweiniad strategol manylach o du Llywodraeth Cymru a'r tu hwnt i'r ddogfennaeth strategol sydd eisoes yn bod. O'r herwydd, mae un o'n hargymhellion yn ymwneud â chynllun gweithredu manwl ar gyfer cynllunio ieithyddol ar y lefel gymunedol. Byddai disgwyl i'r cynllun gael ei adnewyddu o leiaf bob dwy flynedd fel bo canlyniadau dadansoddiad data cyfresol ("time-series") a chyfredol yn gallu dylanwadu ar y broses polisi. Agwedd greiddiol ar hyn fyddai dyrannu cyfrifoldebau ac adnoddau i gyflawni'r gwaith angenrheidiol i'r sefydliadau perthnasol ar lawr gwlad—sydd yn ehangach o dipyn na sefydliadau hyrwyddo iaith yn unig.

Mae canlyniadau'r gwaith maes yn dangos dryswch o ran swyddogaethau'r Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI) a'r Mentrau Iaith. Mae diffyg trefn cynllunio ar y cyd yn golygu bod amser ac egni swyddogion y gellid eu treulio ar waith craidd, sef hyrwyddo'r Gymraeg, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amgen. Y canlyniad yw bod tensiwn strwythurol rhwng y ddau asiant. Nid oes gennym amheuaeth bod angen cynllunio ieithyddol dwys ar y lefel feicro, e.e. rhai trefi bychain. Ond mae angen gwireddu llawn botensial yr holl fuddsoddiad llywodraethol—o ba ffynhonnell bynnag y daw—a lleihau dyblygu gwaith a gwrthdaro mewn prosesau cynllunio corfforaethol ac ieithyddol.

Mae cyfle da yn codi yn sgil ad-drefnu posibl ar lywodraeth leol yng Nghymru. Yn y cyfamser, ac yn ei sgil, mae'n briodol treialu'r trefniant Cynllun Gweithredu Ardal mewn rhai ardaloedd sydd yn pontio ffiniau sirol, e.e. de Ceredigion a Gogledd Sir Benfro.

Mae cynllunio ieithyddol yn fwy o dipyn na meddwl am ystyriaethau ieithyddol yn unig. Mewn gwirionedd, *sgil effaith* yw hyrwyddo'r Gymraeg yn sawl un o'r prosiectau y derbynwyd tystiolaeth amdanynt. Mae hynny i'w glodfori.

10.1 Cryfhau Partneriaethau

Rydym wedi edrych ar sawl ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg ar y lefel feicro yn ystod yr Adolygiad hwn. Mae rhinweddau a gwendidau yn perthyn i bob un. Ar sail ein dehongliad o'r dystiolaeth, cynigiwn y dylai tair elfen strwythurol fod ar waith, wedi eu teilwra yn ôl angenion cynllunio ieithyddol lleol. Gwelwn y model hwn hefyd yn gyfraniad at weithredu safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hefyd, wrth reswm, yn llwyr gydblythu ag egwyddorion strategaethau ieithyddol Llywodraeth Cymru:

- Mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Ardal mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Dylai'r rhain gynnwys swyddogion polisi perthnasol (y tu hwnt a chan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am bolisi iaith) y Cyngorau Sir, yn ogystal ag aelodau etholedig perthnasol, mentrau iaith ac asiantaethau eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru. Sail hwn yw model cydlynol a chyd-greadigol Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe, ei bwerdai ayb.
- Mentrau iaith yn ymyrryd mewn ymddygiad ieithyddol ac yn trosglwyddo'r berchnogaeth am yr ymyrraeth honno yn ôl i'r gymuned.
- Awdurdodau Lleol yn cofleidio ysbryd a geiriau safonau gweithredu mewnol a llunio polisi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a gweithgarwch cysylltiedig. Sail hwn yw esblygiad o'r model a gynigir ar hyn o bryd, e.e. gan Hunaniaith.

Er bod sawl un o'r modelau yr argymhellwn eu gweithredu eisoes ar waith yn rhannol mewn rhai ardaloedd daearyddol, nid yw'r holl fodelau sy'n bosibl—neu yn wir yn angen-

rheidiol—i'w gweld ar waith yn yr un ardal, mewn gwirionedd. Dyma ddull diwygiedig o brif-ffrydio'r Gymraeg (y tu hwnt i faterion cychwynnol dwyieithrwydd 'statws' neu 'normaleiddio') i brosesau cynllunio corfforaethol a gwaith polisi'r holl sefydliadau sydd ar waith mewn ardal, ac o gyfeirio'r gwaith hwnnw mewn ffordd gydlynol ac effeithiol. Byddai disgwyl i'r cyngor sir adrodd i'w aelodau etholedig ac i Lywodraeth Cymru ar ddeilliannau ieithyddol y bartneriaeth.

Rydym wedi ein darbwylo o'r dystiolaeth a gawsom bod potensial mawr i fanteisio ar bŵer a dylanwad awdurdodau lleol er mwyn hybu'r Gymraeg. Un o wendidau strwythurol y system lywodraethol gyfredol yng Nghymru yw amharoddrwydd rhai sefydliadau i gydnabod y Gymraeg yn elfen greiddiol o'u gweithgarwch. Ynghlwm wrth newid yn neddfwriaeth Cymru (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), bydd disgwyl i'r Gymraeg godi yn rhestr blaenoriaethau awdurdodau lleol, ac yn wir i fod yn rhan greiddiol o bob blaenoriaeth, a hynny ar ffurf mwy na 'blwch ticio' yn unig. Sylweddolwn bwysigrwydd a difrifoldeb y newid ideolegol hwn. Fe'i hargymhellwn ar sail llenyddiaeth cynllunio ieithyddol sy'n nodi nad yw'r Gymraeg—neu unrhyw iaith—yn bodoli ar wahân i'r bobl sydd, neu a allai, ei siarad (gweler, ymhlith llawer arall (Nelde et al. (1996), Williams, 1992, Williams and Morris, 2000)). Ond ar hyn o bryd, mae polisi penodol yn cael ei lunio ar ei chyfer, heb iddi gael ei hystyried yn ddigonol mewn meysydd a allai effeithio ar ei defnydd (e.e. tai, cynllunio gwlad a thref, hamdden i enwi ond rhai). Mae'n bryd ystyried y Gymraeg yn fater polisi canolog a'i thynnu o'i chyflwr ymylol ym meddwl llawer o weinyddwyr Cymru. Ni ddylid tanbriso maint y dasg.

Er mwyn cryfhau'r Gymraeg ar lawr gwlad, ac er mwyn ymestyn cyrhaeddiad cynllunio ieithyddol ymarferol, mae angen cynyddu dylanwad y sefydliadau. Byddai elfen gref o ymwybyddiaeth iaith ynghlwm wrth y gwaith hwn, ond mae'r dasg yn fwy o dipyn na hynny—mae llawer o wersi i'w dysgu o'r diwydiant materion cyhoeddus sydd wedi codi yng Nghymru yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Un o brif themâu'r dystiolaeth a gafwyd o'r broses ymchwil oedd anghysondeb ariannu rhwng y gwahanol sefydliadau. Canlyniad hyn yw'r canlynol:

- Methu â chyflawni cylch gwaith oherwydd diffyg staff ac adnoddau
- Bygythiadau i ddyfodol tymor hir rhai o'r Mentrau
- Problemau morâl swyddogion
- Cyflogau isel a diffyg cyfleoedd datblygu mewn gyrfa
- Tensiwn rhwng rhai sefydliadau a'i gilydd o ran ffiniau cyfrifoldeb a chystadlu am nawdd cyhoeddus
- Diffyg gallu i ymateb yn chwim i gyfleoedd ac i fygythiadau lleol
- Anallu rhai o'r sefydliadau i fabwysiadu ac i gyfnwid arfer da
- Anallu i weithredu gweledigaeth y sefydliad
- Tuedd i ganolbwyntio ar ddeilliannau y gellir eu rhagweld, e.e. darparu gwasanaethau a chyrraedd targedau yn hytrach na datblygu gweledigaeth tymor hwy ddi-chonol

Nid yw'r sefyllfa hon yn un y gellir ei hamddiffyn na'i pharhau. Dylid ystyried sut yn union mae unioni'r anghysondeb hanesyddol hwn a rhoi cyfle i feddwl o'r newydd am y ber-

thynas rhwng ffynonellau incwm ac amcanion sefydliadol, gan gynnwys estyn y cylch ar-ianu.

Byddai hyn yn rhyddhau eu hegri i wneud gwaith amgen, ac yn rhyddhau swyddogion Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar faterion mwy strategol, i gynnig mwy o arweiniad ym maes polisi ac, i raddau, i ymgymryd â hyfforddiant arbenigol. Byddai hefyd yn sicrhau sefydlogrwydd, cyfleoedd gwaith, ac yn lleihau trosiant staff sy'n poeni am gontractau tymor byr. Byddai hyn yn gyfraniad allweddol i ddatblygu cynllunio ieithyddol fel proffesiwn yng Nghymru. Er mwyn sicrhau llif gwaith cyson i'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol, dylid gwneud hyn mewn cyfnodau pumlynyddol, ond ar ffurf dreigl, efallai ar sail ranbarthol, sef casgliad o siroedd, gan ystyried, o bosibl, ffurfioli cymynrodd Eisteddfod Genedlaethol Cymru h.y. byddai rhanbarth X yn gweithredu cynllun pum mlyneddol hyd at 2019, rhanbarth Y hyd at 2020 ac yn y blaen. Ni ddylai hyn effeithio ar allu a hawl unrhyw sefydliad i chwilio am gyllid o ffynonellau amgen.

Cawsom dystiolaeth fod buddsoddiad llywodraethol mewn cynllunio ieithyddol yn cael ei danseilio gan bolisi llywodraethol sy'n tueddu i fod yn rhanedig ac felly yn mennu ar gynnydd y Gymraeg (e.e. ym maes cynllunio gwlad a thref). Yn yr un ffordd ag yr argymhellir prif ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd ar bolisi cyngorau lleol, da o beth fyddai i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithgor o aelodau Cabinet Llywodraeth Cymru a chyfarwyddwyr y gwasanaeth sifil, (y tu hwnt i'w portffolios polisi cyfredol) er mwyn sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu prif-ffrydio yn effeithiol i bob agwedd ar waith y Llywodraeth. Gwyddom, wrth reswm, fod y Llywodraeth yn adrodd yn flynyddol ar weithredu ei strategaeth iaith (ac ar ei chynllun iaith Gymraeg) ar hyn o bryd ond y risg yw bod Llywodraeth Cymru'n colli cyfleoedd wrth beidio â chynnig arweiniad eglur a thrwyadl o bob portffolio gweinidogol.

10.2Y Ffordd Ymlaen?

Prif amcan Menter iaith yn ein barn ni yw ceisio newid ymddygiad ieithyddol mewn meysydd sydd yn 'eiddo' i gyrff eraill. Er mwyn cyrraedd y nod mae angen rhoi hyfforddiant dwys, hir dymor i'r Mentrau Iaith. Rhybuddiwyd am beryglon colli'r ffocws hwn yn Evas and Williams (1997):

Realiti'r sefyllfa, wrth gwrs, yw bod tuedd i'r elfen gatalydd droi yn elfen gyfundrefnol—hynny yw, fod tuedd i gyrff gyfreithloni eu hunain drwy ddatblygu'n rhan o'r gyfundrefn yr oeddent wedi eu sefydlu i ymyrryd ynddi. Gan mai asiant dros dro yn y bôn yw Menter iaith, teg gofyn i ba raddau y gellid osgoi'r duedd hon. [Ceir] cwestiynau ynglŷn â'r tyndra rhwng y duedd, ar y naill law, i'r Mentrau droi'n sefydliadau ac, ar y llaw arall, yr angen i drosglwyddo'r berchnogaeth yn ôl i'r gymuned.

Er mwyn i'r Mentrau Iaith newid eu hamcanion a'u proffil bydd angen canolbwyntio ar weithgareddau sydd yn debyg o newid ymddygiad ieithyddol ar lefelau lleol a micro trwy ymyrryd mewn meysydd sydd yn 'eiddo' i gyrff eraill. Mae'r arfer da o gydweithio mewn partneriaeth eisoes yn gosod cysail adeiladol i hyn weithio â phartneriaid o bob sector. Er inni bwysleisio rôl allweddol yr Awdurdodau Lleol yn yr Adolygiad hwn, ni ddylid cyfyngu

uchelgais y sefydliadau wrth iddynt sicrhau partneriaeth adeiladol â pha sefydliad/asiant/cwmni bynnag a all fod yn cyd-gyfrannu at newid ymddygiad ieithyddol.

Elfen a ddaeth yn eglur o'r gwaith maes oedd anwybodaeth llawer i swyddog yr oedd y sefydliadau'n delio â hwy (e.e. yn yr awdurdodau lleol) ynghylch pwysigrwydd y Gymraeg a'i dyfodol. Nodwyd bod cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion o'r fath cyn ceisio dylanwadu arnynt, fel y mae'r adroddiad hwn yn gofyn iddynt ei wneud, yn fwy llwyddiannus na 'galwad oer'.

Ar lefel strategol a gwleidyddol uchel, rôl Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydweithio llwyddiannus drwy gynnig arweiniad polisi clir, a dylanwadu ar gyrff allweddol Cymru. Wrth wneud hyn, byddai'r cyrff yn deall natur yr ymrwymiad llywodraethol ac yn cael eu hannog neu eu gorfodi i ymateb i bŵer gwleidyddol y Llywodraeth. Yn sgil hyn, byddai gwaith Mentrau Iaith yn lleol dipyn yn haws, a'u dylanwad dipyn yn fwy pellgyrhaeddol. Byddai pwysau llywodraethol o'r fath yn sicrhau mynediad i'r Mentrau Iaith allu cydweithio a dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol cwsmeriaid, staff a natur cyhoeddusrwydd a chyfathrebu cwmnïau ac asiantaethau.

Un ystyriaeth ychwanegol yw peidio ag anghofio bod yr elfen ranbarthol yn gynyddol bwysig yn y Gymru sydd ohoni a bod angen, felly, sicrhau cynllunio strategol mwy effeithiol ar lefel ranbarthol. Mae angen gwneud hyn er mwyn cydlynu a chyfarwyddo gwaith cynllunio'r holl asiantaethau a'r cynlluniau ardal yr argymhellir eu creu.

Ein neges sylfaenol yw bod angen i'r sefydliadau ymroi'n fwy i ymbweru'r gymuned ar y lefel feicro, er mwyn harneisio egni a syniadau newydd, ac nid darparu ar ei rhan. 'Ymyrraeth ac nid darpariaeth' ddylai fod yn arwyddair i'r sefydliadau—oni bai bod angen llenwi bylchau ar ran endidau eraill nad ydynt yn darparu digonedd o wasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd. Yn yr achosion hynny, ddylid gweithio *dros dro* yn unig fel catalydd er mwyn sicrhau bod yr endidau hynny yn diwallu eu dyletswyddau priodol.

11 Atodiadau

11.1 Cyllid Llywodraeth Cymru i'r Sefydliadau (2012-2014)

TABLE 1: CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU I'R MENTRAU IAITH. FFYNHONNELL - LLYWODRAETH CYMRU

Enw Corff	Cynnig 13/14 (ddim gwir wariant)	Cynnig 12/13 (ddim gwir wariant)	Gwahaniaeth
Abertawe	102145	96098	6047
Blaenau Gwent	42750	36107	6643
Bro Dinefwr	93000	88001	4999
Bro Morgannwg (grant i Fenter Caerdydd)	30000	25990	4010
Bro Ogwr	89435	59435	30000
Brycheiniog	28451	28420	31
Caerdydd	84591	79179	5412
Caerffili	95552	90519	5033
Casnewydd	47250	10000	37250
Castell Nedd Port Talbot	77415	75569	1846
CERED	103068	100137	2931
Conwy	97678	85835	11843
Cwm Gwendraeth	87791	87791	0
Dinbych	81583	79570	2013
Fflint	72043	72043	0
Gorllewin Sir Gâr	66921	66921	0
Hunaniaith	83715	70000	13715
Maelor	36540	36540	0
Maldwyn	72591	70067	2524
Merthyr	58400	36213	22187
Môn	89132	89132	0
Penfro	90279	90279	0
Rhondda Cynon Taf	107768	107768	0
Cyfansymiau	1,738,098	1,581,614	156,484
<i>Cyfartaledd fesul Menter Iaith</i>	75,569	68,766	6,804
Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe (Dinefwr)	38,000	38,000	0
Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe (CNPT)	38,000	38,000	0
Mentrau Iaith Cymru	61,500	60,000	1,500
Grant Tafwyl	20,000	0	20,000
Arian Prosiect Aman Tawe	15,000	10,000	5,000

11.2Y Gwahanol Offerynnau Ymchwil a Ddefnyddiwyd

Mae'r adran hon yn cynnwys atodiadau sy'n dangos y gwahanol offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd wrth weithredu'r Adolygiad hwn. Yn y tabl isod, ceir cwestiynau manyleb Llywodraeth Cymru. Wrth ochr pob cwestiwn, nodir pa sefydliadau y gofynnwyd y cwestiwn iddynt a chan ddefnyddio pa offeryn.

TABL 2: GWAHANOL OFFERYNNAU YMCHWIL YR ADOLYGIAD. FFYNHONNELL - WEDI EI ADDASU O FANYLEB WREIDDIOL LLYWODRAETH CYMRU

	Cwestiynau Briff y Llywodraeth	Mentrau	CGIs?	Aman Tawe?
Cyfweliad		Na	Datblygu a hyfforddi: a yw staff y Cynlluniau Gweithredu iaith yn cael cefnogaeth datblygu a hyfforddiant priodol?	A yw staff y cynllun yn cael cefnogaeth datblygu a hyfforddiant priodol?
Cyfweliad		Na	cydweithio'n agosach: pa opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu iaith yn cydweithio'n agosach â'u Mentrau iaith lleol? A ddylid dod â hwy yn agosach at ei gilydd, neu eu huno?	Na
Cyfweliad Holiadur	I ba raddau y mae'r dull o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan gymunedau wedi'i deilwra'n briodol gan bob Menter i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru (gan adlewyrchu canran, nifer, oed a chefnidir ieithyddol y boblogaeth)	☺	☺	☺
Cyfweliad	a yw lefel y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn briodol	☺	a yw lefel y buddsoddiad yn briodol;	☺
Cyfweliad	a ellir cyfiawnhau parhau i gyllido Mentrau unigol ar sail yr un raddfa â'r gorffennol	☺	Na	Na
Cyfweliad	a oes angen Menter ym mhob rhan o Gymru	☺	a oes angen Cynlluniau Gweithredu iaith mewn rhannau eraill o Gymru;	Na
Cyfweliad holiadur	faint o botensial sydd, os oes unrhyw botensial, i ddatblygu rôl y Mentrau ymhellach?	☺	☺	X hefyd 'a ddylid sefydlu cynllun cyffelyb mewn rhannau eraill o Gymru?
Cyfweliad holiadur	a yw ystod cyfan y gweithgareddau'n addas	☺	☺	☺
Cyfweliad holiadur	a dydnt yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r unigolion a chymunedau a wasanaethir gan bob Menter	☺	☺	☺
Cyfweliad Holiadur	a yw'r Mentrau yn arloesi ac yn ceisio datblygu syniadau newydd;	☺	☺	☺
Holiadur	a yw'r Mentrau yn gwneud gwaith y dylai eraill fod yn ei wneud (fel awdurdodau lleol	☺	☺	☺
Holiadur Cyfweliad	a yw eu gwaith yn adlewyrchu'n briodol y blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth iaith Gymraeg (gan gydnabod hefyd bod angen diwallu anghenion a blaenoriaethau lleol	☺	☺	☺
Cyfweliad	a yw'r targedau a osodwyd ar gyfer y Mentrau presennol yn briodol ac yn ddigonol (o ran y grant a ddyfernir gan Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru	☺	Na	X (mewn perthynas â'r buddsoddiad a'r cymorth grant a roddir gan Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru?)
Cyfweliad holiadur	a oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Mentrau yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'i gilydd, â'r Cynlluniau Gweithredu iaith, â 'phartneriaid iaith Gymraeg' eraill Llywodraeth Cymru a â sefydliadau eraill, fel awdurdodau lleol a	☺	☺	☺

	Cwestiynau Briff y Llywodraeth	Mentrau	CGIs?	Aman Tawe?
	Mentrau eraill a ariennir gan y llywodraeth?			
Cyfweliad holiadur	a yw'r Mentrau iaith unigol a'r rhwydwaith o Fentrau rhanbarthol a ledled Cymru (gan gynnwys Mentrau iaith Cymru) wedi eu strwythuro yn y fath fodd sy'n helpu i sicrhau gweithio effeithiol, gweithio mewn partneriaeth a rhannu arfer da	☺	a yw'r rhwydwaith o Gynlluniau Gweithredu iaith wedi ei strwythuro yn y fath fodd sy'n helpu i sicrhau gweithio effeithiol, gweithio mewn partneriaeth a rhannu arfer da; a oes strwythurau yn eu lle eisoes i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu rheoli mewn modd priodol a chadarn;	☺
Cyfweliad	a fyddai'n fanteisiol uno rhai o'r Mentrau?	☺	Na	Na
Cyfweliad	pa rôl ddylai Mentrau iaith Cymru ei chael o ran datblygu a hyfforddi?	☺	Na	Na
Cyfweliad holiadur	sut y dylai rôl Mentrau iaith Cymru ddatblygu	☺	Na	Na
Cyfweliad	pa werth y gallai Mentrau iaith Cymru ei hychwanegu at waith y Mentrau?	☺	Na	Na
Holiadur	pa rôl sy'n cael ei chwarae gan wirfoddolwyr ac aelodau pwyllgorau	☺	☺	☺
Holiadur	a oes strwythurau yn eu lle eisoes i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu rheoli mewn modd priodol a chadarn	☺	☺	☺
holiadur	beth yw'r ystod gyfan o weithgareddau a gynhelir	☺	☺	☺
holiadur	a ydynt yn denu trawstoriad eang o'r gymuned i gymryd rhan	☺	☺	☺
holiadur	a yw data yn cael ei gasglu'n effeithiol mewn ymgais i asesu effaith pob gweithgarwch a faint o bobl y maent yn eu cyrraedd (o ran eu heffaith ar y defnydd o'r Gymraeg a'u heffaith o ran datblygu agweddau cadarnhaol at yr iaith)	☺	☺	☺
Holiadur	I ba raddau mae'r Mentrau wedi llwyddo i ddenu cyllid gan sefydliadau eraill?	☺	Na	Na
Holiadur	a oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Mentrau yn cael effaith gadarnhaol ar yr elfennau canlynol?:	☺	☺	☺
Holiadur	eu heconomi leol	☺	☺	☺
Holiadur	datblygiad cymunedol	☺	☺	☺
Holiadur	lleihau tlodi plant,	☺	☺	☺
Holiadur	hyrwyddo treftadaeth leol	☺	☺	☺
Holiadur	creu swyddi	☺	☺	☺
Holiadur	helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith	☺	☺	☺
Holiadur	hyfforddi pobl neu ddenu cyllid i wella bywyd cymunedol?	☺	☺	☺ (dim denu cyllid)
holiadur	a yw'r Mentrau yn darparu neu'n trefnu cefnogaeth datblygu a hyfforddiant priodol i'w staff, eu gwirfoddolwyr ac aelodau pwyllgorau	☺	Na	Na

11.3 Dadansoddiad SWOT

Adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Phrosiect Hybu'r Gymraeg Aman Tawe: Dadansoddiad 'SWOT'

Mae Uned Cynllunio, Iaith, a Pholisi Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, wedi ei chontractio gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr Adolygiad uchod. Mae'r Uned yn cydweithio â Sbectrwam Cyf yn ystod y cam casglu data. Mae'r dadansoddiad SWOT isod yn rhan o'r wybodaeth gefndirol y bydd y tîm ymchwil yn ei chasglu er mwyn ymbaratoi at gyfweiliadau dwys â swyddogion perthnasol. Byddwn hefyd yn gofyn i chi lenwi holiadur ar-lein.

Y sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn ymchwilio iddynt

At ddibenion y dadansoddiad SWOT hwn, ystyr 'sefydliad' yw'r sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn ymchwilio iddynt, sef y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe.

Os bydd gennych gwestiynau ynghylch y prosiect, neu os bydd eich sefydliad am dynnu'n ôl o'r prosiect, cysylltwch â Dr Jeremy Evas, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad John Percival, Colum Rd, Caerdydd, CF10 3EU (evasj@caerdydd.ac.uk). Rhwydd hynt i chi ymgynghori â chydweithwyr yn eich sefydliad er mwyn cynnig atebion sefydliadol cynhwysfawr i'r ddogfen hon.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y dadansoddiad SWOT hwn yw 4/6/2013.

Dylai'r dadansoddiad SWOT hwn gymryd oddeutu 40 munud i'w lenwi. Nid oes terfyn o ran nifer y geiriau y gellir eu hysgrifennu wrth ymateb.

Adran 1: Gwybodaeth amdanoch chi

Gwybodaeth y gofynnir amdani	Eich ateb
1. Eich enw:	Cliciwch yma i deipio testun.
2. Enw'r sefydliad rydych yn ateb y cwestiynau hyn ar ei ran:	Cliciwch yma i deipio testun.
3. Eich rôl yn y sefydliad:	Cliciwch yma i deipio testun.
4. Eich E-bost:	Cliciwch yma i deipio testun.
5. Rhif Ffôn:	Cliciwch yma i deipio testun.
6. Dyddiad llenwi'r ddogfen hon:	Cliciwch yma i deipio dyddiad.

Adran 2: Dadansoddiad 'SWOT'

A wnewch chi llenwi'r dadansoddiad SWOT canlynol gan fwrw barn am eich sefydliad fel y mae *ar hyn o bryd*?

Cryfderau Cliciwch yma i deipio testun.

Gwendidau Cliciwch yma i deipio testun.

Cyfleoedd Cliciwch yma i deipio testun.

Bygythiadau Cliciwch yma i deipio testun.

Adran 3: Gwybodaeth Arall

Gwybodaeth y gofynnir amdani Eich ateb

Rhowch ddolenni at ddogfen-naeth berthnasol a allai fod o gymorth i'n dadansoddi neu e-bostiwch hwy gyda'r ddogfen hon. Cliciwch yma i deipio testun.

Pa wybodaeth arall yr hoffech ei rhannu â ni? Cliciwch yma i deipio testun.

Wedi i chi orffen llenwi'r ddogfen hon, a wnewch ei hanfon drwy e-bost at Dr Jeremy Evas (evasj@caerdydd.ac.uk) erbyn y dyddiad a nodir uchod.

11.4 Holiadur i'r Sefydliadau

Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe



[Nodyn i ddarllenwyr yr adroddiad terfynol: Mae'r fersiwn hwn o'r holiadur cychwynnol wedi'i gopïo a'i ludo o Arolygon Ar-lein Bryste. Bu'r sefydliadau yn ei lenwi ar-lein. O'r herwydd, ni fydd y fformatio yn cyfateb yn llwyr i'r fersiwn ar-lein a ddefnyddiwyd]

Croeso

Mae Uned Cynllunio, Iaith, a Pholisi Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, wedi ei chontractio gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr Adolygiad uchod. Mae'r Uned yn cydweithio â Sbectrum Cyf yn ystod y cam casglu data.

Mae'r cwestiynau isod yn rhan o'r wybodaeth gefndirol y bydd y tîm ymchwil yn ei chasglu er mwyn ymbaratoi at gyfweiliadau dwys â swyddogion perthnasol. Byddwn hefyd yn gofyn i chi lenwi dadansoddiad SWOT, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi yn fuan er mwyn trefnu cyfweiliad.

Cwestiynau ynghylch y prosiect

Os bydd gennych gwestiynau ynghylch yr Adolygiad, neu os bydd eich sefydliad am dynu'n ôl o'r prosiect ar unrhyw adeg, cysylltwch â Dr Jeremy Evas, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad John Percival, Colum Rd, Caerdydd, CF10 3EU (ev-asj@caerdydd.ac.uk).

Y sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn ymchwilio iddynt

At ddibenion yr holiadur hwn, ystyr 'sefydliad' yw'r sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn ymchwilio iddynt, sef y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe.

Nodyn ar gyfrinachedd

Mae'r holiadur hwn yn gofyn i chi nodi'ch enw, eich swydd yn y sefydliad, ac enw'r sefydliad hwnnw. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn o'r offerynnau ymchwil (yr holiadur hwn, y dadansoddiad SWOT a'r cyfweiliad) er mwyn llunio adroddiad i Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol iawn y bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi ac y bydd modd adnabod sefydliadau unigol yn yr adroddiad. Os bydd gennych wybodaeth mae'n well gennych ei chadw'n ddiennw, mae croeso i chi ei hanfon atom yn annibynnol, gan nodi'r rheswm dros ei chadw'n ddiennw. Mae modd, wrth gwrs, i chi roi gwybodaeth i ni yn y cyfweiliadau gan nodi nad ydych am i darddiad yr wybodaeth honno gael ei ryddhau.

Nid oes terfyn o ran nifer y geiriau y gellir eu hysgrifennu wrth ymateb i'r holiadur hwn.

Datganiad ynghylch diogelu data

At ddibenion yr arolwg hwn, Prifysgol Caerdydd yw'r rheolydd data. Bydd yr holl ddata a gaiff ei gasglu yn yr arolwg hwn yn cael ei gadw'n ddiogel gan ddarparwr meddalwedd yr

arolwg (Prifysgol Bryste) o dan contract ac wedyn ei gadw gan Brifysgol Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data (1998). Caiff data o'r arolwg, gan gynnwys atebion i gwestiynau lle gofynnir am fanylion personol, ei ddefnyddio gan Ysgol y Gymraeg a Sbectwm Cyf at ddi-benion yr ymchwil.

Ni ddefnyddir briwsion (cookies), sef data personol a gaiff ei storio gan eich porwr gwe, yn yr arolwg hwn.

Y cwestiynau

Rhwydd hynt i chi ymgynghori â chydweithwyr yn eich sefydliad er mwyn cynnig atebion sefydliadol cynhwysfawr. Diolch yn fawr iawn am eich cyfraniad.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn atebion i'r holiadur hwn yw 4/6/2013.

Dylai'r holiadur hwn gymryd oddeutu 120 munud i'w lenwi.

Bydd eich atebion i'r holiadur hwn yn sail i gyfweiliadau dwys gyda chi a'ch cyd-swyddogion. Bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi maes o law er mwyn trefnu'r cyfweiliad hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi a'ch sefydliad

1. Enw'r Sefydliad:

2. Enw'r Prif Swyddog

3. E-bost:

4. Ffôn Swyddfa:

5. Gwefan y Sefydliad:

6. Ers faint rydych wedi bod yn brif swyddog y Sefydliad?

7. Beth yw nifer staff cyflogedig y Sefydliad?

8. Beth yw nifer a rôl aelodau'r Pwyllgor Llywio a sut y cawsant eu dewis?

9. Beth yw nifer a rôl y gwirfoddolwyr y bydd y Sefydliad yn cydweithio â hwy?

10. Beth yw statws cyfansoddiadol y Sefydliad? Beth oedd y rheswm dros ddewis y statws hwn?

11. Beth oedd trosiant ariannol y sefydliad yn ystod y flwyddyn 2011/12?

12. Beth oedd trosiant ariannol y sefydliad yn ystod y flwyddyn 2012/13?

13. Yn y tabl isod, nodwch ffynonellau incwm eich sefydliad o ran nawdd/incwm/grant yn ystod 2012/13 o ba ffynhonnell bynnag

	Enw'r Ffynhonnell	Cais a wnaed (£)	Swm a dderbyniwyd (£)
a. Ffynhonnell 1	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
b. Ffynhonnell 2	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

c. Ffynhonne ll 3			
d. Ffynhonn ell 4			
e. Ffynhonn ell 5			
f. Ffynhonne ll 6			
g. Ffynhonne ll 7			
h. Ffynhonn ell 8			
i. Ffynhonnell l 9			
j. Ffynhonnell l 10			

Datblygu a hyfforddi

Mae'r adran hon yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd i'ch swyddogion a'ch gwirfoddolwyr gael mynediad i gyfleoedd datblygu a hyfforddi.

Hyfforddiant, cefnogaeth a dyrchafiadau

14. Nodwch pa fath o hyfforddiant/cefnogaeth rydych yn ei ddarparu ar gyfer eich staff, y gwirfoddolwyr ac aelodau'ch pwyllgorau

	<input type="button" value="↑"/> <input type="button" value="↓"/> <input type="button" value="↕"/>
<input type="button" value="←"/> <input type="button" value="→"/>	

15. A oes cyfleoedd i'ch staff ymgeisio am ddyrchafiad o fewn eich sefydliad?



Cynllunio a gweithredu'ch gweithgareddau


Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi sut y bydd gweithgareddau'ch sefydliad yn cael eu cynllunio, o gyfnod creu'r weledigaeth i'r cyfnod gweithredu

Gweledigaeth, rhaglen waith a chasglu data


16. Beth yw gweledigaeth eich sefydliad?



17. Disgrifiwch y broses a ddefnyddir er mwyn creu rhaglen waith/strategaeth y Sefydliad. Wrth wneud hynny, disgrifiwch sut, os o gwbl, y byddwch yn cynnal ymchwil er mwyn adnabod anghenion a blaenoriaethau lleol.



18. A oes gennych brosesau yn eu lle er mwyn casglu data o ran y defnydd o'ch gwasanaethau a'ch gweithgareddau? Beth yw'r prosesau hynny?



Pa weithgareddau rydych yn eu cynnal

Mae'r dudalen hon yn gofyn i chi restru'r holl weithgareddau hynny y mae'ch sefydliad yn eu cynnal.

Gweithgareddau'ch sefydliad

19. A wnewch chi nodi'r holl weithgareddau y mae'r sefydliad yn eu cynnal er mwyn hybu'r Gymraeg (nodwch hefyd pa mor aml maent yn cael eu cynnal). Nodwch, hefyd, unrhyw weithgareddau yr hoffech eu gwneud, ond lle na fu modd i chi eu gwneud hyd yma (gan esbonio pam)—ac unrhyw weithgareddau a wnaed gennych eisoes, ond nad ydynt yn

cael eu cynnal ar hyn o bryd (eto, gan esbonio pam).

Effeithiau'ch gwaith y tu hwnt i bolisi iaith

Effeithiau'ch gwaith

20. A oes gennych dystiolaeth i ddangos bod gweithgareddau'ch sefydliad yn cael effaith gadarnhaol ar yr elfennau canlynol (waeth beth yw ffynhonnell ariannu'r gweithgareddau hynny)?


- o Yr economi leol
- o Datblygu cymunedol
- o Lleihau tlodi plant
- o Hyrwyddo treftadaeth leol
- o Creu swyddi
- o Helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith
- o Hyfforddi pobl neu ddenu cyllid i wella bywyd cymunedol

Beth yw'r dystiolaeth honno?


Prosesau, Contractio, Arloesi

Prosesau


21. A oes gennych brosesau yn eu lle sydd yn eich galluogi i ddeall sut mae'ch gweithgareddau'n llwyddo o ran hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu'r defnydd ohoni a/neu gwella agweddau tuag at yr iaith? Beth yw'r prosesau hynny?



22. Pa brosesau sydd yn eu lle er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu rheoli mewn modd priodol a chadarn?




23. A ydych yn ceisio sicrhau bod trawstoriad eang o'r gymuned yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau? Sut byddwch yn ceisio gwneud hynny a sut byddwch yn asesu llwyddiant yn y cyswllt hwn?




24. Rhowch fanylion unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Awdurdod Lleol neu gyrff gyhoeddus/gwirfoddol eraill.



25. A ydych yn mynd ati i arloesi a datblygu syniadau newydd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg? Rhowch enghreifftiau o unrhyw waith arloesol a ddatblygwyd gennych.



26. A ydych yn ystyried eich gwaith ochr yn ochr â Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru? Rhowch enghreifftiau o unrhyw gamau a gymerwyd gennych er mwyn sicrhau bod eich gwaith yn plethu gyda'r strategaeth honno.



Cydweithio

Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â sut mae'ch sefydliad yn cydweithio â sefydliadau eraill, o ran rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd

Cydweithio, partneriaethau, gweithredu ar ran sefydliadau a chyrrff eraill

27. A fedrwnch ddisgrifio unrhyw gamau a gymerwyd gennych yn ddiweddar er mwyn rhannu arfer dda gyda mentrau a sefydliadau eraill?

28. A fedrwnch ddisgrifio unrhyw gamau a gymerwyd gennych yn ddiweddar er mwyn gweithio mewn partneriaeth gyda mentrau a chyrff eraill? Beth aeth yn dda? A gawsoch unrhyw broblemau?

29. A ydych yn gwneud peth gwaith i lenwi bylchau gan nad yw sefydliadau a chyrff eraill (o unrhyw fath) yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg? A fyddai'n fwy priodol i'r gwaith gael ei wneud ganddynt hwy?


Cynhwysedd a chynulleidfaedd nas cyrhaeddir

Materion cynhwysedd cymdeithasol a'r cynulleidfaedd hynny nad yw'ch sefydliad yn eu cyrraedd ar hyn o bryd

30. Disgrifiwch y cynulleidfaedd nad ydych yn eu cyrraedd yn ddigonol ar hyn o bryd a beth byddai ei angen arnoch er mwyn eu cyrraedd?

31. Pa ymdrech mae'ch sefydliad yn ei gwneud i gynnwys ac i hyrwyddo cyfranogiad carfannau o'r boblogaeth sydd yn rhannu'r nodweddion canlynol (sef nodweddion cydraddoldeb Deddf Cydraddoldeb 2010)?:
o Oedran

- o Anabledd
- o Ethnigrwydd
- o Gender
- o Ailaseinio Gender
- o Priodas a phartneriaethau sifil
- o Beichiogrwydd a mamolaeth
- o Crefydd/Cred
- o Cyfeiriadedd rhywiol



Bwrw golwg dros waith eich sefydliad

Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â sut rydych yn dadansoddi llwyddiant eich sefydliad yn y gorffennol, a sut yr hoffech weld llwyddiant yn y dyfodol.

Cloriannu'r Gorffennol


32. Rhestrwch 5 llwyddiant arwyddocaol a grëwyd gan eich Sefydliad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf

Nodwch eich llwyddiannau isod

a. Llwyddiant 1



b. Llwyddiant 2



c. Llwyddiant 3



d. Llwyddiant 4

e. Llwyddiant 5

Edrych tua'r Dyfodol

Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â'r datblygiadau yr hoffech eu gweld yn y dyfodol

33. Beth yw 5 blaenoriaeth uchaf y Sefydliad dros y 5 mlynedd nesaf?

Nodwch eich blaenoriaethau isod

a. Blaenoriaeth 1

b. Blaenoriaeth 2

c. Blaenoriaeth 3

d. Blaenoriaeth 4

e. Blaenoriaeth 5

34. Pe bai hyd at dri pheth y gellid eu gwneud i gynyddu effaith a/neu ddylanwad eich Sefydliad, pa bethau fyddai'r rheini?

Nodwch y pethau isod

a. Peth 1



b. Peth 2



c. Peth 3



35. Mewn byd delfrydol, sut byddech am weld rôl eich Sefydliad yn datblygu dros y blynyddoedd i ddod, er mwyn cael effaith gynyddol yn eich ardal?

36. Beth yw'r tri newid pennaf yr hoffech eu gweld a fyddai'n meithrin eich gallu fel sefydliad?

Nodwch y newidiadau isod

a. Newid 1



b. Newid 2




c. Newid 3



Ystyr 'meithrin gallu' yng nghyd-destun y cwestiwn hwn yw'r hyn a gyflëir gan 'capacity building' yn Saesneg.

37. Hoffech chi weld rôl Mentrau Iaith Cymru yn datblygu? Os felly, sut?



38. I ba raddau rydych yn cydweithio gydag unrhyw Fenter Iaith yn eich ardal? Sut hoffech weld y berthynas/cydweithio yn datblygu?

I ba raddau rydych yn cydweithio gydag unrhyw Gynllun Gweithredu Iaith yn eich ardal (os oes Cynllun Gweithredu Iaith yn eich ardal)? Sut hoffech weld y berthynas/cydweithio yn datblygu?

Gwybodaeth arall

Dyma gwestiwn olaf yr holiadur. Mae croeso i chi roi gwybodaeth arall i'r tîm ymchwil ei hystyried

39. Oes gwybodaeth arall yr hoffech ei rhannu â ni?

Y dudalen olaf

Dyma dudalen olaf yr holiadur

Diolch yn fawr iawn i chi am neilltuo'r amser i lenwi'r arolwg hwn. Byddwn yn cysylltu â chi yn fuan er mwyn trefnu cyfweiliad.

Dilynwch y ddolen hon er mwyn ymweld â hafan:

[Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio](#) Ysgol Y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

11.5 Canllaw Cyfweiliadau wyneb yn wyneb

(Fframwaith yn unig yw hwn i arwain cyfweiliad. Gellir ofyn cwestiynau amgen yn ogystal)

Noder. Dylid cyfeirio at wybodaeth o'r holiadur a'r ddogfen SWOT a gafwyd gan y sefydliad wrth ofyn y cwestiynau isod.

1. I ba raddau y mae'r dull o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan gymunedau wedi'i deilwra'n briodol gan bob Menter i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru (gan adlewyrchu canran, nifer, oed a chefnidir ieithyddol y boblogaeth, a ydy lefel y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn briodol)

2. A ellir cyfiawnhau parhau i gyllido Mentrau unigol ar sail yr un raddfa â'r gorffennol
3. A oes angen Menter ym mhob rhan o Gymru
4. Faint o botensial sydd, os oes unrhyw botensial, i ddatblygu rôl y Mentrau ymhellach?
5. A ydy ystod cyfan y gweithgareddau'n addas
6. A ydynt yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r unigolion a chymunedau a wasan-aethir gan bob Menter
7. A ydy'r Mentrau yn arloesi ac yn ceisio datblygu syniadau newydd;
8. A ydy'r Mentrau yn gwneud gwaith y dylai eraill fod yn ei wneud (fel awdurdodau lleol)
9. A yw eu gwaith yn adlewyrchu'n briodol y blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Iaith Gymraeg (gan gydnabod hefyd bod angen diwallu anghenion a blaenoriaethau lleol
10. A ydy'r targedau a osodwyd ar gyfer y Mentrau presennol yn briodol ac yn ddigonol (o ran y grant a ddyfernir gan Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
11. A ydy'r Mentrau iaith yn blaenoriaethu eu gwaith yn ddigonol ac yn gweithredu'n ddigon strategol i wneud gwahaniaeth i sefyllfa'r iaith?
12. A ydy'r Mentrau iaith yn ffocysu'n ddigon clir ar weithgareddau sy'n mynd i sicrhau cynnydd ieithyddol (yn hytrach na phrosiectau datblygu cymunedol neu fasnachol)?
13. A oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Mentrau yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'i gilydd, gyda'r Cynlluniau Gweithredu Iaith, gyda 'phartneriaid iaith Gymraeg' eraill Llywodraeth Cymru a gyda sefydliadau eraill, fel awdurdodau lleol a Mentrau eraill a ariennir gan y llywodraeth?
14. A ydy'r Mentrau iaith unigol a'r rhwydwaith o Fentrau rhanbarthol a ledled Cymru (gan gynnwys Mentrau iaith Cymru) wedi eu strwythuro yn y fath fodd sy'n helpu i sicrhau gweithio effeithiol, gweithio mewn partneriaeth a rhannu arfer da
15. A fyddai'n fanteisiol uno rhai o'r Mentrau?
16. Pa rôl ddylai Mentrau iaith Cymru ei chael o ran datblygu a hyfforddi?
17. Sut y dylai rôl Mentrau iaith Cymru ddatblygu
18. Pa werth y gallai Mentrau iaith Cymru ei hychwanegu at waith y Mentrau?

11.6 Ffurflen Cydsynio

FFURFLEN CYDSYNIO I GYMRYD RHAN MEWN PROSIECT YMCHWIL (DRWY GYFWELIAD)

Prosiect: Adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Phrosiect Hybu'r Gymraeg Aman Tawe

Mae Uned Cynllunio, Iaith, a Pholisi Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, wedi ei chontractio gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr Adolygiad uchod. Mae'r Uned yn cydweithio â Sbectrwm Cyf yn ystod y cam casglu data. Mae'r cyfweiliad y gofynnir i chi gymryd rhan ynddo rhan o'r wybodaeth y bydd y tîm ymchwil yn ei chasglu er mwyn paratoi adroddiad i Lywodraeth Cymru.

Y sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn ymchwilio iddynt

At ddibenion yr Adolygiad, ystyr 'sefydliad' yw'r sefydliadau y mae'r Adolygiad hwn yn ymchwilio iddynt, sef y Mentrau Iaith a Mentrau Iaith Cymru, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe.

Os bydd gennych gwestiynau ynghylch y prosiect, cysylltwch â Dr Jeremy Evas, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad John Percival, Colum Rd, Caerdydd, CF10 3EU (evasi@caerdydd.ac.uk).

Adran 1: Gwybodaeth amdanoch chi

Eich enw _____

Y sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli _____

Adran 2: Datganiad

Rwyf dros 18 oed, a chydysyniaf i gymryd rhan yn y cyfweiliad sy'n rhan o'r Adolygiad uchod ar [Dyddiad cynnal y cyfweiliad __/__/2013].

1. Rwyf wedi darllen y wybodaeth yn y ddogfen hon.
2. Mae manylion unrhyw weithdrefnau a risgiau wedi eu hesbonio i mi i'm boddhad.
3. Cytunaf hefyd i'm gwybodaeth a'm cyfranogiad yn y cyfweiliad gael ei recordio.
4. Rwyf yn ymwybodol y dylwn gadw copi o'r Dafen Wybodaeth a'r Ffurflen Cydsynio at ddibenion cyfeirio.
5. Deallaf:
 - Na chaf fudd uniongyrchol o gymryd rhan yn yr Adolygiad hwn.
 - Fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl o'r Adolygiad ar unrhyw adeg ac i beidio â darparu ateb i gwestiynau penodol.
 - P'un a dynnaf yn ôl ai peidio, ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw wasanaeth a ddarperir i mi gan Brifysgol Caerdydd na Sbectrwm Cyf.
 - Y caf ofyn i'r recordio gael ei stopio ar unrhyw adeg, ac y caf dynnu'n ôl ar unrhyw adeg o'r cyfweiliad heb anfantais i mi.
6. Cytunaf/Ni chytunaf* i'w recordiad/nodiadau neu drawsgrifad o'r recordiad gael ei ddefnyddio gan ymchwilwyr eraill nad ydynt yn aelodau o'r tîm ymchwil, ond sy'n gwneud ymchwil gysylltiedig. * *dileer fel y bo'n briodol*

Llofnod y cyfranogwrDyddiad.....

Tystiaf fy mod wedi esbonio'r Adolygiad i'r cyfranogwr ac ystyriaaf ei fod e/ei bod hi'n deall yr hyn sydd ynghlwm wrtho ac yn rhoi cydsyniad rhydd i gymryd rhan.

Enw'r Ymchwilydd.....

Llofnod yr Ymchwilydd.....Dyddiad.....

1.1.7 Rhestr o'r sefydliadau a'u statws cyfansoddiadol


TABL 3: RHESTR O'R SEFYDLIADAU A'U STATWS CYFANSODDIADOL. FFYNHONNELL: YR HOLIADUR AR-LEIN

Enw'r Sefydliad	Statws Cyfansoddiadol
CGI (Cynllun Gweithredu Iaith) Bro DJ (Abergwaun)	Rhan o gyfansoddiad Menter Iaith Sir Benfro
CGI Bro Teifi	Llywodraeth Cymru
CGI Corwen	Llywodraeth Cymru
CGI Machynlleth	Llywodraeth Cymru
CGI Rhuthun	Llywodraeth Cymru
CGI De Arfon	Llywodraeth Cymru
Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe Hunaniaith	Partneriaeth heb ei chorffori
Menter Bro Dinefwr	Rhan o Gyngor Sir Gwynedd
Menter Bro Ogwr	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Brycheiniog a Maesyfed	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Caerdydd	Rhan o Gyngor Sir Powys
Menter Gorllewin Sir Gâr	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Iaith Merthyr Tudful	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Iaith Abertawe	Cwmni cyfyngedig
Menter Iaith Blaenau Gwent, Tor-faen a Mynwy	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Iaith Casnewydd	Mudiad gwirfoddol heb ei gorffori
Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot	Corff cymdeithasol cyfansoddiadol
Menter Iaith Conwy	Cwmni cyfyngedig
Menter Iaith Maldwyn	Cwmni cyfyngedig
Menter Iaith Môn	Cwmni cyfyngedig
Menter Iaith Sir Benfro	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Iaith Sir Caerffili	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Iaith Sir Ddinbych	Cwmni cyfyngedig, elusen gofrestrdig
Menter Iaith Sir y Fflint	Cwmni cyfyngedig
Menter Rhondda Cynon Taf	Elusen gofrestrdig

11.8 Cyllideb a ffynonellau incwm y Mentrau Iaith

Dylid nodi bod y graffiau isod wedi eu seilio ar wybodaeth a roddwyd i'r tîm ymchwil drwy'r holiadur. Nid ydynt wedi eu gwirio er cywirdeb, ac nid ydynt wedi bod yn destun awdit o unrhyw fath. Dylid nodi hefyd na chynhwysir cyfraniad 'mewn da' o gwbl yn y ffigurau isod, nac ychwaith ffigurau'r Cynlluniau Gweithredu Iaith na Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Yn unol â pholisi golygyddol cyffredinol gweddill yr Adolygiad, ni enwir Mentrau Iaith yn unigol


Incwm y Mentrau Iaith 2012/13: Grant Llywodraeth Cymru a Phob Ffynhonnell Arall



1

2


Incwm y Mentrau Iaith 2012/13: Grant Llywodraeth Cymru a Phob Ffynhonnell Arall



3

4

% grant Llywodraeth Cymru yn erbyn holl incwm arall y Mentrau Iaith



11.9 Gweithgareddau'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith

Ymdrinnir â gweithgareddau'r sefydliadau yn nhestun llawn yr adroddiad uchod. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys rhestr fanylach. Ceir rhestr lawn o weithgareddau Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe yn adran 11.10. Ffynhonnell: Holiadur Ar-lein yr Adolygiad.

- Clybiau ar ôl ysgol
- Clybiau gofal plant
- Cymanfaoedd canu
- Cynnal fforymau iaith lleol
- Cynnig cyfleoedd profiad gwaith
- Cynorthwyo Eisteddfodau lleol
- Cyrsiau Ail-gydio yn y Gymraeg
- Cyrsiau Amddiffyn plant
- Cyrsiau Blasu'r Gymraeg i Famau ifanc
- Cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a threftadaeth
- Dosbarthu nwyddau iaith gwaith
- Gwasanaethau cyfieithu
- Gwasanaethu fel 'porth' cyfrifiadurol ac fel arall, i weithgareddau Cymraeg yr ardal
- Gweithdai ysgrifennu creadigol/barddoni
- Gweithgareddau dawns
- Gweithgareddau ag ysgolion
- Gweithgareddau hamdden/awyr agored
- Gweithgareddau hybu trosglwyddiad iaith
- Gwersi Cymraeg i Oedolion
- Gwyliau ffilm a drama
- Hybu'r Gymraeg yn y sector preifat a gwirfoddol lleol
- Hyfforddi gweithwyr ieuenctid/cyngor sir
- Nosweithiau llawen
- Pilates/Ffotograffiaeth/Ieithoedd/Cymorth cyntaf/Cyrsiau Hyfforddiant Proffesiynol
- Prosiectau iechyd y cyhoedd
- Taith bandiau
- Teithiau i deuluoedd
- Trefnu cyngherddau
- Trefnu gwyliau undydd/deuddydd Cymraeg

11.10 Rhestr o weithgareddau Cynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe

Dyma rhestr o'r holl weithgareddau a gyflawnwyd rhwng sefydlu'r Cynllun ym mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2013. Ffynhonnell: Holiadur Ar-lein yr Adolygiad.

- Noson Lansio'r Pwerdai Iaith
- Cyfarfodydd y Pwerdai Iaith: Mae'r 4 Pwerdy yn cwrdd o leiaf 4 gwaith y flwyddyn
- DVDs Balchder Bro + Noson Lansio
- Miri Nadolig—Yn flynyddol
- Sioe Stryd Gŵyl Ddewi—Yn flynyddol
- Cwisiau Cyffredinol
- Clwb Hwyl a Sbri—Unwaith yr wythnos am bythefnos
- Parti Dewi—Yn flynyddol
- Diwrnod Aml Ddiwylliannol—Yn flynyddol
- Pêl-rwyd Dreigiau'r Dyffryn(2011-2012)—Yn wythnosol am 6 mis
- Caffi Clonc –Yn wythnosol am flwyddyn a hanner
- Acwstig Aman –Cyfres o 5 noson
- Babis y Bedol (2011-2012)—Yn wythnosol am flwyddyn
- 7 o Deithiau Cerdded
- Gig Santes Dwynwen
- Gig yng nghwmni Dewi Pws + Radwm
- Disgo Diwedd Tymor Disgo Santes Dwynwen
- Mynychu 'Stafell Stwnsh Ysgol Gyfun Ystalyfera—ar y cyd â MICNPT dwywaith yr wythnos
- 2 o nosweithiau ar y cyd â Fforwm Treftadaeth Ystradgynlais
- Bore Coffi Dewi Sant
- 4 sesiwn Zumba Cyfrwng Cymraeg
- Noson Garolau blynyddol
- 2 Ddiwrnod i'r Teulu
- 3 Noson 'Joió' (Cabaret)
- Cystadleuaeth Addurno Siop Ffenest yn cael ei gynnal yn flynyddol
- Cyngerdd ar y cyd â Chôr Meibion Dyffryn Aman
- Taith i weld Dewi Pws yn Perfformio
- Cystadleuaeth dylunio cardiau Santes Dwynwen
- Gig yng nghwmni Mynediad Am Ddim
- 4 Noson Gomedï
- Taith i Ffair Nadolig Sain Ffagan
- Taith y Fari Lwyd i Ysgol y Wern Ystalyfera
- Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi
- Gig yng nghwmni Dafydd Iwan Iaith yn y Cartref
- Prosiect Cefnogi Teuluoedd Difreintiedig—5 sesiwn3 cyfres o Brosiect Blas Ar Gymru—5 sesiwn yr un
- Babis y bedol (2012-2013)—Yn wythnosol am flwyddyn
- 3 Sesiwn Stori
- 3 Jamborî
- Bore Coffi ar y cyd â Twf

- Sesiwn Coginio Hanner Tymor
- Cydweithio â Chanolfannau Teuluol Ysgolion, Plant a Phobl Ifanc
- Gweithdy Bardd Plant Cymru
- Cydweithio â Clybiau Ieuenctid Cymraeg Lleol
- Cydweithio â'r Urdd mewn ysgolion uwchradd yn nalgylch y Cynllun
- Hyfforddiant i weithwyr ieuenctid y Cyngorau Sir
- Pêl-rwyd Dreigiau'r Dyffryn (2012-2013)—Yn wythnosol am 6 mis
- Taith i Oakwood
- Taith i fod yn rhan o gynulleidfa y rhaglen deledu 'Jonathan'
- Taith Bowlio 10
- Gweithdy Pêl-droed i ferched
- Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith i ddisgyblion ysgol
- Twrnamaint 'Pool'
- 7 sesiwn o weithdai Academi Roc Rhydaman
- Clwb Ieuenctid 'Y Stryd'—yn cael ei redeg yn wythnosol
- Cyflwyniadau i blant blwyddyn 6 yn amlinellu manteision dwyieithrwydd
- Cynhyrchu taflen 'Arbenigwyr Cymraeg'
- Cynorthwyo'n achlysurol â chynnal Clwb Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Aman
- 6 ysgol gynradd wedi derbyn sesiynau blasu 'Futsal' Gwaith, Iaith a'r Economi
- Cydweithio â Gyrfa Cymru—Cyfweiliadau Ffug
- Ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf yn Rhydaman ac Ystradgynlais Prosiectau Ymchwil
- Dangosyddion Iaith Rhydaman
- Dangosyddion Iaith Ystradgynlais
- Ymgyngoriad Ymhlith Detholiad o Gynrychiolwyr o Fusnesau Ardal Aman Tawe
- Darpariaeth Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg Rhaglenni Radio Cymunedol
- cyfres o raglenni radio cymunedol yn cael eu darlledu ar y we Hyrwyddo a Marchnata'r Gymraeg / Cynllun Aman Tawe
- Cynnal tudalen Facebook
- DVDs Balchder Bro
- Bwletinau a Datganiadau—yn electronig ac mewn papurau lleol/bro-misol
- Stondinau a Chyflwyniadau
- Anthem Aman Tawe
- Cydweithio a rhannu gwybodaeth ag Awdurdodau Lleol Yn y flwyddyn gyfredol mi fyddwn yn adeiladu ar lwyddiant a gweithgarwch y ddwy flynedd gyntaf drwy:
- Parhau ag ystod eang o weithgareddau'r Pwerdai Iaith gan gynnwys Teithiau Cerdded, Diwrnodau i'r Teulu, Digwyddiadau Cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i Oedolion, Cwisiau, cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr, etc.
- Cyfres arall o raglenni radio cymunedol.
- Cryfhau'r cysylltiad â'r cydweithio rhwng y Cynllun a phartneriaid allweddol (Twf, Urdd, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Oedolion, Merched y Wawr, Papurau Bro, Awdurdodau Lleol).
- Hyfforddiant i ddarparwyr gweithgareddau ieuenctid.
- Cynnal prosiectau i fewnfwyr i'r ardal.
- Datblygu ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf.
- Hyrwyddo a marchnata gwyliau ac ymgyrchoedd cenedlaethol Cymraeg o fewn ardal y Cynllun.
- Byddwn hefyd yn edrych i ddatblygu mwy yn y meysydd addysg a'r economi yn ystod y flwyddyn gyfredol.

12 Llyfryddiaeth

- ALVAREZ ENPARANTZA, J. L. 2001. Hacia una Socio-Lingüística Matemática. *Euskal Soziolinguistika Institua Sortzen: Sortzen*.
- ATKINSON, M., WILKIN, A., STOTT, A., DOHERTY, P. & KINDER, K. 2001. Multi-agency Working: A Detailed Study. National Foundation for Educational Research.
- CANOLFAN YMCHWIL CYMRU & CWMNI IAITH CYF. 2006. *Rhwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc: adroddiad terfynol* [Online]. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Available: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020421/http://www.wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/3561.pdf> [Accessed 28/11/13].
- CWMNI IAITH & MENTER A BUSNES 2002. Cynllun ar gyfer Datblygu Marchnad Lafur Ddwieithog: papur trafod gan Gwmni Iaith a Menter a Busnes. Castell Newydd Emlyn: Cwmni Iaith, Menter a Busnes.
- EVAS, J. 2011. Cynyddu defnyddio'r Gymraeg ar sail 'deilliannau': canllaw i sefydliadau sy'n derbyn grant gan y Bwrdd. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- EVAS, J. & WILLIAMS, C. 1997. Y Cynllun Ymchwil Cymunedol. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.
- LYNE, P., SATHERLEY, P. & ALLEN, D. 2000. Systematic review: effectiveness of interventions designed to reduce or remove barriers to change to improve interagency working. University of Wales College of Medicine.
- LLYWODRAETH CYMRU 2012. Iaith Fyw: Iaith Byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- LLYWODRAETH CYMRU 2013a. Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- LLYWODRAETH CYMRU 2013b. Strategaeth y Gymraeg: Cynllun Gweithredu 2013 i 2014 - iaith fyw: iaith Byw. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU 2003. Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- MENTRAU IAITH CYMRU, WILLIAMS, I. & DAVIES, M. L. 2013. Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg: Strategaeth sosio-economaidd i osod seiliau cadarnach i'r Gymraeg Llanrwst: Mentrau Iaith Cymru.
- NELDE, P. H., WILLIAMS, G. & STRUBELL I TRUETA, M. 1996. *Euromosaic : the production and reproduction of the minority language groups of the EU*, Luxembourg, Luxembourg : Office for Official Publications of the European Communities.
- SLOPER, P. 2004. Facilitators and barriers for co-ordinated multi-agency services. *Child: care, health and development*.
- WILLIAMS, C. H. 2013a. *Language Strategies in Comparative Perspective*, Cardiff, NPLD (Network for the Promotion of Linguistic Diversity).
- WILLIAMS, C. H. 2013b. *Minority language promotion, protection and regulation: the mask of piety*, Basingstoke, Palgrave MacMillan.
- WILLIAMS, G. 1992. *Sociolinguistics: A sociological critique*, London, New York, Routledge.
- WILLIAMS, G. & MORRIS, D. 2000. *Language Planning and Language Use: Welsh in a global age*, Cardiff, University of Wales Press.
- WOODING, N. 2008. Cyd-greu: Adroddiad Newydd ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr 21ain Ganrif. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

